# Monitro dalfeydd

15fed **Adroddiad Blynyddol**
ar Fecanwaith Atal Cenedlaethol
y Deyrnas Unedig
**2023/24**

CP 1209

# Monitro dalfeydd

# 15fed Adroddiad Blynyddol ar Fecanwaith Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig

2023/24

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar Orchymyn Ei Fawrhydi

Tachwedd 2024

CP 1209

OGL

© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3**

Lle'r ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn i'w weld yn **www.gov.uk/official-documents**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn **UKNPM@hmiprisons.gov.uk** neu HM Inspectorate of Prisons, 3rd floor, 10 South Colonnade, Canary Wharf, London E14 4PU

ISBN 978-1-5286-5296-4

E03247690 11/24

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

---

**Cynhyrchwyd yr holl waith celf a gynhwysir yn yr adroddiad hwn gan y rhai a gedwir yn y ddalfa ac fe'u hatgynhyrchir drwy garedigrwydd Koestler Arts**

p5: **Behind the Mic,** Carchar Ei Fawrhydi Brixton, Paentiad, 2024. Delwedd drwy garedigrwydd Koestler Arts.

p12: **If Only!**, Carchar Ei Fawrhydi, Wealstun, Paentiad, 2024. Delwedd drwy garedigrwydd Koestler Arts.

p14: **Aubergine,** Sefydliad Troseddwyr Ifanc EF Cookham Wood, Paentiad, 2024. Delwedd drwy garedigrwydd Koestler Arts.

p56: **Tag,** Vinney Green (cartrefi diogel i blant), Paentiad, 2024. Delwedd drwy garedigrwydd Koestler Arts.

p59: **Gorgeous Gargoyle**, Canolfan Symud Ymlaen ar gyfer Mewnfudwyr Harmondsworth, Serameg, 2024. Delwedd drwy garedigrwydd Koestler Arts.

p60: **Semi Skimmed Spilt Milk**, Carchar EF High Down, Crefftwaith, 2024. Delwedd drwy garedigrwydd Koestler Arts.

p64: **Free as a Bird in Prison**, Carchar EF Wormwood Scrubs, Cerflun, 2024. Delwedd drwy garedigrwydd Koestler Arts.

p69: **Bust**, Canolfan Troseddwyr Ifanc EF Hydebank Wood, Crefftwaith, 2024. Delwedd drwy garedigrwydd Koestler Arts.

p70: **The Tea Towel**, Carchar EF Magilligan, Pastel, 2024. Delwedd drwy garedigrwydd Koestler Arts.

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 12

**Cyflwr dalfeydd yn y DU: Canfyddiadau a dadansoddiadau NPM** 14

- **Amodau risg uchel** 15
  - Gorlenwi cronig 19
  - Amodau byw gwael 21
  - Diffyg gweithgarwch ystyrlon 26
  - Rheoli gwybodaeth 27
- **Materion ychwanegol i blant sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn y DU** 37
- **Effaith seicolegol dedfrydau amhenodol neu gadw am gyfnod amhenodol** 41
  - Cadw mewnfudwyr 41
- **Iechyd meddwl, hunan-niweidio, a marwolaethau a achoswyd gan yr unigolion eu hunain yn y ddalfa** 46
  - Carchardai 46
  - Cadw mewnfudwyr 48
  - Cystodaeth llys 50
  - Plant 50
  - Cadw dan glo oherwydd iechyd meddwl 50
- **Is-grwpiau cenedlaethol NPM** 60
  - Is-grŵp NPM Gogledd Iwerddon 61
  - Is-grŵp NPM Yr Alban 62
- **Mentrau NPM** 64

**Gwaith parhaus cyrff NPM a blaenoriaethau thematig** 70



# Rhagair: 15 mlynedd o'r NPM y DU

**"Y flwyddyn nesaf, bydd yr NPM yn dathlu ein 15fed pen-blwydd. Rwy'n gobeithio y gallwn wedyn adrodd ar ddiwygiadau llawer mwy arwyddocaol, ac y gall fy rhagair fod yn gwbl wreiddiol gan Mr Hardwick, Mr Wadham a Mr Strang." Wendy Sinclair Gieben, 14eg Adroddiad Blynyddol NPM**






Dyma eiriau'r Cadeirydd, Wendy Sinclair Gieben yn ei hadroddiad terfynol fel Cadeirydd NPM y DU. Yn ein Hadroddiad Blynyddol diwethaf, roeddem yn adlewyrchu, er ein bod yn cwrdd yn gyson â staff ymroddedig a medrus sy'n mynd i'r afael â heriau, bod llawer gormod o faterion systemig heb gael sylw yn ystod ein 15 mlynedd o brofiad fel NPM. Mae ein Hadroddiadau Blynyddol i gyd wedi bod yn llawer rhy debyg. Ailadroddir argymhellion. Ac yn anffodus, nid yw'r gobaith y byddai ein 15fed adroddiad yn newid sylweddol yn hyn o beth wedi dwyn ffrwyth.

Llofnododd a chadarnhaodd y DU OPCAT yn 2003, yr ail wlad i wneud hynny. Bum mlynedd yn ddiweddarach, dynododd y DU Fecanwaith Atal Cenedlaethol, gan benodi'r 18 sefydliad cyntaf i ffurfio'r NPM yn 2009. Rhoddodd adroddiad blynyddol diwethaf yr NPM ddarlun ôl-weithredol pryderus o 14 mlynedd a oedd yn cofnodi materion tebyg nad oedd, er eu bod yn aml yn cael eu cymryd o ddifrif a gwelliannau wedi'u gwneud gan staff ac arweinwyr mewn sefydliadau unigol, wedi arwain at newid cenedlaethol cyffredinol ers 2009. Rydym yn cydnabod y gall fod yn anodd mabwysiadu argymhellion a achosir gan ddiffyg adnoddau, gan na all y lleoliad sy'n destun craffu weithredu argymhellion yn effeithiol heb adnoddau digonol i wneud hynny, pa mor gryf bynnag yw eu hewyllys.

Mae cefnogaeth i'r rheini sydd â salwch meddwl, nifer cynyddol o bobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid a niferoedd staffio ansefydlog a phrofiad yn parhau i fod yn faterion allweddol ar draws pob lleoliad ers 2009. Yn y cyfamser, mae heriau strwythurol fel diffyg sail ddeddfwriaethol ar gyfer yr NPM (er bod gan y rhan fwyaf o'r cyrff sy'n rhan o'r NPM sail statudol) yn dal i fodoli 15 mlynedd ar ôl cael eu dynodi ac yn wyneb argymhellion dro ar ôl tro gan yr SPT a'r CPT.

Mae'r DU yn cydnabod bod y rheini sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn sefyllfa eithriadol o fregus i gael eu trin yn wael a bod craffu'n chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o atal hyn. Ond i ba ddiben? Mae cyrff hawliau dynol rhyngwladol, cyrff arolygu a monitro domestig, a chomisiynau a benodir gan y llywodraeth yn parhau i wneud argymhellion i wella canlyniadau i garcharorion. Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod llywodraethau wedi methu â gwneud cynnydd ystyrlon yn erbyn canfyddiadau'r cyrff y maent wedi'u penodi i graffu'n annibynnol ar ddalfeydd.

Wedi dweud hynny, mae craffu ataliol yn canolbwyntio nid yn unig ar yr hyn rydyn ni'n ei ganfod ar ymweliadau, ond ar yr hyn nad ydym yn ei ganfod. Rwy'n hyderus y byddai profiadau'r rhai sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn waeth o lawer heb fodel mor gryf o NPM. Dros y 15 mlynedd diwethaf, mae'r NPM, sy'n cynnwys 21 o sefydliadau sydd â nifer o ddibenion, wedi datblygu llais cydlynol ar faterion penodol ac wedi creu rhwydwaith ar gyfer cwestiynu a thrafodaethau rhwng cyrff. Mae cysylltiadau cryf rhwng sefydliadau sy'n gweithio ar y cyd yn golygu bod modd gweithio ar y cyd ar gyfer newid yn seiliedig ar dystiolaeth o wahanol leoliadau.

Mae NPM aml-gorff fel un y DU yn wynebu heriau. Ond wrth i ni ddechrau ein 16eg flwyddyn a myfyrio ar 15 mlynedd o weithredu, mae'n amlwg mai un o'r llwyddiannau mawr yw'r gallu i gamu'n ôl ac edrych ar faterion systemig ar draws lleoliadau dalfeydd ac awdurdodaethau. Mae ehangder eang NPM y DU – sy'n cynnwys dros 3,500 o bobl yn cynnal degau o filoedd o ymweliadau bob blwyddyn – yn rhoi cyfle enfawr i gyflawni ein mandad ataliol.

Mae'r adroddiad canlynol yn nodi ac yn pwyso a mesur y materion systemig sy'n effeithio ar bob lleoliad cadw, boed pobl yn cael eu dal yno am resymau iechyd, cyfiawnder troseddol neu weinyddol. Dros y 15 mlynedd nesaf, mae'r NPM yn gobeithio y byddwn yn gweld mwy o ffocws gan lunwyr polisïau ac arweinwyr y sector ar fynd i'r afael â'r materion hyn drwy ymgysylltu ag argymhellion, buddsoddi mewn staffio a seilwaith, a sicrhau bod unrhyw newidiadau statudol yn hyrwyddo hawliau pobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid.

Er bod hynny y tu allan i gyfnod adrodd yr adroddiad hwn, byddai'n esgeulus peidio â thynnu sylw at y newid cyntaf yn Llywodraeth y DU mewn pedair blynedd ar ddeg. Mae'r llywodraeth newydd hon wedi dod i rym ar adeg gymhleth a heriol i'r sector hwn. Rydym yn nodi cyhoeddiadau am adolygiad sydd ar y gweill ar ddedfrydu a Bil Iechyd Meddwl – bydd NPM y DU yn parhau i gyflawni ei mandad gan wneud popeth o fewn ein pŵer i sicrhau bod hawliau ceiswyr lloches yn cael eu cadw'n gadarn dan y chwyddwydr.

Mae'n siomedig iawn, os nad yn eithaf rhagweladwy, nad yw'r rhagair hwn wedi bodloni gobeithion yr olaf, i fyfyrio ar gamau breision o ran gwella triniaeth ac amodau i'r rhai a amddifadwyd o'u rhyddid.

Yn 2025, bydd Tîm Canolog NPM y DU yn dod i ddiwedd cynllun busnes dwy flynedd a ddaeth â ffocws i'n pedwar amcan strategol. Dros y cyfnod hwn o ddwy flynedd, mae'r NPM wedi cael ei drawsnewid yn sefydliad mwy credadwy, dylanwadol ac iach. Byddwn yn adeiladu ar y twf hwn yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r tîm canolog yn bodoli i gefnogi ac arwain cydymffurfiaeth OPCAT yn y DU, a hoffem ddiolch iddynt am eu hymdrechion yn y cyfnod adrodd hwn.

Eleni mae'r NPM wedi gwneud cyfraniadau ystyrlon i'r gofod rhyngwladol, gyda Sam yn cefnogi NPM ledled y byd i gyflawni OPCAT. Yr ydym wedi cyhoeddi canllawiau ataliol ar gyfer monitorau, sef y mynegiant cyntaf ers inni ddechrau ar yr hyn y mae atal yn ei olygu yn ei gyd-destun.

Ac rydym yn parhau i gynnig cymorth a chyngor i'n 3,500 o unigolion sy'n cyflawni'r mandad NPM.

Rhaid i mi gofnodi ein diolchiadau mwyaf diffuant i Wendy Sinclair Gieben, a oedd yn Gadeirydd yn ystod cyfnod adrodd yr adroddiad hwn. Mae'n gadael y swydd gyda gwaddol i fod yn falch ohono, ac mae'n anodd gorbwysleisio ei chefnogaeth mewn perthynas â dalfeydd.

Hoffem ddiolch hefyd i'n holl bartneriaid, aelodau a rhanddeiliaid am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth i'r sefydliad hwn o ran cynnal hawliau'r rheini sydd yn y ddalfa. I unigolion sy'n cael eu hamddifadu o ryddid, i staff sy'n gweithio yn y sector, ac i randdeiliaid sydd â diddordeb – rwy'n ymrwymo pob adnodd yn y swyddfa hon i'r nod hwnnw wrth i ni symud ymlaen – yn y pen draw – i atal cam-drin mewn mannau lle mae amddifadu o ryddid yn bodoli.



**Sherry Ralph**,
Cadeirydd, UK NPM



**Sam Gluckstein**,
Pennaeth UK NPM

national preventive mechanism

# Darpariaeth ddaearyddol



**Yr Alban**

- Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Yr Alban (HMIPS)
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi ar gyfer Yr Alban (HMICS)
- Independent Custody Visiting Scotland (ICVS)
- Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS)
- Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC)
- Arolygiaeth Gofal (CI)

**Lloegr**

- Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)
- Comisiynydd Plant Lloegr (CCE)
- Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted)

**Gogledd Iwerddon**

- Arolygiad Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJI)
- Byrddau Monitro Annibynnol ar gyfer Gogledd Iwerddon (IMB NI)
- Cynllun Ymweld â'r Ddalfa Annibynnol Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon (NIPBICVS)
- Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA)

**Y Deyrnas Unedig**

- Adolygwr Annibynnol o Ddeddfwriaeth Terfysgaeth (IRTL)

**Cymru**

- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

**Cymru a Lloegr**

- Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (Carchardai HMI)
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS)
- Cymdeithas Ymweliadau â'r Ddalfa Annibynnol (ICVA)
- Byrddau Monitro Annibynnol (IMB)
- Arsyllwyr Lleyg (LO)

# Mathau o graffu ar ddalfeydd

**Arolygiaeth Gofal**

Y prif gorff sy'n arolygu Gwasanaethau Llety Diogel a Gofal Cymdeithasol yn yr Alban.

**Y Comisiwn Ansawdd Gofal**

Prif gorff sy'n arolygu Cyfleusterau Iechyd Meddwl Fforensig, Cadw Dan Glo o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn Lloegr.

**Arolygiaeth Gofal Cymru**

Prif gorff sy'n arolygu Cartrefi Diogel i Blant, a Gofal Cymdeithasol DoLS yng Nghymru.

**Comisiynydd Plant Lloegr (CCE)**

Mae gan y CCE y pŵer statudol i fynd i mewn i unrhyw leoliad lle mae plentyn yn cael ei gadw.

**Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon**

Y prif gorff sy'n arolygu carchardai, dalfa'r heddlu, dalfa'r llys a chadw pobl ifanc yn y ddalfa yng Ngogledd Iwerddon.

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

Prif gorff sy'n arolygu cadw dan glo oherwydd iechyd meddwl yng Nghymru.

**Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM a'r Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS)**

Prif gorff sy'n arolygu cystodaeth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr.

**Arolygiaeth Cwnstabliaeth EF yn yr Alban**

Prif gorff sy'n arolygu cystodaeth yr heddlu yn Yr Alban.

**Arolygiaeth Carchardai EF (Cymru a Lloegr)**

Y prif gorff sy'n arolygu carchardai a dalfeydd y llysoedd yng Nghymru a Lloegr a chadw mewn canolfannau mewnfudo ledled y DU.

**Arolygiaeth Carchardai EF yn yr Alban**

Prif gorff sy'n arolygu ac yn monitro carchar a chystodaeth y llysoedd yn yr Alban.

**Cymdeithas Ymweliadau â'r Ddalfa Annibynnol**

Prif gorff sy'n cynrychioli monitro cystodaeth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr.

**Ymweliadau â'r Ddalfa Annibynnol Yr Alban**

Prif gorff sy'n monitro cystodaeth yr heddlu yn Yr Alban.

**Bwrdd Monitro Annibynnol**

Y prif gorff sy'n monitro carchardai yng Nghymru a Lloegr a chadw mewn canolfannau mewnfudo ledled y DU.

**Bwrdd Monitro Annibynnol (NI)**

Prif gorff sy'n monitro carchardai yng Ngogledd Iwerddon.

**Adolygwr Annibynnol o Ddeddfwriaeth Terfysgaeth (IRTL)**

Mae gan yr IRTL yr hawl i gael mynediad i'r ddalfa.

**Arsyllwyr Lleyg**

Prif gorff sy'n monitro trefniadau cystodaeth a hebrwng y llys yng Nghymru a Lloegr.

**Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban**

Prif gorff sy'n arolygu cadw dan glo oherwydd iechyd meddwl yn Yr Alban.

**Cynllun Ymweld â'r Ddalfa Annibynnol Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon**

Prif gorff sy'n monitro cystodaeth yr heddlu yng Ngogledd Iwerddon.

**Ofsted**

Y Prif Gorff sy'n arolygu Cartrefi Diogel i Blant a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yn Lloegr.

**Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd**

Prif gorff sy'n arolygu mannau lle mae pobl yn cael eu cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a llety diogel i blant yng Ngogledd Iwerddon.

**Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban**

Gall weithio ar y cyd ar faterion sy'n peri pryder ar y cyd a chael pwerau mynediad statudol yn yr Alban.

# Cyflwyniad



Mae 21 corff cyfansoddol Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU (NPM) yn cyhoeddi dros 100 o adroddiadau bob blwyddyn o ymweliadau craffu, arolygiadau, arsylwadau monitro parhaus ac ymchwil thematig. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r pethau cyffredin rhyngddynt er mwyn cyfeirio at faterion systemig mewn lleoliadau amddifadu o ryddid ledled y DU. Er bod yr amgylchiadau deddfwriaethol, economaidd a chymdeithasol yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn wahanol, ac er na fydd unrhyw leoliad lle mae rhywun yn cael ei amddifadu o'i ryddid yn union yr un fath â'i gilydd, mae tebygrwydd clir rhwng adroddiadau sy'n dangos pryderon ledled y DU am amodau a thriniaeth, sydd angen atebion cenedlaethol a chyfunol.

Mae gan y cyrff proffesiynol a lleyg sy'n rhan o'r NPM arbenigedd dwfn yn y sefydliadau a'r lleoliadau y maent yn craffu arnynt, yr ansawdd uchel iawn o ofal a chymorth mewn rhai, a'r problemau a wynebir gan bob un. Rôl adroddiad blynyddol NPM yw dod â chanfyddiadau at ei gilydd i nodi problemau systemig a allai fod mewn perygl o dorri erthygl 3 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ar hyn o bryd neu yn y dyfodol.[1] Mae'r rhan fwyaf o'r ffynonellau a ddefnyddir yn gyhoeddiadau sefydliadau NPM o'r flwyddyn adrodd. Lle nad yw'r rhain ar gael, mae sefydliadau wedi bwydo'n uniongyrchol i'r adroddiad drwy gyfraniadau ysgrifenedig.

Dros y flwyddyn, mae'r NPM wedi cymryd rhan mewn prosesau rhyngwladol sydd â'r nod o atal camdriniaeth a gwella safonau cadw. Daeth un o'r rhain, Pwyllgor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig, i gasgliad gyda'r pryderon canlynol am leoliadau cadw yn y DU, a gafodd eu hategu mewn adroddiadau a datganiadau gan yr Is-bwyllgor ar Atal Artaith (SPT), y Pwyllgor Ewropeaidd ar Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosbi Annynol neu Ddiraddiol (CPT) a Rapporteur Arbennig ar Artaith:

- amodau risg uchel fel:
  - gorlenwi cronig
  - amodau byw gwael
  - diffyg cyfundrefnau pwrpasol
  - rheoli gwybodaeth
- caethiwo plant ar eu pen eu hunain
- effaith seicolegol dedfrydau amhenodol neu gadw am gyfnod amhenodol
- iechyd meddwl, hunan-niweidio, a marwolaethau a achoswyd gan yr unigolion eu hunain yn y ddalfa

Mae'r pryderon hyn wedi cael eu defnyddio fel y prif benawdau ar gyfer rhan ddadansoddol yr adroddiad hwn, 'cyflwr dalfeydd yn y DU', sy'n cyflwyno canfyddiadau cyrff NPM rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Mae hyn yn adlewyrchu sut mae canfyddiadau gwaith y 3,500 o unigolion sy'n cyflawni mandad OPCAT yn y DU yn hysbysu'r dystiolaeth a gyflwynwyd i fecanweithiau hawliau dynol rhyngwladol. Roedd y rhain wedyn yn gosod disgwyliadau ar Lywodraeth San Steffan a'r llywodraethau datganoledig i wneud newidiadau sy'n sicrhau bod artaith a thriniaeth wael yn cael eu hatal yn y DU. Er bod sylw rhyngwladol eleni wedi canolbwyntio'n bennaf ar garchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc a chanolfannau cadw mewnfudwyr, mae'r adroddiad hwn hefyd yn trafod y pryderon hyn mewn lleoliadau eraill lle mae pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid, fel lleoliadau iechyd meddwl i gleifion mewnol, gwasanaethau llety diogel i blant a phobl ifanc, neu gystodaeth yr heddlu a'r llysoedd. Yna disgrifir gwaith ar y cyd NPM y DU i amlinellu sut y gall yr NPM ehangu a datblygu'r gwaith ataliol a wneir gan bob sefydliad unigol. Drwyddi draw, mae'r arbenigwyr arweiniol ar graffu yn cynnig eu safbwyntiau ar y lleoliadau maen nhw'n eu monitro, yn ymweld â nhw ac yn eu harolygu, er mwyn myfyrio ar y cyd ar y materion allweddol ledled y wlad.

1 Ochr yn ochr â chyfraith ryngwladol arall, mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith, a Chyfamod Rhyngwladol Hawliau Sifil a Gwleidyddol (ICCPR) erthygl 7.

# Cyflwr dalfeydd yn y DU: Canfyddiadau a dadansoddiadau NPM



## Amodau risg uchel

Rhoddwyd llawer o sylw i orboblogi cronig mewn dalfeydd cyfiawnder troseddol yn ddomestig ac yn rhyngwladol ac fe'i trafodir yn yr is-adran nesaf. Fodd bynnag, nid yw edrych ar hyn o bersbectif gofod yn unig – h.y. cael digon o adeiladau ac ystafelloedd i gadw pobl ynddynt – yn mynd yn ddigon pell i atal effeithiau negyddol hirdymor ymestyn gwasanaethau yn hytrach na'u newid, ailasesu pwy sydd eu hangen, ac os oes angen rhywbeth newydd yn lle hynny. Nid dim ond nifer y bobl mewn gofod sy'n effeithio ar orlenwi; mae ansawdd corfforol y gofod hwnnw, gallu staff i'w cefnogi a pharodrwydd ar gyfer anghenion cynyddol gymhleth unigolion sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid, i gyd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr hawl nid yn unig yn cael ei gwireddu i fod yn rhydd o driniaeth wael, ond holl elfennau'r hawliau fel hawliau i breifatrwydd, i safon ddigonol o iechyd, ac urddas sylfaenol pobl.

Mewn carchardai, arweiniodd y cynnydd parhaus yn y boblogaeth at amrywiol gynlluniau rhyddhau cynnar drwy gydol neu yn fuan ar ôl y flwyddyn adrodd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ac ailagor llety a oedd wedi'i ddatgomisiynu'n flaenorol yng Ngogledd Iwerddon. Pleidleisiodd Senedd yr Alban dros gymeradwyo Rhyddhau Cynnar mewn Argyfwng ar gyfer carcharorion ar ddedfrydau tymor byr a oedd eisoes i fod i gael eu rhyddhau yn y dyfodol agos.[2] Yng Nghymru a Lloegr, ym mis Hydref 2023 dechreuodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ganiatáu i garcharorion gael eu rhyddhau hyd at 18 diwrnod cyn eu dyddiad rhyddhau awtomatig, a gynyddodd i 70 diwrnod.[3]

Mae hyn yn dilyn lansio Operation Safeguard y flwyddyn flaenorol i ddefnyddio celloedd dalfa'r heddlu yng Nghymru a Lloegr i ddarparu ar gyfer poblogaeth y carchardai.[4] Mae Llywodraeth newydd San Steffan wedi ymestyn y dull gweithredu ar gyfer rhyddhau'n gynnar, gan gyflwyno cynllun rhyddhau cynnar newydd a fydd yn golygu bod rhai dedfrydau penodol safonol yn gostwng o 50% i 40% o'r ddedfryd wreiddiol. Yn anffodus, nid yw'r cynlluniau brys hyn yn mynd i'r afael ag argymhellion ynghylch effeithiau tymor hir poblogaeth sy'n chwyddo ar draws gwahanol leoliadau, a dim ond ateb tymor byr yw hwn. Bydd cynlluniau sy'n helpu i atal pobl rhag mynd i garchardai yn y lle cyntaf yn gwneud llawer mwy i fynd i'r afael â'r broblem hon mewn ffordd sy'n cefnogi unigolion, gweithwyr a'r cyhoedd.

I gymryd enghraifft o wasanaethau gofal diogel i blant a phobl ifanc yn Lloegr, nid yw gorlenwi yn broblem mewn Cartrefi Diogel i Blant (SCHs) gan fod lleoliadau o'r fath yn cael eu rheoleiddio a bod ganddynt nifer penodol o blant y gallant ofalu amdanynt yn unol â'u cofrestriad. Fodd bynnag, ni all cartrefi yn Lloegr bob amser ddefnyddio pob lleoliad ac maent yn gyffredinol ar gapasiti o oddeutu 65% i 70%, yn ôl Ofsted, oherwydd amrywiaeth o ffactorau. Yn Lloegr, bu cynnydd dros y pum mlynedd diwethaf mewn plant ag anghenion cymhleth iawn, gan gynnwys salwch meddwl, sy'n golygu bod angen cymarebau uwch o staff arnynt, ac na allant bob amser fyw gyda phlant eraill oherwydd risg.

2 **Rhyddhau Cynnar mewn Argyfwng – Gwasanaeth Carchardai yr Alban (sps.gov.uk)**

3 **Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i leihau'r pwysau ar gapasiti carchardai? (parliament.uk)**

4 **PR 240: OPERATION SAFEGUARD – The POA (poauk.org.uk)**

Yn yr Alban, nododd adroddiad interim gan y Children and Young People's Centre for Justice a Dartington Service Design Lab fod y rhan fwyaf o blant mewn gofal diogel "yn teimlo bod angen darpariaeth ar wahân ar gyfer plant sydd angen gofal ac amddiffyniad ar sail iechyd meddwl, gan fod gofal diogel yn cael ei ystyried yn amhriodol ac yn annigonol ar gyfer y cymorth yr oedd ei angen arnynt".[5] Roedd Adolygiad Llwybr Diogel yr Arolygiaeth Gofal, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023, yn adlewyrchu ymhellach "bod gan bron i hanner y bobl ifanc yn y sampl anghenion cymorth ychwanegol fel niwroamrywiaeth, cyflyrau iechyd meddwl neu anableddau dysgu".[6] Ar ben hynny, mae anawsterau o ran recriwtio a chadw staff yn parhau i herio gwasanaethau gofal diogel yn Lloegr ac yn yr Alban, gan ei gwneud yn anoddach i staff presennol ddarparu cymorth parhaus. Mae hen adeiladau nad ydynt yn addas i'w diben bellach yn broblem a nodwyd gan Ofsted yn Lloegr, sy'n adlewyrchu adroddiadau gan gyrff craffu mewn lleoliadau cadw eraill, yn enwedig carchardai.

Yn nalfa'r heddlu, staffio yw'r maes sydd wedi peri'r pryder thematig mwyaf a nodwyd ar gyfer ymwelwyr â'r ddalfa yn annibynnol (ICVs), gan adrodd bod staff aneffeithiol, yn enwedig yn ystod cyfnodau gofal iechyd, yn golygu nad yw rhai pobl sy'n cael eu dal yn y ddalfa yn gallu cael gafael ar ofal iechyd mewn modd amserol. Mae'r diffyg staff benywaidd yn y ddalfa, sy'n destun adroddiadau parhaus gan ICVs, yn golygu na all rhai menywod sy'n cael eu cadw gael eu dyrannu i aelod benywaidd o staff fel pwynt cyswllt. Mae diffyg staff y ddalfa hefyd yn creu effaith, gan effeithio ar driniaeth y rhai sy'n cael eu cadw, yn enwedig mynediad at gawodydd ac awyr iach. Lle nad yw ymarferwyr gofal iechyd wedi'u gwreiddio'n llawn yn unedau'r ddalfa, amharir ar barhad gofal y rhai sy'n cael eu cadw a methir atgyfeiriadau. Ochr yn ochr â hyn, mae oedi sylweddol o ran asesiadau a throsglwyddiadau iechyd meddwl.[7] Roedd diffyg staff gyda'r hyfforddiant cywir yn golygu nad oedd plant mewn rhai achosion yn cael eu cefnogi gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, ac roedd bylchau mewn hyfforddiant ar hawliau dynol, cynnal bywyd a dadebru.

Mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr, mae nifer y ceisiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) wedi parhau i godi, ymhell y tu hwnt i'r lefelau disgwyliedig pan gafodd y mesurau diogelu eu dylunio. Mae hyn yn golygu bod pobl mewn amgylchiadau bregus yn aros yn llawer rhy hir heb y mesurau diogelu cywir ar waith neu'n cael eu gadael heb warchodaeth gyfreithiol.

5 Reimagining Secure Care Interim Report – **Children and Young People's Centre for Justice (cycj.org.uk)**

6 **Secure Care Pathway Review – Care Inspectorate (careinspectorate.com)**

7 **Report on an inspection visit to police custody suites in West Midlands Police – His Majesty's Inspectorate of Constabulary and Fire & Rescue Services (justiceinspectorates.gov.uk)**

## Datganiad craffu: carchardai

Ar draws yr ystadau carchardai yng Nghymru a Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, mae poblogaethau carchardai sy'n cynyddu a gorlenwi, prinder staff a diffyg profiad, a seilwaith sy'n dirywio yn parhau i greu amgylchedd dan straen. Rydyn ni wedi gweld adeiladau nad ydynt yn addas i'r diben yn cael eu defnyddio eto, neu ddau o bobl yn cael eu gwasgu i gelloedd unigol, i ymdopi â mwy o garcharorion, heb ddigon o staff a/neu seilwaith ehangach i'w paratoi'n ddigonol ar gyfer eu rhyddhau a rheoli'r risg o aildroseddu. Mae'r NPM yn cydnabod bod ymateb i ymchwydd ym mhoblogaeth carchardai yn heriol ac yn defnyddio llawer o adnoddau, ond nid yw'n rheswm dros atal hawliau dynol a safonau gofal a thriniaeth. Mae'n gofyn am ymateb cynaliadwy sy'n darparu dewisiadau rhesymol yn lle dalfa tra'n darparu gwarchodaeth ddiogel sy'n cwrdd â safonau ar gyfer y rheini sydd ei angen.

Mae diffyg staff i ddarparu neu hwyluso mynediad at weithgarwch ac addysg bwrpasol, yn ogystal â phrinder mannau gweithgarwch, amser cyfyngedig allan o'r gell, a mwy o anawsterau talu am eitemau sylfaenol yn cyfleu darlun o drefn annigonol. Gyda diffyg gweithgareddau amgen, gwelwn argaeledd a galw parhaus am gyffuriau, nad yw'n gwneud dim i wella iechyd meddwl na diogelwch mewn carchardai ac sy'n atal gwaith adsefydlu hanfodol. Ar ben hynny, mae'r diffyg mynediad at weithgarwch pwrpasol a threfn deg yn broblem gynyddol i bobl sy'n cael eu cadw ar remand, gan fod nifer y bobl sydd ar remand am gyfnodau hir yn cynyddu.

Rydym yn gweld darlun cymysg o fynediad at ofal iechyd, yn enwedig cymorth iechyd meddwl. Mae'r amseroedd aros hir, sydd heb eu dogfennu'n aml, ar gyfer carcharorion y mae angen eu trosglwyddo i welyau iechyd meddwl fforensig yn effeithio ar lesiant unigolion a diogelwch cyffredinol yn y carchar. Mae unedau arwahanu yn cael eu gorddefnyddio i ymdopi â phroblemau iechyd meddwl difrifol, gan adael carcharorion agored i niwed mewn perygl o niwed di-droi'n-ôl ac yn cylchdroi mewn amgylchedd antherapiwtig, gyda swyddogion carchardai a nyrsys yn cael trafferth gofalu am rai o'r unigolion mwyaf gwael.

Mae llawer o dystiolaeth o ganlyniadau iechyd meddwl Dedfrydau Amhenodol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (IPP), ac eto mae'n rhaid i ni hefyd ystyried y gorgyffwrdd â dedfrydau tebyg eraill fel Gorchmynion am Gyfyngiadau Gydol Oes (OLR) yn yr Alban a Dedfrydau Carcharu Amhenodol (ICS) yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r ansicrwydd hir a'r diffyg eglurder ynghylch dyddiadau rhyddhau ar gyfer y rheini sy'n bwrw'r dedfrydau hyn yn gwaethygu heriau iechyd meddwl ac yn gwneud i garcharorion deimlo'n anobeithiol a gwangalon, sy'n cyfrannu at yr aflonyddwch yn ein carchardai.

**Mae'n amlwg bod mynd i'r afael â'r heriau hyn yn galw am fwy nag ymdrechion ynysig; mae'n golygu bod angen cydweithio'n effeithiol â sefydliadau partner allweddol. Roedd cydweithio effeithiol rhwng gwasanaethau gofal iechyd, awdurdodau carchardai, addysg a darparwyr sgiliau, y trydydd sector a chyrff perthnasol eraill bob amser yn bwysig ond mae bellach yn hanfodol i sicrhau bod gan garchardai gyfle i gyflawni eu pwrpas adsefydlu.**





**Elisabeth Davies**,
Cadeirydd Cenedlaethol,
Byrddau Monitro
Annibynnol (IMB)





**John Denvir**,
Cadeirydd, Byrddau Monitro
Annibynnol Gogledd
Iwerddon (IMBNI)





**Jacqui Durkin**,
Prif Arolygydd, Arolygu
Cyfiawnder Troseddol (CJI)





**Stephen Sandham**
Prif Arolygydd Dros Dro,
Arolygiaeth Carchardai
Ei Fawrhydi ar gyfer
yr Alban (HMIPS)





**Charlie Taylor**
Prif Arolygydd Carchardai
Ei Fawrhydi

## Gorlenwi cronig

### Carchardai

Roedd adroddiadau NPM drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys tystiolaeth i Bwyllgor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig, yn cofnodi “effeithiau niweidiol cronnol” gorlenwi cronig, amodau byw gwael a diffyg trefniadau pwrpasol mewn carchardai.[8] Roedd adroddiad blynyddol cyntaf NPM y DU, a gyhoeddwyd 15 mlynedd yn ôl, eisoes wedi codi “pryderon ynghylch y cynnydd yn y boblogaeth carchardai a gorlenwi mewn carchardai”, a’r effaith andwyol a gawsai hyn ar bob agwedd ar fywyd carcharor.[9] Mae sylwadau cloi’r pwyllgor yn cynnwys argymhellion bod y DU yn parhau â’i hymdrechion i leihau gorboblogi, yn enwedig drwy ddefnyddio mesurau digarchar yn unol â Rheolau Tokyo. Ym mis Hydref, darparodd y Bwrdd Monitro Annibynnol dystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder i boblogaeth carchardai’r dyfodol a chapasiti ystadau, gan nodi’r effeithiau negyddol ar wedduster, preifatrwydd, diogelwch, cynnydd ac ailsefydlu yn sgil gorlenwi mewn carchardai.[10] Gwnaeth Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Artaith argymhelliad rhyngwladol eleni i wella’r wybodaeth sydd ar gael i lunwyr polisïau a phenderfyniadau, cyrff monitro, erlynwyr a barnwyr ar fesurau i wella amodau a mesur capasiti, yn ogystal â dewisiadau eraill sydd ar gael yn lle cadw.[11]

Yn yr Alban, cyrhaeddodd “gorlenwi, sy’n fater sydd wedi gwreiddio'n styfnig… bwynt argyfwng gyda phoblogaeth carchardai sy’n llawer mwy na’r gallu…i ddarparu profiad adsefydlu, dyngarol”.[12] Mewn un arolygiad, gwelwyd celloedd bach yn lletya dau garcharor mewn amodau cyfyng er bod HMPIS wedi ailadrodd y pryder hwn drwy gydol y 10 mlynedd diwethaf, gyda rhai celloedd a rennir yn llai o lawer na’r gofod lleiaf a argymhellir gan y CPT.[13] Yna ysgrifennodd y Prif Arolygydd Wendy Sinclair-Gieben at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder a Materion Cartref ar fater gorlenwi ym mis Medi 2023, a nododd ym mis Awst 2024 fod “yr argyfwng wedi dwysáu”. Canfu adolygiad o amodau mewn Unedau Gwahanu ac Ailintegreiddio (SRUs) fod yr amgylchedd ffisegol yn dywyll, yn anysgogol ac yn antherapiwtig – ddim yn addas i’r diben o ystyried anghenion cymhleth iawn llawer o’r carcharorion yno.[14]

8 **Sylwadau terfynol ar wythfed adroddiad cyfnodol Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon – Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol Pwyllgor Hawliau Dynol (tbinternet.ohchr.org)**

9 **Adroddiad Blynyddol Cyntaf 2009-10 – Mecanwaith Atal Cenedlaethol (nationalpreventivemechanism.org.uk)**

10 **Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Gadeirydd Cenedlaethol y Byrddau Monitro Annibynnol ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder i boblogaeth carchardai yn y dyfodol a chapasiti’r ystad -** IBM (pwyllgorau.parliament.uk)

11 **Current issues and good practices in prison management – UN Human Rights Council (undocs.org)**

12 **Rhagair gan Brif Arolygydd Carchardai EF yr Alban – Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd EF 2023-24 (prisoninsinspectoratescotland.gov.uk)**

13 **HM Chief Inspector’s Annual Report 2023-24 – HM Chief Inspector’s Prisons for Scotland (prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**

14 **A Thematic Review Of Segregation In Scottish Prisons – HM Inspectorate of Prisons for Scotland (prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**

Nid oes gan gelloedd SRU ac ardaloedd a rennir fynediad at ysgogiad synhwyraidd, gwybyddol, corfforol neu gymdeithasol – mae angen gwell mynediad at olau naturiol, ffenestri mwy, gwell cylchrediad aer, mynediad at natur, a chyfleusterau mynegiant creadigol i hwyluso gwell iechyd meddwl drwy ysgogi synhwyraidd.

Yng Ngogledd Iwerddon, roedd adroddiad ar arolygiad dirybudd o Garchar Maghaberry, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023, yn nodi bod cynnydd sylweddol yn y boblogaeth carchardai yn 2022 wedi arwain at 376 o garcharorion yn rhannu celloedd, gyda'r ganolfan noson gyntaf yn aml yn agos at orlenwi, ac y byddai poblogaeth carcharorion sy'n cynyddu yn "parhau i atal cynnydd" yn y carchar.[15] Un o ysgogwyr arwyddocaol y cynnydd yn y boblogaeth yng Ngogledd Iwerddon oedd cyfran y bobl a oedd yn cael eu cadw ar remand a oedd yn llawer uwch nag mewn awdurdodaethau eraill yn y Deyrnas Unedig.[16] Roedd cynnydd sylweddol yn y boblogaeth wedi tanseilio cynnydd mewn datblygiad personol gan fod rhaid adleoli staff ymroddedig i weithio ar adain breswyl, ac ni allai staff newydd a recriwtiwyd ymdopi â'r cynnydd.[17] Canfu adolygiad annibynnol o'r cynnydd fod 200 yn fwy o garcharorion nag ar adeg yr arolygiad llawn, gyda 100 ohonynt yn cael eu cadw ar remand. Parhaodd bron i 400 o ddynion i rannu celloedd, ac roedd llety hŷn a feirniadwyd gan arolygwyr wedi cael ei ddefnyddio eto i ymdopi â'r boblogaeth sy'n tyfu. Roedd adnoddau wedi cael eu hailgyfeirio i ddarparu adnodd seicoleg ychwanegol ac ymyriadau, ond roedd y gwasanaeth yn dal i fod yn brin o adnoddau ac nid oedd yn diwallu anghenion niferus ac amrywiol y boblogaeth garchardai uwch. Er gwaethaf yr heriau hyn, canfu'r adolygiad fod amser allan o'r gell wedi cynyddu o un awr i ddwy, gan ganiatáu amser yn yr awyr agored, ymarfer corff a bwyta y tu allan i gelloedd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddull cywir o gofnodi amser allan o'r gell, a fydd yn hanfodol i sicrhau bod gwelliannau'n parhau ac nad yw dynion yn treulio gormod o amser heb ryngweithio ystyrlon, mynediad i'r awyr agored a'r lleiafswm o ymarfer corff sydd ar gael. Yng Ngharchar Magilligan, nododd adolygiad annibynnol o gynnydd hefyd bod cynnydd parhaus ym mhoblogaeth y carchar ochr yn ochr â gwaddol pandemig COVID-19 a hinsawdd ariannol anodd yn heriau o ran datblygu carcharorion.[18] Roedd y cynnydd sylweddol yn nifer y menywod yng Ngharchar Merched Hydebank Wood hefyd yn bryder.

### Cystodaeth llys

Mewn rhai llysoedd yng Nghymru a Lloegr, mae Arsyllwyr Lleyg yn adrodd bod pobl mewn cystodaeth yn cael eu cadw mewn amodau gorlawn gyda llawer gormod o garcharorion mewn un gell.

### Canolfannau Hyfforddi Diogel

Ar hyn o bryd, mae Canolfan Hyfforddi Ddiogel Oakhill (STC) yn gofalu am oddeutu 70 o blant, sy'n gwneud yr amodau byw yn gyfyng ac sy'n gosod heriau i'r darparwr ddiwallu anghenion plant yno, sy'n aml yn gymhleth, yn ôl Ofsted.

15 An unannounced inspection of Maghaberry Prison 20 September – 6 October 2022 – Criminal Inspection Northern Ireland (cjini.org)

16 The operation of Bail and Remand in Northern Ireland – Criminal Inspection Northern Ireland (cjini.org)

17 Report of an Independent Review of Progress at Maghaberry Prison – Criminal Inspection Northern Ireland (cjini.org)

18 Report of an independent review of progress at Magilligan Prison – Criminal Inspection Northern Ireland (cjini.org)

Oherwydd diffyg staffio ar adegau i gefnogi'r garfan hon, mae plant wedi cael eu cyfyngu i'w hystafelloedd am gyfnodau hwy nag sy'n angenrheidiol. Mae caethiwo pobl ifanc ar eu pen eu hunain wedi'i wahardd yn llwyr gan Reolau'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer Amddiffyn Pobl Ifanc sy'n Colli eu Rhyddid pan gaiff ei ddefnyddio fel cosb gan y gallai beryglu iechyd corfforol neu feddyliol y person ifanc dan sylw (Rheol 67). Er nad yw'n cael ei ddefnyddio fel cosb yn yr achos hwn, rhaid ystyried effeithiau cyfyngu plant i'w hystafell o ddifrif. Mae rheol 32 yn mynnu bod dyluniad cyfleusterau cadw ar gyfer pobl ifanc yn cyd-fynd â nod adsefydlu sefydliadau preswyl, gan roi sylw dyledus i ysgogiadau synhwyraidd, cyfleoedd i gysylltu a chymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, ymarfer corff a hamdden.

### Academïau diogel 16 i 19 oed

Roedd y ddarpariaeth gyntaf o'i math hon wedi'i chofrestru gan Ofsted ar 8 Awst ac nid yw wedi cael ei harolygu eto. Mae gan academïau diogel 16 i 19 oed statws deuol. Maent yn cael eu cofrestru gyda Ofsted ac yn cael eu harolygu a'u rheoleiddio ganddynt fel cartrefi diogel i blant ac yn cael eu rheoleiddio gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder fel academïau 16 i 19. Mae academïau 16 i 19 diogel yn gartref i blant sy'n cael eu remandio gan y llysoedd i'w cadw yn y ddalfa neu sy'n bwrw dedfryd o garchar.

## Amodau byw gwael

### Carchardai

Roedd amodau byw wedi dirywio mewn llawer o garchardai yng Nghymru a Lloegr, gyda gorlenwi yn gwaethygu amodau gwael.[19] Cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai EF bedwar hysbysiad brys, er enghraifft yn CEF Bedford, a oedd yn fudr iawn ac yn orlawn.[20] Roedd Bryste a Bedford wedi cael hysbysiadau brys yn flaenorol yn 2018 a 2019, yn y drefn honno. Roedd dwy ran o dair o'r Byrddau Monitro Annibynnol yn feirniadol o ddiffyg atgyweirio ffisegol mewn sefydliadau, gyda rhai'n cael eu disgrifio fel rhai "annynol, heb fynediad at lanweithdra sylfaenol", tra bod gwaith cynnal a chadw arferol yn cael ei wneud yn fwy anodd neu'n amhosibl oherwydd pwysau poblogaeth.[21] Roedd systemau gwresogi wedi torri yn golygu bod rhai carcharorion yn cael eu gadael mewn tymheredd oer neu boeth annioddefol, gyda systemau awyru gwael, llifogydd a fermin yn achosi problemau ychwanegol.[22] Mae celloedd unigol yn cael eu gorddefnyddio hyd at y pwynt nad yw hyd yn oed pobl sydd ag angen un gell am resymau iechyd yn sicr o gael un. Ni allai carcharorion hŷn a'r rheini sydd ag anableddau corfforol bob amser gael mynediad at ddrysau celloedd a gwelyau ac weithiau gallent droi at ffyrdd anniogel o symud o gwmpas.

19 **HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual Report 2023-24 (cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com)**

20 **HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual Report 2023-24 (cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com)**

21 **Written evidence submitted by the National Chair of Independent Monitoring Boards for the Justice Select Committee inquiry into the future prison population and estate capacity** (committees.parliament.uk); **Independent Monitoring Board highlights significant concerns across places of detention in 2023 National Annual Report – Independent Monitoring Boards (imb.org.uk)**

22 **HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual Report 2023-24 (cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com)**; **Written evidence submitted by the National Chair of Independent Monitoring Boards for the Justice Select Committee inquiry into the future prison population and estate capacity** (committees.parliament.uk)

Roedd carcharorion hŷn yn cael eu lletya mewn unedau gwahanu os nad oedd llety priodol arall ar gael.[23] Roedd unedau arwahanu'n cael eu defnyddio'n aml ar gyfer cyfnodau estynedig ar gyfer carcharorion a oedd angen cael eu gwahanu oherwydd gwrthdaro neu wrth aros i gael eu trosglwyddo yng Nghymru a Lloegr.[24] Yn unol â Rheolau Nelson Mandela, dim ond mewn achosion eithriadol fel dewis olaf y dylai caethiwo unigol, sy'n cyfeirio at gaethiwo heb gyswllt dynol ystyrlon am 22 awr neu fwy y dydd, gael ei ddefnyddio, ac am gyfnod mor fyr â phosibl. Dylid ei wahardd mewn achosion pan fo carcharorion ag anableddau meddyliol pe bai'n gwaethygu'r cyflyrau hyn (Rheol 45). Mae caethiwo unigol estynedig yn cyfeirio at gaethiwo unigol am gyfnod o fwy na 15 diwrnod yn olynol, a thu hwnt i hynny gall fod yn driniaeth annynol a diraddiol. Mae'r CPT yn nodi "gall caethiwo unigol, mewn rhai amgylchiadau, fod yn driniaeth annynol a diraddiol; beth bynnag fo'r achos, dylai pob math o gaethiwo unigol fod mor fyr â phosibl".[25]

Yn yr Alban, mae HMIPS yn adrodd bod gan yr Alban "sefydliadau carchar Fictoraidd hen ffasiwn o hyd" sydd wedi arwain at ddatgomisiynu celloedd a strwythurau to diffygiol (yng Ngharchar EF Greenock) o ganlyniad i ddŵr yn gollwng.[26] Nododd Monitorau Carchardai Annibynnol (IPMs) bryderon sylweddol yn ddeillio o annigonolrwydd hirdymor yr adeilad. Er bod y dderbynfa wedi cael ei hadnewyddu a bod celloedd dal a ddisgrifiwyd yn flaenorol fel rhai "tebyg i gwpwrdd" wedi cael eu disodli, roedd yr awyru a'r golau naturiol yn gyfyngedig oherwydd pensaernïaeth Fictoraidd yr adeilad, ac roedd y seilwaith, ynghyd â chyfyngiadau poblogaeth, yn golygu nad oedd cawodydd dyddiol yn bosibl i bawb (mewn gwirionedd dim ond i'r rheini â swyddi ffisegol neu sesiynau campfa). Er bod y carchar yn lân yn gyffredinol, roedd tystiolaeth o farciau dŵr a llwydni a malltod.[27] Mae hyn i gyd yn dangos y potensial ar gyfer effeithiau negyddol adeiladau hen ffasiwn a diffyg atgyweirio ar iechyd, hylendid ac urddas pobl. Mae darparu safonau byw digonol hefyd yn ymestyn i iechyd, maeth a chostau byw. Canfu HMIPS fod carcharorion yn cael trafferth gyda phrisiau cynyddol tra nad oedd cynnydd cyfatebol yn eu cyflogau am eu gwaith.[28] Yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Polmont, roedd y gyllideb fwyd ddyddiol fesul carcharor yn golygu ei bod yn fwyfwy anodd i'r carchar ddarparu prydau ffres a maethlon, ac nid yw HMIPS yn ystyried bod y gyllideb ar gyfer bwyd ar draws carchardai yn yr Alban yn addas i ddarparu'r maeth sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd iach, gan argymell bod Gwasanaeth Carchardai'r Alban a Llywodraeth yr Alban yn adolygu'r gyllideb fwyd ar gyfer pob carchar yn yr Alban.[29]

23 **Written evidence submitted by the National Chair of Independent Monitoring Boards for the Justice Select Committee inquiry into the future prison population and estate capacity** (committees.parliament.uk)

24 **Independent Monitoring Board highlights significant concerns across places of detention in 2023 National Annual Report – Independent Monitoring Boards (imb.org.uk)**

25 CPT, 2il Adroddiad Cyffredinol ar Weithgareddau'r CPT, paragraff 56.

26 **HM Chief Inspector's Annual Report 2023-24 – HM Inspectorate of Prisons for Scotland (prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**

27 **Independent Prison Monitoring (IPM) Findings Annual Report – HM Inspectorate of Prisons for Scotland (prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**

28 Independent **Prison Monitoring (IPM) Findings Annual Report – HM Inspectorate of Prisons for Scotland (prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**

29 **HMP YOI Polmont Full Inspection 2023 – August 2023** – HM Inspectorate of Prisons for Scotland (prisonsinspectoratescotland.gov.uk)

Yng Ngogledd Iwerddon, roedd gwelliannau i'w gweld yng Ngharchar Magilligan o ran glendid, gyda mannau cymunedol mwy golau a chroesawgar. Nid oedd y canfyddiadau o erlid staff wedi cael sylw ac nid oedd arweinwyr wedi cymryd unrhyw gamau ar y cyd yn hyn o beth, er eu bod wedi derbyn yr argymhelliad mewn dau arolygiad blaenorol.

### Cystodaeth llys

Yn Lloegr, er bod rhai amodau wedi gwella yng nghystodaeth llys a arolygwyd yn y gorffennol gan HMIP, roedd diffyg cyfleusterau hygyrch yn llysoedd Surrey a Sussex yn golygu bod pobl â nam symudedd yn cael eu trosglwyddo ymhell o'u cartref, gyda threfniadau annigonol yn cael eu gwneud i'w cefnogi i deithio adref, tra bod enghreifftiau o gelloedd ddim yn ddigon glân ac angen mwy o waith cynnal a chadw rheolaidd.[30] Roedd angen gwella ansawdd gweithgareddau hefyd mewn rhai unedau cystodaeth yn y llysoedd (CCUs).[31] Roedd defnyddio cyffion a chwilio rheolaidd yn digwydd ym mhob CCU a arolygwyd gan HMIP (Cymru a Lloegr); er bod y sefyllfa o ran defnyddio cyffion wedi gwella yn Surrey a Sussex, roedd gan HMIP bryderon ynghylch a oedd y defnydd yn gymesur.[32] Gall defnyddio cyffion neu chwilio yn anghymesur neu'n ddiangen beryglu urddas y sawl sy'n cael ei gadw. Yn yr Alban, roedd un CCU o dan y ddaear a dim ond yn hygyrch gyda grisiau cul, a oedd yn golygu bod yn rhaid i garcharorion anabl gael eu cadw mewn ystafelloedd tystion yn y llys.

### Dalfa'r heddlu

Yng Nghymru a Lloegr, roedd arolygiadau gan HMICFRS wedi nodi pwyntiau clymu; mewn un lleoliad roedd y rhain wedi cael eu nodi mewn arolygiad blaenorol, gyda fawr ddim yn cael ei wneud i liniaru risgiau gan nad oedd staff wedi cael eu briffio.[33] Yn yr Alban, canfu arolygiad o ddalfa'r heddlu fod dyluniad yr adeilad  ac amodau aer gwael yn gwneud ystafelloedd cyfweld yn anghyfforddus mewn tywydd cynnes,  ac er bod gan gelloedd olau naturiol, roedd gosodiad eu goleuadau deuol ond yn cael ei reoli o bell wrth y ddesg gyhuddo.[34] Gall tymereddau sy'n rhy boeth neu'n rhy oer effeithio ar y gallu i feddwl yn glir a chwblhau tasgau bob dydd a allai hefyd effeithio ar ganlyniadau cyfweliadau. Mae hyn yn codi pryderon ynghylch yr hawl i annibyniaeth ac urddas, yn ogystal â'r effeithiau mwy uniongyrchol ar y cyfweliad.

30 Report on an inspection visit to court custody facilities in **Surrey and Sussex July 2023 – HMI Prisons (hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk)**

31 Report on an inspection visit to court custody facilities in **Humber and South Yorkshire December 2023 – HMI Prisons (hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk)**

32 Report on an inspection visit to court custody facilities in **Bedfordshire, Hertfordshire and Cambridgeshire April 2023 – HMI Prisons (hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk)**; Report on an inspection visit to court custody facilities in **Surrey and Sussex July 2023 – HMI Prisons (hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk);** Report on an inspection visit to court custody facilities in **Humber and South Yorkshire December 2023 – HMI Prisons (hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk)**

33 **Report on an inspection visit to police custody suites in West Yorkshire Police – His Majesty's Inspectorate of Constabulary and Fire & Rescue Services (justiceinspectorates.gov.uk)**

34 **HMICS Custody Inspection Report – Fife – HM Inspectorate of Constabulary in Scotland (hmics.scot)**

Er bod anghysur sy'n gysylltiedig â thymheredd yn gallu bod yn broblem i'r holl garcharorion, mae gwaith gan y Gymdeithas Ymweliadau â'r Ddalfa Annibynnol ar gymorth i fenywod sy'n mynd drwy'r menopos yn awgrymu y bydd hyn yn cael effaith anghymesur ar y grŵp hwn, a ddylai gael mynediad at gelloedd oerach y gellir rheoli eu tymheredd os oes angen.[35]

Nododd ymwelwyr â'r ddalfa yn yr Alban ddiffyg argaeledd cyfleusterau ymolchi a chawodydd addas ar draws ystâd y ddalfa. Mae hyn yn peri pryder ynghylch hylendid ac urddas y rhai sy'n cael eu cadw.[36] Pan fydd person yn cael ei gadw yn nalfa'r heddlu am fwy na diwrnod, rhaid cynnig cyfleusterau iddynt ymolchi a/neu eillio o leiaf unwaith y dydd.[37] Roeddent hefyd yn nodi mater diwylliant ceisiadau yn nalfa'r heddlu, gyda charcharorion ddim yn cael eu llythyr hawliau bob amser, cysylltu â pherson a enwir, neu wybod bod deunydd darllen ar gael.[38] Mae ymwelwyr â'r ddalfa yn yr Alban yn nodi bod darpariaeth gofal iechyd yn her benodol, gan nad oes gan bob cyfleuster ddarpariaeth feddygol ar y safle, sy'n gallu arwain at oedi wrth gael mynediad at feddyginiaeth. Weithiau, nid yw'r rhai sy'n cael eu cadw yn cael gwybod am ba hyd y byddant yn aros, sy'n "gallu ychwanegu at y pryder a'r straen y gallai'r rhai sy'n cael eu cadw yn y ddalfa ei brofi'n barod".[39]

Mae'r Rheolau Sylfaenol Safonol ar gyfer Trin Carcharorion (Rheolau Nelson Mandela) a Rheolau Carchardai Ewrop ill dau yn mynnu bod safonau iechyd yn cael eu bodloni, gan roi sylw dyledus i amodau hinsoddol, ansawdd aer, arwynebedd llawr gofynnol, goleuo ac awyru (Rheol Nelson Mandela 13), a gyda gosodiadau glanweithdra digonol i bawb eu defnyddio mewn modd glân a gweddus pryd bynnag y bo angen (Rheol 15, 16). Dylai pob rhan o garchar a ddefnyddir gan garcharorion gael eu cynnal a'u cadw'n briodol fel eu bod "yn hollol lân bob amser" (Rheol 17). Er bod Rheolau Nelson Mandela a Rheolau Carchardai Ewropeaidd yn berthnasol i garchardai, maent yn enghraifft o ddisgwyliadau mewn lleoliadau cadw eraill lle mae OPCAT yn berthnasol, fel dalfa'r heddlu.

Yng Nghymru a Lloegr, mae diffyg asesiad risg digonol yn nalfa'r heddlu cyn noeth-chwilio neu ddefnyddio dillad gwrth-rwygo yn parhau i godi pryderon ynghylch urddas y rhai sy'n cael eu cadw, sy'n un o gerrig sylfaen diogelwch meddwl ac uniondeb ar gyfer cydymffurfio ag erthygl 3. Parhaodd rhai canolfannau i ddefnyddio dillad gwrth-rwygo i reoli risg, heb gyfiawnhad digonol dros ei ddefnyddio. Yn Swydd Gaerhirfryn, defnyddiwyd siwtiau gwrth-rwygo yn rhy aml, heb gyfiawnhad digonol, weithiau mewn ymateb i ymddygiad yn hytrach na rheoli risg. Yn ôl HMICFRS. "weithiau dim ond oherwydd na fydd y sawl sy'n cael ei gadw'n gaeth yn ateb cwestiynau'r asesiad risg".[40] Mewn rhai achosion, defnyddiwyd grym i dynnu dillad; lle nad oes cyfiawnhad dros dynnu dillad yn y lle cyntaf. Mae hyn yn ddiangen ac felly'n ddefnydd o rym heb gyfiawnhad.

35 **The Menopause Transition Report from the Betterment (Healthcare) Working Group – ICVA (icva.org.uk)**

36 Police Performance Committee 12 September 2023 – Scottish Police Authority **(spa.police.uk)**

37 SOP Gofal a Lles adran 35.

38 **Independent Custody Visiting Scotland (ICVS): Key activity for Q3 2023 (October – December) – Scottish Police Authority (spa.police.uk)**

39 Independent Custody Visiting Scotland Annual Report 2023-24 – Scottish Police Authority **(spa.police.uk)**

40 **Report on an inspection visit to police custody suites in Lancashire – HM Inspectorate of Constabulary and Fire & Rescue Services and Care Quality Commission (justiceinspectorates.gov.uk)**

Fel maes i'w wella mewn arolygiad blaenorol, mae'r diffyg camau a gymerwyd wedi peri pryder i HMICFRS. Mewn mannau eraill, nid oedd urddas bob amser yn cael ei sicrhau pan oedd dillad y sawl a oedd yn cael ei gadw yn cael eu tynnu, ac yn gyffredinol roedd rheoli risg yn broblem.

Roedd ICVs yn yr Alban hefyd yn codi pryderon ynghylch defnyddio dillad gwrth-glymu, gyda dull un maint yn golygu ei fod yn anaddas i'r diben ar gyfer carcharorion llai a charcharorion benywaidd.[41] Fodd bynnag, mae HMIC wedi nodi bod Gwasanaeth Heddlu'r Alban wedi datrys mater dillad gwrth-glymu ac nid yw wedi gweld tystiolaeth bod hyn yn broblem barhaus ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae gwaith ICVA ar ddillad gwrth-rwygo wedi argymell y dylid rhoi'r gorau i'w ddefnyddio'n ddiofyn yn absenoldeb gwybodaeth am risg.[42]

Yng Ngogledd Iwerddon, canfu'r Bwrdd Plismona fod noeth-chwiliadau ar gyfer pobl ifanc a phlant yn cael eu cynnal yn unol ag "arferion hirsefydlog" yn lle Codau ac arweiniad PACE, heb unrhyw heriau gan staff uwch er gwaethaf cwestiynau gan aelodau'r Bwrdd Plismona, cyrff anllywodraethol neu gyfryngau cyhoeddus.[43] Mae hyn yn tystio i ddylanwad cryf diwylliant ac arweinyddiaeth yn y gweithle ar arferion a'u heffeithiau ar driniaeth ac urddas y rhai sy'n cael eu cadw. Mae hefyd yn dangos nad yw rôl craffu yn dod i ben pan gyhoeddir canfyddiadau – mae angen ymgysylltu go iawn gan fannau cadw er mwyn sicrhau bod mesurau diogelu hawliau dynol yn cael eu cynnal ym mhob lleoliad. Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd Cynghorydd Hawliau Dynol y Bwrdd adroddiad ar noeth-chwilio plant a phobl ifanc yn nalfa'r heddlu, a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion i PSNI eu hystyried, gan gynnwys argymhelliad 8:

> **"Dylai'r PSNI ailystyried ei drefniadau goruchwylio a llywodraethu ar gyfer noeth-chwilio plant sydd yn y ddalfa. Wrth wneud hynny, dylai ystyried canllawiau diweddar y Panelau Craffu ar Gadw gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a sefydlu Panel Craffu ar Gystodaeth, fel yr un sydd ar waith yng Ngwnstabliaeth Suffolk, i sicrhau bod yr holl noeth-chwiliadau'n cael eu hystyried gan 'arbenigwyr' allanol fel Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a darparwr Cynllun Oedolion Priodol Gogledd Iwerddon, sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig ar gyfer y rôl."**

Rhoddwyd yr argymhelliad hwn ar waith a gweithiodd PSNI gyda'r bwrdd i sefydlu Panel Craffu ar Noeth-Chwilio Pobl Ifanc. Mae'r panel hwn yn cael ei gadeirio gan gynrychiolydd PSNI ac mae'n cynnwys dau gynrychiolydd o Gynllun Ymweld â'r Ddalfa Annibynnol (ICV) y bwrdd ac aelod o Gynllun Oedolion Priodol Gogledd Iwerddon. Cynhaliwyd y panel swyddogol cyntaf ar 28 Chwefror 2024 ac edrychodd ar y cofnodion mewn perthynas â'r holl noeth-chwiliadau mewn perthynas â phobl ifanc a gynhaliwyd rhwng mis Awst 2023 a mis Ionawr 2024.

### Iechyd a gofal cymdeithasol

O dan Safonau Pwyllgor Ewrop ar gyfer Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosb Annynol neu Ddiraddiol (CPT), mae gan gleifion hawl i amgylchedd o safon addas.

41 Police Performance Committee 12 September 2023 – Scottish Police Authority **(spa.police.uk)**

42 **Anti-Rip Clothing Update Report – ICVA (icva.org.uk)**

43 **Children and Young People: Strip Searching in Police Custody – Human Rights Review (nipolicingboard.org.uk)**

Fodd bynnag, yn ystod arolygiadau yn Lloegr, canfu CQC rai wardiau nad oeddent yn lân, gyda bwyd ar y llawr, dodrefn wedi'u rhwygo a methiant i sicrhau hylendid priodol mewn mannau paratoi bwyd. Mewn un archwiliad roedd pla o lygod ar y ward. Mewn rhai achosion, mae wardiau wedi cau oherwydd bod yr amgylchedd yn anniogel.[44]

Mae gwaith y Comisiwn Ansawdd Gofal hyd yma eleni ar fonitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl wedi dangos bod amgylchedd anaddas wardiau cleifion mewnol yn parhau i fod yn bryder a bod achosion o dorri amodau wardiau rhyw cymysg yn parhau i gynyddu, sydd â goblygiadau o ran diogelwch i gleifion. Gall pobl y mae salwch meddwl yn effeithio arnynt weithredu mewn ffyrdd diymatal ar adegau, neu efallai nad oes ganddynt y gallu meddyliol i wneud penderfyniadau doeth am berthnasoedd. Efallai eu bod hefyd wedi cael eu cam-drin yn y gorffennol, a allai fod wedi cyfrannu at eu salwch meddwl ac a allai eu rhoi mewn perygl o gael eu hecsbloetio gan eraill.

## Diffyg gweithgarwch ystyrlon

### Carchardai

Mae prif bryderon IMB yng Nghymru a Lloegr, a gyflwynwyd dro ar ôl tro i weinidogion, yn ymwneud â gweithgarwch pwrpasol, amser allan o'r gell, prinder staff ac amodau perthnasol.[45] Hwn hefyd oedd y maes y canfu HMIP oedd yn perfformio waethaf, o blith pedwar maes prawf carchar iach, ar draws Cymru a Lloegr.[46] Er bod rhai sefydliadau unigol wedi gwneud gwelliannau dros y flwyddyn, yn enwedig carchardai agored a oedd yn tueddu i ddarparu gwell mynediad at weithgarwch pwrpasol,[47] roedd blaenoriaethau arweinyddiaeth, diffygion cenedlaethol o ran staffio a chapasiti ar gyfer atgyweiriadau, a phoblogaeth gynyddol y carchardai, wedi arwain at garcharorion yn treulio hyd at 23 awr y dydd yn eu celloedd mewn rhai carchardai a gweithgarwch pwrpasol annigonol, a oedd yn cynyddu teimladau o anobaith a diflastod, sy'n ffactorau risg mewn ymddygiad hunan-niweidio.[48] Roedd y penwythnosau yn y carchar yn arbennig o wael yng Nghymru a Lloegr, gyda 60% o garcharorion yn cael llai na 2.5 awr y dydd allan o'r gell bob dydd, rhai yn gadael eu celloedd am 45 munud yn unig ac mewn un carchar dim ond yn gallu gadael eu celloedd i gasglu prydau bwyd.[49] Mae hyn yn ei gwneud yn amhosibl cwblhau tasgau hanfodol fel cael cawod, glanhau eu gofod byw, cyflwyno gwaith papur, cysylltu â ffrindiau a theulu, a mynd allan i'r awyr agored. Adroddodd IMB am ardaloedd cawod â llwydni, wedi'u hawyru'n wael o ganlyniad i ddiffyg amser i gwblhau dyletswyddau glanhau.[50]

44 **The state of health care and adult social care in England 2023/24 – Care Quality Commission (cqc.org.uk)**

45 **Independent Monitoring Board highlights significant concerns across places of detention in 2023 National Annual Report – Independent Monitoring Boards (imb.org.uk)**

46 **HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual Report 2023-24 (cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com)**

47 Arolygiadau ystâd agored HMIP.

48 **Written evidence submitted by the National Chair of Independent Monitoring Boards for the Justice Select Committee inquiry into the future prison population and estate capacity** (committees.parliament.uk)

49 **A thematic review of weekends in prison by HM Chief Inspector of Prisons March 2023 (justiceinspectorates.gov.uk)**

50 **HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual Report 2023-24 (cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com)**

Mae Rheolau Nelson Mandela yn mynnu bod o leiaf awr o ymarfer corff addas yn cael ei gynnal bob dydd yn yr awyr agored.51 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn nodi y dylai pob carcharor allu treulio rhwng 30 munud ac awr y tu allan yn yr awyr agored bob dydd.[52]

Mae dehongli rheolau carchardai yn yr Alban yn golygu nad oes gan garcharorion ar remand ddigon o opsiynau i gymryd rhan mewn gweithgarwch ystyrlon. Roedd adroddiadau blynyddol IPM yn codi pryderon bod y drefn yn annigonol mewn sawl carchar, er enghraifft dywedodd adroddiad Caeredin:

> **"Y gyfundrefn neu'r diffyg cyfundrefn oedd un o'r materion mwyaf arwyddocaol i CEF Caeredin yn ystod y flwyddyn. Mynegodd yr holl garcharorion a staff bryderon am y diffyg gweithgarwch gyda'r nos. I ormod o garcharorion, y realiti oedd eu bod yn treulio'r rhan fwyaf o'u diwrnod dan glo yn eu cell, yn enwedig y rheini sydd ar remand."**

Yng Ngharchar Maghaberry yng Ngogledd Iwerddon, er bod sganwyr corff a phrofion cyffuriau gorfodol wedi dechrau mynd i'r afael â mater cyflenwi cyffuriau, mae'r masnachu meddyginiaeth paraus yn y carchar yn awgrymu nad yw'r galw wedi newid.[53] Roedd mwy o staff i gefnogi datblygiad ond nid oeddent yn gallu cyflawni eu swyddogaeth arbenigol yn gyson oherwydd eu bod yn cael eu hadleoli i unedau preswyl a agorwyd i hwyluso cynnydd yn y boblogaeth. Mae'r adroddiad yn pwysleisio bod "ymdrechion yn cael eu llesteirio gan ddiffyg staff".[54]

**Iechyd a gofal cymdeithasol**

Mae cleifion mewn ysbytai o dan y DoLS yn Lloegr yn parhau i fynegi pryderon ynghylch sut mae materion staffio yn arwain at ddiffyg gweithgareddau therapiwtig a diffyg sesiynau un-i-un gyda staff. Mae gweithgareddau fel cerddoriaeth, celf neu weithgarwch corfforol sydd wedi'u teilwra i anghenion unigol pobl yn rhoi ymdeimlad o bwrpas a strwythur i bobl bob dydd ac yn eu helpu i wella. Mae cleifion wedi dweud wrth y CQC bod diffyg y rhain yn arwain at ddiflastod ac y gallent arwain at drais rhwng cleifion a staff, ymddygiad ymosodol gan gleifion neu hunan-niweidio.[55]

### Rheoli gwybodaeth

Ar draws pedair gwlad y DU a gwahanol leoliadau cadw, mae patrymau o fethu cofnodi, rhannu a defnyddio gwybodaeth yn peryglu preifatrwydd, iechyd meddwl, diogelwch a chraffu.

## Dalfa'r heddlu

Ar gyfer dalfa'r heddlu, canfu adolygiad o noeth-chwilio plant a phobl ifanc yng Ngogledd Iwerddon fod PSNI wedi ymateb i gwestiynau gyda data anghywir (mae PSNI wedi addo mynd i'r afael â'r mater hwn yn gadarn i sicrhau nad yw'n digwydd eto), ac ar draws y DU nid oes data sy'n cael ei gadw'n genedlaethol ar nifer y noeth-chwiliadau sy'n cael eu cynnal yn y ddalfa, pwy sy'n cael eu chwilio a pham, lle cânt eu chwilio neu pwy sy'n bresennol.[56]

---

51 Standard Minimum Rules for the Treatment of Prisoners – United Nations (unodc.org)
52 Prison life: Prisoner privileges and rights - GOV.UK (www.gov.uk)
53 Report of an Independent Review of Progress at Maghaberry Prison – Criminal Justice Inspection Northern Ireland (cjini.org)
54 Report of an Independent Review of Progress at Maghaberry Prison – Criminal Justice Inspection Northern Ireland (cjini.org)
55 State of Care 2023/24 – Care Quality Commission (cqc.org.uk)
56 Children and Young People: Strip Searching in Police Custody – Human Rights Review (nipolicingboard.org.uk)

Mae'n orfodol erbyn hyn i heddluoedd ddarparu'r data hwn i'r Swyddfa Gartref ar gyfer Cymru a Lloegr, ond mae diffyg data cyflawn ac wedi'i ddadgyfuno'n atal dealltwriaeth effeithiol a gwella arferion.

Nid oedd rhai canolfannau cadw'r heddlu yng Nghymru a Lloegr yn casglu gwybodaeth allweddol am faint o bobl a oedd yn cael eu cadw yn y ddalfa yr oedd angen asesiad arnynt o dan adran 2 y Ddeddf Iechyd Meddwl, neu am faint o amser yr oeddent yn aros. Yn nalfa'r Heddlu yn Dorset, mae'r rhai sydd wedi'u cadw yn aros yn rhy hir am asesiad y Ddeddf Iechyd Meddwl pan fo angen hynny, ac yna bydd mwy o aros i gael eu trosglwyddo i gyfleuster iechyd meddwl.[57] Mae'r diffyg data sydd ar gael yn golygu nad oes darlun clir o ba mor dda y mae anghenion pobl sydd ag afiechyd meddwl yn cael eu diwallu, a phrin yw'r gwaith ar y cyd a wneir i wella'r canlyniadau. Roedd hyn yn effeithio ar ddealltwriaeth o sut mae gwasanaethau dalfa yn effeithio ar ganlyniadau i garcharorion, neu sut i'w gwella.[58] Roedd adolygiad cyfyngedig o ddigwyddiadau ar deledu cylch cyfyng mewn rhai safleoedd, a defnydd aml o PAVA mewn celloedd a choridorau mewn eraill, yn golygu bod llywodraethu a throsolwg o ddefnyddio grym yn anfoddhaol ac ni allai heddluoedd bob amser ddangos bod grym ac ataliaeth yn cael eu defnyddio dim ond pan fo hynny'n gyfiawn neu'n gymesur. Rhaid i'r defnydd o rym fod yn angenrheidiol ac yn gymesur bob amser. Mae angen cadw cofnodion yn effeithiol er mwyn gallu cwestiynu pam a faint o rym a ddefnyddir i ddal swyddogion i gyfrif, er mwyn atal y posibilrwydd o ddefnyddio grym anesgusodol neu rym mympwyol.

Roedd cadw cofnodion ac arsylwadau hefyd yn peri pryder mewn rhai arolygiadau o'r heddlu yn yr Alban. Mewn un, roedd diffygion mewn cofnodion o chwiliadau, ymweliadau â chelloedd, darparu bwyd a diod a meddyginiaethau, a chyfleusterau ymolchi yn bryder, ac nid oedd yn glir a oedd y broblem yn ymwneud â darparu gwasanaethau neu gadw cofnodion.[59] Roedd arsylwi ar deledu cylch cyfyng mewn rhai safleoedd yn "anaddas i'r diben", gan ei fod yn agos at y ddesg gyhuddo ac yn achosi pryderon ynghylch preifatrwydd pobl agored i niwed sy'n cael eu harsylwi.[60] Mewn mannau eraill, nid oedd gwybodaeth ysgrifenedig am gynlluniau gofal ac ymyriadau gofal iechyd ac asesiadau iechyd meddwl eilaidd yn cael ei rhannu'n dda rhwng y darparwr gofal iechyd a'r ganolfan gadw.[61] Yn yr arolygiad hwn, roedd systemau TG ar wahân yn golygu bod diweddariadau ar gynlluniau gofal yn cael eu darparu ar lafar yn bennaf, gan adael bylchau mewn gwybodaeth hanfodol. Mae hyn yn golygu efallai na fydd staff mewn gwahanol leoliadau ar hyd taith unigolyn i'r ddalfa neu oddi yno yn gwybod am ffactorau risg perthnasol a allai effeithio ar eu hiechyd, eu diogelwch neu eu triniaeth.

---

57 **Report on an inspection visit to police custody suites in Dorset – His Majesty's Inspectorate of Constabulary and Fire & Rescue Services (justiceinspectorates.gov.uk)**

58 **Report on an inspection visit to police custody suites in West Yorkshire Police – His Majesty's Inspectorate of Constabulary and Fire & Rescue Services (justiceinspectorates.gov.uk); Report on an inspection visit to police custody suites in South Wales Police – His Majesty's Inspectorate of Constabulary and Fire & Rescue Services (justiceinspectorates.gov.uk)**

59 **HMICS Custody Inspection Report – Fife – HM Inspectorate of Constabulary in Scotland (hmics.scot)**

60 **HMICS Custody Progress Inspection report – Dumfries and Galloway – HM Inspectorate of Constabulary in Scotland (hmics.scot)**

61 **HMICS Custody Inspection Report – Tayside – HM Inspectorate of Constabulary in Scotland (hmics.scot)**

## Cystodaeth llys

Yn y nifer fach o unedau cadw yn y ddalfa (CCU) a arolygwyd eleni yn yr Alban, canfu'r arolygwyr bryderon ynghylch teledu cylch cyfyng a defnyddio gwybodaeth mewn tri archwiliad gan adael ardaloedd o CCUs heb eu cwmpasu, gan atal arsylwi parhaus ar unrhyw un fyddai angen hynny.[62] Mewn un lleoliad, roedd methu â defnyddio gwybodaeth yn golygu bod dau garcharor wedi cael eu rhoi yn yr un gell er eu bod  gwybodaeth am dueddiadau crefyddol a thuedd cyfeiriadedd rhywiol wedi'i gofnodi am un ohonynt, gan roi'r llall mewn perygl.[63] Roedd celloedd gwag eraill ar gael. Mae gan wladwriaethau ddyletswydd ragweithiol i sicrhau diogelwch y rhai sydd dan eu gofal ac mae risgiau o'r fath y gellir eu hosgoi i ddiogelwch unigolion yn codi pryderon ynghylch mesurau i sicrhau bod holl awdurdodau'r DU a'u staff yn ymwybodol o fesurau i ddiogelu unigolion rhag gwahaniaethu, niwed corfforol neu feddyliol. Nid oedd y staff yn gofyn nac yn cofnodi cwestiynau pwysig ynghylch risg wrth i bobl gyrraedd y ddalfa ac nid oeddent yn darllen eu hawliau nac yn sicrhau eu bod wedi deall eu hawliau wrth gyrraedd. Er bod staff yn arbennig o dda am dreulio amser gyda charcharorion a nodi eu hanghenion, eu cyflwr corfforol a meddyliol, ni chafodd y wybodaeth hon ei diweddaru ar system TG GEOAmey oriau ar ôl y rhyngweithio cychwynnol.

Yng Nghymru a Lloegr, nid oedd cofnodion digidol am hebrwng person bob amser yn drylwyr ac nid oedd staff bob amser yn cael eu briffio'n gyson ar risgiau yn nalfa'r llys.[64] Nid oedd datganiadau staff unigol yn cyfiawnhau defnyddio grym yn ddigonol, ac nid oedd y broses sicrhau ansawdd yn ddigon trylwyr. Fodd bynnag, roedd arweinwyr wedi sefydlu gwasanaeth e-bost a oedd yn caniatáu i staff y ddalfa, hebrwng a gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF gyfathrebu'n effeithiol, gan ganiatáu cyfnewid gwybodaeth mewn amser real a oedd yn lleihau oedi.

## Cadw dan glo oherwydd iechyd meddwl

Cynhaliodd Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban adolygiad o ddefnydd dro ar ôl tro o bwerau lle diogel yr heddlu o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, gan ganfod bod rhai pobl yn cael eu cludo dro ar ôl tro at wasanaethau iechyd meddwl gan wasanaethau'r heddlu o dan adran 297 y Ddeddf hon.[65] Nid oedd gan tua 35% o'r bobl a oedd yn cael eu cadw dro ar ôl tro o dan y ddarpariaeth hon gynllun gofal wedi'i gofnodi, sy'n codi pryderon bod gwybodaeth bwysig, a fyddai'n cefnogi llesiant neu adferiad, yn ddiffygiol. Roedd yr adolygiad yn argymell bod gan bawb sy'n cael eu cadw dan glo dan adran 297 dro ar ôl tro gynllun gofal sy'n seiliedig ar drawma ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cynnwys cynllun argyfwng. Ar ben hynny, argymhellodd adolygiad o'r Weithdrefn Weithredu Safonol gan Heddlu'r Alban i sicrhau nad oes unrhyw gleifion yn cael eu cadw'n gaeth yn ddiangen os ydynt yn fodlon a bod ganddynt y gallu i gael eu hasesu'n wirfoddol. Dylai byrddau iechyd sicrhau nad yw eu cynlluniau argyfwng seiciatrig yn creu disgwyliad anfwriadol bod cleifion yn cael eu cadw gan wasanaethau'r heddlu er mwyn cael asesiad iechyd meddwl brys.

62 **Report on Inspection of the court Custody Provision, Selkirk Sheriff Court 18 May 2023 – HM Inspectorate of Prisons for Scotland (prisonsinspectoratescotland.gov.uk); Report on Inspection of the court Custody Provision, Forfard Sheriff Court 26 April 2023 – HM Inspectorate of Prisons for Scotland (prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**

63 **Report on Inspection of the court Custody Provision, Forfard Sheriff Court 26 April 2023 – HM Inspectorate of Prisons for Scotland (prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**

64 Report on an inspection visit to court custody facilities in **Surrey and Sussex July 2023 – HMI Prisons (hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk)**

65 The role of police officers in mental health support – **Mental Welfare Commission for Scotland (mwcscot.org.uk)**

## Datganiad craffu: iechyd meddwl fforensig ac iechyd meddwl cleifion mewnol

Fel NPM y DU, rydyn ni'n gyfrifol am graffu ar yr amodau a'r driniaeth sydd wedi'u profi gan unigolion sy'n cael eu cadw mewn lleoliadau iechyd meddwl ar draws y DU. Y materion pwysicaf a welwn yw heriau staffio fel nifer uchel o swyddi gwag ar gyfer staff cymwysedig, mwy o absenoldeb staff a mwy o ddibyniaeth ar staff asiantaeth. Mae tîm cyson sy'n cael ei gefnogi'n dda, sy'n teimlo ei fod yn gallu mynegi pryderon pan fo angen, yn hanfodol i ddiogelwch ac effeithiolrwydd wardiau iechyd meddwl. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae staff yn cael eu gadael heb gefnogaeth ddigonol, ac mae diwylliant o feio yn arwain at weithlu sy'n teimlo'n ynysig yn hytrach na wedi'u grymuso. Nid yw hyn yn darparu ansawdd gofal cyson, rhagweladwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn y mae ar y rheini sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn y sefyllfaoedd hyn ei angen ac sy'n haeddu ei gael i hwyluso adferiad ac adsefydliad.

Ar ben hynny, mae cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol yn parhau i fod yn anghyson, yn enwedig mewn meysydd fel tawelu gwrthdaro a defnyddio grym. Mae'n hanfodol bod yr holl staff mewn lleoliadau iechyd meddwl a gofal cymdeithasol yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i reoli sefyllfaoedd heriol yn ddiogel ac yn effeithiol. Fel arall, mae staff a chleifion yn cael eu rhoi mewn mwy o berygl, gan danseilio diogelwch ac ansawdd cyffredinol y gofal tra bo cleifion yn cael eu cadw.

Mae prinder adnoddau yn cyfrannu at oedi annerbyniol wrth drosglwyddo unigolion o'r carchar i gyfleusterau gofal iechyd meddwl priodol. Mae'r oedi hwn, nad yw wedi'i gofnodi'n ddigon da, yn peryglu triniaeth ac adferiad rhai o'r unigolion mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas tra byddant yn aros mewn lleoliadau antherapiwtig yn aml, nad ydynt yn gallu diwallu eu hanghenion iechyd meddwl. Yng Ngogledd Iwerddon, mae deddfwriaeth bresennol Gorchymyn Iechyd Meddwl – nad yw'n caniatáu amddifadu rhyddid unigolion sydd wedi cael diagnosis ymarferol o anhwylder personoliaeth – yn arwain at nifer uchel a chynyddol yn dod i'r carchar, lle nad oes modd eu cefnogi'n ddigonol.

**Mae'r problemau adnoddau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn hysbys iawn ac nid ydynt wedi'u cyfyngu i leoliadau fforensig neu ddiogel iawn. Mae gorlenwi parhaus gwasanaethau iechyd meddwl cleifion mewnol yn arwain at broblemau sylweddol i unigolion sydd â salwch meddwl neu anableddau dysgu y mae angen eu derbyn i gael eu hasesu a'u trin. Fodd bynnag, mae'r effeithiau maen nhw'n eu cael ar y rheini sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn tueddu i gael eu cuddio rhag y cyhoedd oherwydd eu natur gaeedig. Dyma ble mae'r bylchau yn y gwasanaethau yn creu'r risg uchaf o gael amodau gwael a thriniaeth wael, gan atal gwasanaeth digonol i gefnogi'r rhai hynny sydd ag angen cymorth, ac i hyrwyddo diogelwch cleifion a'r cyhoedd. Ochr yn ochr â chyflwr gwael ystâd yr ysbytai iechyd meddwl a'r diffyg gwelyau a darpariaeth gymunedol, mae'r risgiau hyn yn cynyddu.**





**Arun Chopra**
Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban





**Chris Dzikiti**
Prif Arolygydd Gofal Iechyd, y Comisiwn Ansawdd Gofal





**Wendy McGregor**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Iechyd Meddwl, Anabledd Dysgu ac Awdurdod Gwella Ansawdd, Rheoleiddio a Gofal Iechyd yn y Carchar (RQIA)





**John Powell**
Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

## Caethiwo plant ar eu pen eu hunain

Adroddodd HMIPS am y diffyg mynediad cymharol at un awr y dydd o awyr iach yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc yr Alban, Polmont, gyda phlant yn treulio cyfnodau hir dan glo yn eu hystafelloedd. Dywedodd 46% o blant yn y sefydliad STI nad oeddent yn gallu treulio mwy na dwy awr y tu allan i'w cell bob dydd, 38% o'r bobl ifanc yn yr ystâd oedolion, o'i gymharu â 29% o oedolion o grwpiau oedran eraill.[66] Yn Lloegr, roedd pob Bwrdd Monitro Annibynnol a oedd yn monitro Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn nodi prinder staff a oedd yn arwain at gyfyngiadau ychwanegol ar amser allan o'r gell, yn enwedig ar benwythnosau.[67] Ar draws Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, dywedodd llawer o blant eu bod wedi treulio "y rhan fwyaf o'u dedfryd wedi'u cloi ar eu pen eu hunain yn eu cell gydag ychydig iawn o gyswllt dynol".

> **"Er gwaethaf cyflogi cannoedd o staff a dwsinau o reolwyr, nid oedd y rhan fwyaf o safleoedd yn gallu cynnal un sgwrs ystyrlon gyda phob plentyn bob wythnos."[68]**

Roedd cynnydd annigonol mewn mesurau rheoli ymddygiad yn ffactor arweiniol o ran yr amser a dreuliwyd mewn celloedd ar draws y DU, tra bod trais yn parhau i fod yn uchel a bod plant yn cael eu cadw yn eu celloedd i leihau cyswllt â phlant eraill. Roedd hyn hefyd yn cyfyngu ar fynediad at addysg a gweithgareddau. Canfu ymweliadau Comisiynydd Plant Lloegr â Sefydliadau Troseddwyr Ifanc fod "y mwyafrif helaeth o blant yn y ddalfa yn cael eu cadw mewn amodau annerbyniol ac anniogel".[69] Roedd plant yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Fawrhydi Cookham Wood yn poeni am ddiogelwch, arfau, addysg a "chyfundrefn anhrefnus".[70]

Ysgrifennodd Cadeirydd Cenedlaethol yr IMB Elisabeth Davies at y Gweinidog Cyfiawnder ym mis Gorffennaf 2023 gan fod pryderon hirsefydlog am gyfundrefnau cyfyngedig ac anrhagweladwy, amser cyfyngedig y tu allan i'r ystafell, diffyg gweithgarwch pwrpasol a chynnydd mewn trais wedi cynyddu i raddau "endemig" yn Lloegr.[71] Gallai plant sy'n cael eu gwahanu dreulio mwy na 23 awr y dydd y tu mewn i'w hystafelloedd, ac roedd rhai sefydliadau'n ei chael hi'n anodd cael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf am y garfan gynyddol o blant ag anghenion cymhleth. Mae IMB wedi disgrifio'r ddwy awr allan o'r gell dros benwythnos cyfan yn Wetherby fel "annynol".

66 **Young People's Experiences of the Scottish Prison System – HM Inspectorate of Prisons for Scotland (prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**

67 **Written evidence submitted by the National Chair of Independent Monitoring Boards for the Justice Select Committee inquiry into the future prison population and estate capacity (committees.parliament.uk)**

68 **Children in custody 2022-23: An analysis of 12-18-year-olds' perceptions of their experiences in secure training centres and young offender institutions, November 2023 (cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com)**

69 **Children's Commissioner raises concern about the possible introduction of incapacitant spray into Young Offenders Institutions – Children's Commissioner for England (childrenscommissioner.gov.uk)**

70 **Children's Commissioner's concerns about Cookham Wood and children in custody – Children's Commissioner for England (childrenscommissioner.gov.uk)**

71 Safety and Regime in the Youth Estate – IMB **(cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com)**

Caewyd STIEF Cookham Wood yn 2024 (gyda chynlluniau i ailagor fel carchar i ddynion), ac roedd plant i fod i gael eu rhyddhau i ganolfannau hyfforddi diogel, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill, neu i garchardai i oedolion ar ôl troi'n 18 oed.[72]

Nododd adolygiad annibynnol o'r cynnydd a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2024 fod gwendid allweddol amser cyfyngedig iawn allan o'r gell yn parhau i fod yn broblem, gyda phlant yn gallu treulio cyfartaledd o lai na thair awr y tu allan i'w hystafell bob dydd, gyda llawer yn cael llawer llai na hyn. Gyda gweithgarwch mor gyfyngedig, roedd gan blant lai o gymhelliant i ymddwyn yn dda a oedd yn cynyddu'r risg i ddiogelwch. Er iddo gael ei gyhoeddi y tu allan i'r cyfnod adrodd, rhoddodd HMIP hysbysiad brys i Cookham Wood, y pumed a roddwyd i sefydliad yn yr ystâd ieuenctid ers cyflwyno'r broses. Roedd yr Arolygiaeth wedi canfod bod safonau ymddygiad isel iawn yn cael eu derbyn, diffyg gweithgarwch a defnydd eang o gaethiwo unigol, a dywedodd bod "dros chwarter y plant wedi'u gwahanu'n llwyr oddi wrth y brif boblogaeth, ac ar adeg ein harolygiad, roedd 90% yn destun trefniadau 'cadw ar wahân', gyda staff yn rheoli 583 o achosion o wrthdaro unigol mewn poblogaeth o 77".[73]

Mewn cartrefi diogel i blant (Lloegr), ceir rheoliadau sy'n rheoli'r defnydd o 'wahanu unigol' (lle mae plant yn cael eu cloi mewn ardal, fel arfer eu hystafell wely) a 'rheoli i'r neilltu' (lle mae plant yn cael eu cloi mewn ardal ond gyda staff yn bresennol). Mae Rheoliadau Lloegr yn diffinio bod rhaid defnyddio'r mesurau rheoli hyn yn gymesur a dim ond pan fo risg sylweddol i'r plentyn neu i bobl eraill neu ddifrod difrifol i eiddo na ellir ei reoli mewn unrhyw ffordd arall. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, canfu Ofsted, mewn dwy SCH, fod defnydd amhriodol o wahanu unigol a rheoli i'r neilltu yn ystod y flwyddyn adrodd.

Arweiniodd hyn at Ofsted yn cymryd camau gorfodi drwy gyflwyno hysbysiadau cydymffurfio. Mae'r rhain yn hysbysiadau cyfreithiol sy'n nodi'n glir beth y disgwylir i'r cartref ei wneud, ac erbyn pryd, i leihau niwed a gwella profiadau plant. Ymatebodd y ddau gartref yn llawn i'r hysbysiadau a rhoi'r gorau i'r arfer gwael. Roedd pob SCH arall yn cymhwyso'r arfer yn briodol. Yn gyffredinol, canfu Ofsted fod y rhan fwyaf o SCHs yn helpu i gadw plant yn ddiogel ac yn darparu amgylchedd da i blant gael gofal. Yn STC Oakhill, mae gwahanu unigol a rheoli i'r neilltu yn cael eu defnyddio'n briodol.

Y tu allan i ddarpariaeth gofal diogel, mae Arsyllwyr Lleyg yng Nghymru a Lloegr yn poeni am y ffordd y cedwir plant mewn celloedd dan glo am gyfnodau hir pan fyddant yn y ddalfa.[74] Er gwaethaf cytundeb pendant y dylai plant fod mewn llety di-gell, ychydig iawn o ystafelloedd cadw yn y llys sydd ag unrhyw gyfleusterau ar wahân i gelloedd i gadw plant ynddynt. Mae LOs weithiau wedi arsylwi plant mewn celloedd ond gyda'r drws ar agor a staff hyfforddedig yn cyfathrebu â'r plentyn. Mae hyn yn anghyffredin, gyda'r rhan fwyaf o blant yn dal i gael eu rhoi mewn celloedd wedi'u cloi.

72 **Report on an independent review of progress at HMYOI Cookham Wood by HM Chief Inspector of Prisons 9-17 April 2024 (cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com)**

73 **HMYOI Cookham Wood Urgent Notification – HM Inspectorate of Prisons (justiceinspectorates.gov.uk)**

74 **Lay Observers Annual Report 2022-2023 (cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com)**

Ategodd y Pwyllgor Hawliau Dynol bryderon ynghylch plant a gedwir yn eu hystafelloedd am hyd at 23 awr y dydd, gan argymell terfynau effeithiol i wahanu gweinyddol neu ddisgyblu, ac y dylid ei ddefnyddio fel cam olaf yn unig, am gyfnod mor fyr â phosibl, gan ddefnyddio mesurau fel adolygiad barnwrol. Mae Rheolau Nelson Mandela (45) yn gofyn am yr ystyriaethau uchod ac yn pwysleisio na ddylid byth defnyddio ynysu ar gyfer plant mewn cyfiawnder troseddol. Mynegodd y pwyllgor bryder penodol ynghylch y defnydd o wahanu, caethiwo unigol, ataliaeth a noeth-chwiliadau mewn sefydliadau troseddwyr ifanc yn yr Alban.

Cyhoeddodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sylwadau terfynol ar y DU ym mis Mehefin 2023, gan gynnwys pryder dwys am " natur llym a chosbol system cyfiawnder plant y DU" a'r "defnydd parhaus o gaethiwo unigol ar gyfer plant, a gwahanu ac ynysu mewn cyfleusterau cadw plant".[75] Ymgorfforodd yr Alban Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn 2024.[76]

Mae adroddiadau NPM o'r flwyddyn adrodd yn awgrymu naill ai oherwydd diffyg adnoddau ( staffio annigonol, rhaglenni rheoli ymddygiad aflwyddiannus), diffyg defnydd effeithiol o adnoddau, neu ddiffyg gwybodaeth (o godau ymarfer perthnasol, egwyddorion buddiannau pennaf), bod plant yn cael eu hynysu nid yn unig mewn STIau a gwasanaethau gofal diogel, ond ar unrhyw adeg yn y system cyfiawnder troseddol. Gan fod plant yn dal i ddatblygu'n gymdeithasol, yn seicolegol ac yn wybyddol, maent yn arbennig o agored i effeithiau negyddol ynysu a diffyg cyswllt ystyrlon.[77] Gall hyn fod yn groes i erthygl 3 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol y DU, fel y cydnabuwyd gan y DU ym mis Rhagfyr eleni pan dderbyniodd fod bachgen 15 oed â phroblemau iechyd meddwl difrifol yn cael "triniaeth annynol a diraddiol" drwy gaethiwo unigol, pan gafodd ei gloi ar ei ben ei hun yn ei gell am fwy na 23 awr y dydd yng Ngharchar Feltham.[78]

75 **Concluding observations on the combined sixth and seventh periodic reports of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland – United Nations Committee on the Rights of the Child (tbinternet.ohchr.org)**\

76 **United Nations Convention on the Rights of the Child (Incorporation) (Scotland) Act (legislation.gov.uk)**

77 **The use of solitary confinement in the youth secure estate – BMA (bma.org.uk)**

78 **Government agrees that treatment of 15-year-old boy in solitary confinement breached Article 3 of European Convention on Human Rights – The Howard League (hoardleagure.org)**

## Datganiad craffu: plant sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid

Fel y sefydliadau sy'n gyfrifol am oruchwylio amodau a thriniaeth ar gyfer plant sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid ledled y Deyrnas Unedig, ein disgwyliad cyffredin yw bod pob plentyn yn y gwasanaethau hyn yn cael y gofal, y gefnogaeth a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ffynnu.

Un o'r arferion mwyaf gofidus a welwyd mewn sefydliadau troseddwyr ifanc yw'r amser gormodol y mae plant yn ei dreulio yn eu hystafelloedd heb gyswllt dynol ystyrlon. Mewn rhai achosion, mae hyn yn golygu cethiwo unigol, sy'n niweidiol iawn i les meddyliol ac emosiynol plentyn. Rhaid i amgylcheddau diogel fod yn llefydd lle mae plant yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, nid eu hynysu. Rhaid rhoi sylw, fel mater o flaenoriaeth, i'r arfer o gadw plant yn eu hystafelloedd am gyfnodau estynedig. Mae heriau o ran recriwtio a staffio yn gwaethygu'r broblem hon. Mae prinder staff cymwysedig wedi arwain at gyfyngiadau ychwanegol ar amser plant allan o'u hystafelloedd, yn enwedig yn ystod penwythnosau pan fydd lefelau staffio yn aml yn is. Mae'r sefyllfa hon yn cyfyngu ymhellach ar fynediad plant at weithgareddau, addysg a rhyngweithio cymdeithasol, ac mae pob un o'r rhain yn hanfodol i'w datblygiad a'u hadferiad. Mae tan-ddarparu darpariaeth iechyd meddwl briodol ar gyfer plant yn golygu bod plant weithiau'n cael eu cadw mewn llety diogel pan nad yw'r rhain yn y sefyllfa orau i ddiwallu eu hanghenion.

Maes pryder allweddol arall yw'r angen am well cydweithio rhwng asiantaethau i sicrhau bod plant yn cael eu symud i wasanaeth cofrestredig sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Os bydd plant yn cael eu gadael mewn lleoliadau diogel yn hirach na'r angen oherwydd diffyg lleoliad addas, gall yr oedi hwn arwain at ganlyniadau difrifol i'w datblygiad a'u lles. Mae ymdrechion cydlynol rhwng asiantaethau i ddod o hyd i leoliadau priodol ac amserol yn hanfodol.

Yn olaf, mae gostyngiad sylweddol yn y gefnogaeth i blant pan fyddant yn troi'n 18 oed. Wrth i blant adael gofal diogel, mae llawer o bobl ifanc yn canfod eu hunain heb y strwythurau cefnogi angenrheidiol, sy'n golygu eu bod yn agored i ragor o heriau. Mae'n hanfodol bod yr oedolion ifanc hyn yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i ailintegreiddio'n llwyddiannus i'r gymdeithas a pharhau â'u taith tuag at annibyniaeth.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae enghreifftiau o arferion da lle mae staff ymroddedig ac arweinwyr effeithiol yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r plant yn eu gofal. Yng Nghymru, mae ymarfer cyson sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n ystyriol o drawma yn darparu profiadau a lles da i'r plant yn yr uned ddiogel. Er bod angen gwelliannau sylweddol i hwyluso gofal unigol, mae gan blant fynediad at addysg, cymorth clinigol a chyfleoedd i fod yn iach ac i fwynhau eu hunain. Mae hyn oherwydd ymdrechion y staff a'r rheolwyr. Yn Lloegr, mae'r rhan fwyaf o Gartrefi Diogel i Blant yn cadw plant yn ddiogel mewn amgylchedd da, ac yn yr Alban, dangosodd pedwar gwasanaeth llety diogel ganlyniadau da i blant gydag arweinyddiaeth gref, lle'r oedd staff yn hyderus ynghylch pryderon, gyda chynlluniau cymorth cadarn a pherthnasoedd cryf â theuluoedd y tu allan. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos beth sy'n bosibl pan fydd y dulliau a'r diwylliant gweithio cywir ar waith ac yn gallu ffynnu. Wrth i ni symud ymlaen, mae'n hanfodol bod yr arferion cadarnhaol hyn yn cael eu rhannu, eu hariannu a'u gweithredu'n ehangach ar draws y sector.



**Julie Heal**
Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)



**Jackie Irvine**
Prif Weithredwr,
Arolygiaeth Gofal Cymru



**Sir Martyn Oliver**
Prif Arolygydd Ei Fawrhydi yn Ofsted

## Materion ychwanegol i blant sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn y DU

Ar ôl i berson ifanc gyrraedd 18 oed, roedd colli'r cymorth sydd ar gael i blant yn bryder a gafodd ei archwilio yng nghynhadledd 2024 NPM. Yn yr Alban, lle mae'r rhan fwyaf o bobl dan 25 oed yn cael eu dal yn yr ystad oedolion, canfu'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf nad oedd pobl ifanc yn manteisio ar gyfleoedd i ennill cymwysterau, addysg, profiad gwaith nac adsefydlu.[79] Adroddodd pobl ifanc am "straen meddyliol a achoswyd gan y cyfnodau helaeth yr oedd yn rhaid iddynt eu treulio wedi'u cloi yn eu celloedd yn hytrach na chymryd rhan mewn gweithgarwch cynhyrchiol ac ystyrlon".[80] Roedd y pryder hwn hefyd yn gysylltiedig â phlant sy'n symud ymlaen o ddarpariaeth ddiogel yn Lloegr - mae Ofsted wedi pwysleisio pwysigrwydd cydweithredu aml-ddisgyblaethol ac aml-asiantaeth mewn cynllunio priodol, gan nodi y dylai hyn ddechrau o'r funud y mae plant yn cyrraedd SCH neu STC.[81] Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddod o hyd i'r lle nesaf ar gyfer plentyn sy'n diwallu eu hanghenion unigol, ac mae rhai awdurdodau'n ei adael yn rhy hwyr i gynllunio. Gall hyn arwain at amddifadu plant a leolir am resymau lles dan adran 25 Deddf Plant 1989 o'u rhyddid am fwy na'r amser gofynnol, gan fod rhai awdurdodau wedi gofyn i lysoedd ymestyn gorchmynion lles hyd nes y gallant ddod o hyd i'r lle addas nesaf. Gall hyn hefyd danseilio'r gefnogaeth a ddarperir i blant mewn gofal diogel drwy'r ansicrwydd a'r pryder a achosir.

Yn yr Alban, canfu arolygiadau Arolygiaeth Gofal o bedwar gwasanaeth llety diogel ganlyniadau da i blant a phobl ifanc lle'r oedd arweinyddiaeth gref ac yr oedd staff yn hyderus i fynegi pryderon, darparu cynlluniau cefnogi cadarn a chynnal perthynas gref gyda theuluoedd y tu allan i'r gwasanaeth.[82] Pan fo gwasanaethau yn cydweithredu â chyrff allanol fel y GIG, cafodd y canlyniadau i blant a phobl ifanc eu gwella drwy gynlluniau gofal unigol trylwyr ar ôl iddynt gael eu derbyn, ystod o sefydliadau i hyrwyddo anghenion pobl ifanc a gwaith effeithiol staff arbenigol ochr yn ochr â staff gofal ac addysg.[83] Ar y llaw arall, roedd gwasanaethau a oedd â bylchau mewn cyfathrebu â rhanddeiliaid allanol a llai o reolwyr yn wynebu mwy o risg o ymchwiliadau i amddiffyn plant aneffeithiol.[84]

79 **Young People's Experiences of the Scottish Prison System – HMIPS (prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**

80 **Young People's Experiences of the Scottish Prison System – HMIPS (prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**

81 **The importance of good planning for children moving on from the secure estate – Ofsted: social care (blog.gov.uk)**

82 Rossie Secure Accommodation Service Inspection Report – Care Inspectorate **(careinspectorate.com)**

83 Rossie Secure Accommodation Service Inspection Report – Care Inspectorate **(careinspectorate.com)**; Kibble Safe Centre Secure Accommodation Service Inspection Report – Care Inspectorate **(careinspectorate.com)**

84 St. Mary's Kenmure Secure Accommodation Service Inspection Report – Care Inspectorate **(careinspectorate.com)**

Roedd yr heriau ar draws y sector o ran recriwtio a staffio yn golygu bod heriau sylweddol mewn dau wasanaeth a oedd, er gwaethaf rhai camau lliniaru cadarn, yn dal i gael effaith ar bobl ifanc.[85] Lle'r oedd gwasanaethau yn gallu cadw mwy o staff a llai o ddibyniaeth ar staff asiantaeth, roedd y plant yn fwy hyderus o wybod pwy oedd yn darparu eu cefnogaeth i feithrin perthnasoedd cadarnhaol.[86]

Yn Lloegr, mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn nodi pryderon bod rhai plant sy'n destun gorchmynion amddifadu o ryddid a gyhoeddir gan y llysoedd yn disgyn y tu allan i reolaeth y Comisiwn Ansawdd Gofal os nad ydynt yn derbyn gweithgaredd wedi'i reoleiddio, fel gofal personol. Ar gyfer plant sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn dilyn ceisiadau a wneir o dan Ddeddf Plant 1989 neu awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys, nid yw'r Comisiwn ychwaith yn gallu cofnodi'n gynhwysfawr niferoedd cywir, lleoliadau nac amodau a osodir gan y llysoedd hyd yn oed os yw'r plant hyn yn derbyn gweithgareddau rheoledig. Heb wybodaeth ddigonol am bwy sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid a ble, nid yw NPMs yn gallu craffu'n effeithiol ar eu cyflyrau a'u triniaeth. Yng Ngogledd Iwerddon, canfu arolygiad yr Awdurdod Rheoleiddio ac Ansawdd (RQIA) o'r Ganolfan Ddiogel Ranbarthol ar gyfer plant ganlyniadau da i blant a phobl ifanc. Gwelwyd gwelliannau mewn llwybrau derbyn a rhyddhau a'r defnydd o arferion cyfyngol. Roedd staff a oedd yn gweithio yn y ganolfan yn gallu cael gafael ar gymorth therapiwtig a ddarparwyd ar gyfer gweithwyr proffesiynol a oedd yn hysbysu ac yn cryfhau eu dull therapiwtig o ymdrin â'r plant a'r bobl ifanc.

Canfu arolygiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o'r Gwasanaeth Llety Diogel yng Nghymru ganlyniadau da a lles i blant, a oedd yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda gan staff a oedd yn gweithio mewn diwylliant o ganolbwyntio ar y plentyn sydd wedi'i wreiddio'n dda. Roedd y lefelau staffio yn ddigonol ac roedd hyfforddiant ar gael, er bod y gwasanaeth yn dal i wynebu heriau o ran cadw staff. Roedd cynllunio a rheoli ymddygiad a chynllunio gofal diogelu i gyd yn effeithiol ac yn cael eu cefnogi gan strwythur rheoli clir.

85 Good Shepherd Centre Bishopton Secure Accommodation Service Inspection Report – Care Inspectorate **(careinspectorate.com)**

86 St. Mary's Kenmure Secure Accommodation Service Inspection Report – Care Inspectorate **(careinspectorate.com)**

## Datganiad craffu: dalfa'r llys

Mae ein pryderon cyffredin ynghylch dalfa'r llys ar draws y DU yn cael eu hadlewyrchu mewn lleoliadau cadw eraill: effaith prinder staff a diffyg trefniadau ar gyfer pobl ar ôl cael eu rhyddhau. Mae'r rhain yn tynnu sylw at sut mae buddsoddi yn y rheini sy'n gweithio mewn lleoliadau cadw yn hanfodol i sicrhau diogelwch y cyhoedd a'r rheini sy'n teithio drwy systemau cyfiawnder troseddol yn y DU.

Mae prinder staff wedi bod yn broblem hollbresennol mewn llysoedd, gan gyfrannu at amseroedd estynedig yn y ddalfa, pobl yn cyrraedd y llys yn hwyr, ac oedi wrth drosglwyddo carcharorion i garchar ar ôl gwrandawiadau. Mae'r oedi hwn nid yn unig yn achosi straen a phryder diangen i'r rhai sy'n cael eu cadw yn y ddalfa, ond mae hefyd yn effeithio ar effeithlonrwydd a thegwch cyffredinol y broses gyfiawnder. Mae trefniadau annigonol ar gyfer y rhai sy'n cael eu cadw ar ôl cael eu rhyddhau yn golygu bod llawer yn cael eu rhyddhau heb fodd i fynd adref neu'n gorfod aros yn hir am gymeradwyaeth i'w rhyddhau gan lywodraethwyr carchardai.

Mae cyflwr ffisegol celloedd dalfa'r llys hefyd yn broblem, lle nad yw celloedd yn aml yn cael eu glanhau na'u cynnal yn ddigonol, yn enwedig dros y penwythnos. Yng Nghymru a Lloegr, mae bwyd o ansawdd gwael yn aml yn broblem hefyd.

Mae amgylchiadau heriol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd yn y ddalfa yng Ngogledd Iwerddon hefyd wedi cael eu nodi gan Arsyllwyr Lleyg yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg llety addas cyson, ac nid ydynt bob amser yn cael cwmni neu gymorth gan swyddogion arbenigol neu swyddogion sydd wedi'u hyfforddi'n briodol. Mae'r bwlch hwn o ran gofal a gwarchodaeth yn annerbyniol, a rhaid mynd i'r afael â hynny er mwyn sicrhau diogelwch a lles pobl ifanc yn system y ddalfa.

Yn olaf, mae'r monitorau wedi gweld nifer uchel o bobl sy'n cael eu cadw'n gaeth sydd â phroblemau iechyd meddwl sylweddol, yn ogystal â chynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu cadw'n gaeth sydd ag anableddau corfforol. Mae amodau materol celloedd yn arbennig o bwysig o ran hygyrchedd a diogelwch corfforol, ac mae'r cynnydd yn nifer y rhai a gedwir dan amodau o'r fath yn tanlinellu'r angen am fwy o ofal a llety wedi'i deilwra o fewn unedau dalfa'r llys.

**Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod meysydd o arfer da lle mae perthnasoedd aml-asiantaeth yn gweithio'n dda, gan arwain at welliannau amlwg mewn amodau, mwy o brosesu carcharorion yn brydlon, ac arweinyddiaeth ragweithiol wrth fynd i'r afael â materion sy'n peryglu triniaeth y rhai sy'n cael eu cadw. Mae'r enghreifftiau hyn yn darparu model ar gyfer sut y gall ac y dylai dalfa'r llys weithredu, gan gynnig safon y dylai pob cyfleuster anelu ati.**



**Rachel Lindsay**
Prif Arolygydd,
Arolygiad Cyfiawnder
Troseddol Gogledd
Iwerddon (CJI)



**Stephen Sandham**
Prif Arolygydd Dros Dro,
Arolygiaeth Carchardai
Ei Fawrhydi ar gyfer
yr Alban (HMIPS)



**Charlie Taylor**
Prif Arolygydd Carchardai
Ei Fawrhydi



**David Whalley**, Arsyllwyr Lleyg

## Effaith seicolegol dedfrydau amhenodol neu gadw am gyfnod amhenodol

### Cadw mewnfudwyr

Yn dilyn tystiolaeth yr NPM i archwiliad Pwyllgor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig o'r DU (Mawrth 2024), roedd cwestiynau'r pwyllgor i gynrychiolwyr y DU a sylwadau clo yn cynnwys pryderon parhaus ynghylch yr amser y mae mewnfudwyr yn cael eu cadw yn y ddalfa yn y DU ac ehangu'r defnydd o gadw dan Ddeddf Ymfudo Anghyfreithlon 2023.[87] Argymhellodd y pwyllgor y dylai'r DU sefydlu terfyn amser statudol ar gadw mewnfudwyr a sicrhau mai dim ond fel cam olaf y cânt eu cadw ac am y cyfnod byrraf posibl, gan gynyddu'r defnydd o ddulliau eraill yn lle cadw pobl yn gaeth, yn enwedig ar gyfer plant a menywod beichiog.

Cyhoeddodd Pwyllgor Cyngor Ewrop ar Atal Arteithio (CPT) adroddiad ar ei ymweliad yn 2023 â safleoedd cadw mewnfudwyr yn y DU ym mis Chwefror. Adlewyrchir canfyddiadau'r NPM o'r flwyddyn ddiwethaf yn argymhellion y CPT ynghylch oedi a chyfathrebu gwael ynghylch darparu llety mechnïaeth yn y gymuned, gan adael pobl yn y ddalfa am wythnosau neu fisoedd tra'n aros am benderfyniadau ynghylch llety (yn enwedig oherwydd yr her o ddod o hyd i ddarpariaeth addas yn y gymuned).[88] Roedd y CPT yn bryderus ynghylch cymhwyso Rheol 35 Canolfannau Cadw ynghylch adnabod carcharorion agored i niwed, ar ôl i NPM weld bod Rheolau Canolfannau Cadw yn cael eu gweithredu'n wael, gan gynnwys prosesau diogelu aneffeithiol a chadw parhaus er gwaethaf canfod bod pobl yn agored i niwed neu hanes o arteithio.[89] Dywedodd HMIP fod "cynnydd dychrynllyd" mewn aflonyddwch yn y ddalfa fewnfudo a achoswyd gan y twf yn y boblogaeth a "phroses benderfynu ddifrifol o araf gan y Swyddfa Gartref"; mae cyfran fawr o'r rhai a gedwir yn y ddalfa yn cael eu rhyddhau i'r gymuned gyda "dim posibilrwydd rhesymol o alltudio".[90]

Canfu'r CPT fod arferion da yn cael eu tanseilio gan ansicrwydd ynghylch hyd y cyfnod cadw a'r defnydd o ganolfannau tebyg i garchardai mewn rhai achosion.[91] Ymatebodd Llywodraeth y DU ym mis Chwefror 2024 y byddai cyflwyno terfyn amser "yn cyfyngu'n ddifrifol ar eu gallu i gynnal y cydbwysedd cywir a chynnal uniondeb y system fewnfudo". Mae'r gwaharddiad ar artaith yn absoliwt; os yw'r amodau'n gyfystyr â thriniaeth wael, ni ellir cyfiawnhau hynny. Mae cadw'n gaeth am gyfnod amhenodol a diffyg gwybodaeth am gynnydd achosion unigol yn cael effeithiau negyddol sylweddol ar iechyd a lles.[92]

87 **Concluding observations on the eighth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland – United Nations Human Rights Committee** (tbinternet.ohchr.org)

88 **Council of Europe anti-torture Committee (CPT) publishes report on its 2023 ad hoc visit to the United Kingdom on immigration detention – CPT (coe.int)**

89 **Independent Monitoring Board highlights significant concerns across places of detention in 2023 National Annual Report – Independent Monitoring Boards (imb.org.uk)**

90 **HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual Report 2023-24 (cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com)**

91 **UK NPM response to the CPT report and UK Government Response – National Preventive Mechanism (nationalpreventivemechanism.org.uk)**

92 **Independent Monitoring Board highlights significant concerns across places of detention in 2023 National Annual Report – Independent Monitoring Boards (imb.org.uk)**

## Dedfrydau amhenodol mewn carchardai

Roedd dedfrydau o garchar er mwyn gwarchod y cyhoedd (IPP) yn ddedfrydau amhenodol a roddwyd i droseddwyr difrifol yng Nghymru a Lloegr a oedd yn peri risg sylweddol o niwed difrifol i'r cyhoedd. Cafodd dedfrydau IPP eu diddymu yn 2012 ond nid yn ôl-weithredol, sy'n golygu bod 1,180 o garcharorion yng Nghymru a Lloegr yn dal i fod yn destun dedfryd amhenodol barhaus o dan y IPP.[93] Ym mis Rhagfyr, mabwysiadodd Tŷ'r Cyffredin y DU ddiwygiadau rhannol i'r system, a oedd yn haneru faint o amser roedd y rheini a oedd yn cael eu rhyddhau yn destun galw'n ôl ond nid oeddent wedi newid dedfrydau unrhyw garcharorion IPP sy'n dal yn y carchar.[94] Mewn cyflwyniad ysgrifenedig i Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfiawnder ar gapasiti carchardai ac ystadau yn y dyfodol, amlinellodd HMIP nad yw carcharorion sy'n bwrw dedfrydau hir neu amhenodol yn gallu symud ymlaen pan nad yw rhaglenni achrededig sydd â'r nod o leihau aildroseddu ar gael.[95] Lle nad yw rhaglenni o'r fath wedi cael eu cwblhau, mae'r bwrdd parôl yn llai tebygol o argymell rhyddhau, sy'n gallu cynyddu teimladau carcharorion o anobaith, gan gyfrannu at risg uwch o hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae Byrddau Monitro Annibynnol yn nodi bod "caledi parhaus" dedfrydau IPP yn debygol o gyfrannu at ddangos mwy o ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag afiechyd meddwl difrifol neu anhwylder personoliaeth mewn unedau gofal a gwahanu (CSU), yn ogystal ag arosiadau rheolaidd a hir mewn amgylchiadau ynysig.[96] Mae Byrddau Rheoli Annibynnol yn arsylwi ar garcharorion IPP sydd mewn mwy o berygl o hunanladdiad a hunan-niweidio ac maent hefyd wedi nodi rhwystredigaeth ac anobaith ynghylch dedfryd amhenodol fel cyfranwyr at ddigwyddiadau treisgar, sy'n arwain at oblygiadau difrifol o ran diogelwch.[97] Bu i Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Arteithio alw gydol y flwyddyn am adolygiad brys o ddedfrydau IPP, gan amlinellu pryderon bod dedfrydau amhenodol parhaus yn gyfystyr ag artaith seicolegol.[98] Mae'r NPM yn ystyried bod dedfrydau amhenodol parhaus yn cael effaith negyddol amlwg a mesuradwy ar iechyd meddwl unigolion yn y carchar. Mae gan y DU gyfrifoldeb i'r rheini sydd o dan ei hawdurdod i barchu, amddiffyn a chyflawni eu hawliau, gan gynnwys i'r safon uchaf y gellir ei chyrraedd o ran iechyd meddwl. Fodd bynnag, er ei bod yn gwybod beth yw effeithiau'r dedfrydau hyn, nid yw wedi eu diwygio.

93 Written evidence submitted by His Majesty's Inspectorate of Prisons **(committees.parliament.uk)**

94 **MoJ reforms on IPPs, parole and the Independent Public Advocate welcome, but IPP changes do not go far enough, Justice Committee warns – UK Parliament (committees.parliament.uk)**

95 Written evidence submitted by His Majesty's Inspectorate of Prisons **(committees.parliament.uk)**

96 **Segregation of men with mental health needs – Independent Monitoring Boards (imb.org.uk)**

97 The impact of IPP sentences on prisoner's wellbeing – Independent Monitoring Boards (imb.org.uk)

98 UK: UN torture expert calls for urgent review of over 2,000 prison tariffs under discredited IPP sentencing scheme – OHCHR (ohchr.org); **Reform of problematic UK sentencing system welcome but bolder action needed says UN Special Rapporteur on torture – OHCHR** (ohchr.org)

Er nad yw dedfrydau IPP yn cael eu rhoi yng Nghymru a Lloegr mwyach, mae Gorchymyn Cyfyngu Gydol Oes (OLR) yn yr Alban (a gyflwynwyd yn 2006) a Dedfrydau Carcharu Amhenodol (ICS) (2008) yng Ngogledd Iwerddon, yn dal yn weithredol. O dan OLR does dim dyddiad rhyddhau penodol, a phan fydd elfen 'gosb' y ddedfryd wedi cael ei bwrw, bydd y Bwrdd Parôl yn penderfynu a oes modd rhyddhau unigolyn.[99] Os cawsant eu rhyddhau, bydd y rheini sydd ag OLR yn cael eu goruchwylio gan yr Awdurdod Rheoli Risg (RMA) am weddill eu hoes. Yn yr un modd, nid oes gan ICS ddyddiad rhyddhau a bydd carcharorion yn aros yn y ddalfa nes eu bod yn dangos i Gomisiynwyr Parôl Gogledd Iwerddon (PCNI) y gellir eu rhyddhau'n ddiogel.[100] Fodd bynnag, os nad yw carcharorion ICS yn cael eu rhyddhau, rhaid eu cyfeirio eto at y PCNI o fewn dwy flynedd. Ar ôl eu rhyddhau, mae amodau trwydded safonol a phwrpasol yn berthnasol am o leiaf 10 mlynedd, ac o bosibl am weddill oes yr unigolyn. Mae'r un pryderon yn bodoli ynghylch effaith bosibl y dedfrydau amhenodol hyn, er nad ydynt yn destun yr un craffu cyhoeddus ar hyn o bryd.

99 About the OLR – Risk Management Authority (rma.scot)

100 Indeterminate Custodial Sentences (ICS) – Parole Commissioners for Northern Ireland (parolecomni.org.uk)

## Datganiad craffu: cadw mewnfudwyr

Fel y cyrff penodedig sy'n gyfrifol am arolygu a monitro cyfleusterau cadw mewnfudwyr yn y Deyrnas Unedig, rydym wedi sylwi ar heriau cynyddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae lleoliadau tebyg i garchar, ynghyd â phoblogaeth gynyddol, y mae cyfran sylweddol ohonynt yn agored i niwed neu ag anghenion cymhleth, yn ysgogi aflonyddwch a hunan-niweidio ymhlith y rhai sy'n cael eu cadw. Nid yw amodau o'r fath yn cefnogi urddas a lles.

Un o'r materion mwyaf brys y mae Byrddau Monitro Annibynnol wedi'i nodi yw nad yw pobl sy'n cael eu cadw mewn cyfleusterau cadw tymor byr yn gallu cael gafael ar eu meddyginiaeth ar bresgripsiwn. Mae hyn yn rhoi unigolion mewn perygl o ddirywiad meddygol, gan waethygu unrhyw wendidau a thanseilio iechyd. Mae mynediad at ofal meddygol angenrheidiol yn hawl sylfaenol y mae gan leoliadau cadw gyfrifoldeb i'w chyflawni.

Pryder arall a rennir yw'r ansicrwydd ynghylch hyd y cyfnod cadw. Mae llawer o unigolion yn profi cyfnodau hir ac amhenodol o gadw oherwydd prosesau gwneud penderfyniadau araf y Swyddfa Gartref a diffyg diweddariadau amserol ar eu hachosion. Mae'r ansicrwydd hwn yn achosi trallod a phryder, sy'n cyfrannu at gynnydd mewn ymdeimlad o anobaith ymhlith y rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae pobl yn cael eu cadw'n gaeth mewn gormod o achosion er nad oes unrhyw obaith realistig o alltudio, gan godi cwestiynau am y cyfiawnhad dros eu caethiwed parhaus. Mewn achosion eraill, mae pobl yn parhau i gael eu cadw'n gaeth er eu bod wedi cael mechnïaeth, oherwydd diffyg llety addas yn y gymuned. Mae'r cadw parhaus a diangen hwn yn bwrw amheuaeth ar yr egwyddor mai dim ond fel dewis olaf y defnyddir cadw yn y ddalfa, yn unol ag egwyddorion tegwch a chyfiawnder.

**Rydym hefyd yn bryderus iawn ynghylch y defnydd gwael a'r defnydd a wneir o Reol 35 a'r asesiad o'r defnydd ohoni, sydd â'r bwriad o sicrhau nad yw unigolion agored i niwed, fel y rheini sydd wedi cael eu harteithio neu sydd mewn perygl fel arall, yn cael eu cadw'n amhriodol. Mae'r diffygion o ran rhoi'r mesurau diogelu hanfodol hyn ar waith yn golygu bod rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn parhau i fod mewn perygl. Rhaid defnyddio cadw at ddiben gweinyddol (amddifadu o ryddid i brosesu pobl sy'n cyrraedd neu i sicrhau eu bod yn cael eu symud o'r DU) yn gyfreithlon ac fel dewis olaf. Tra bod pobl yn cael eu cadw'n gaeth gan awdurdodau'r DU, cyfrifoldeb yr awdurdodau yw cynnal eu diogelwch a'u hurddas. Eleni, nid yw wedi bod yn amlwg bod y DU bob amser yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn.**





**Elisabeth Davies**,
Cadeirydd Cenedlaethol,
Byrddau Monitro
Annibynnol (IMB)





**Charlie Taylor**
Prif Arolygydd Carchardai
Ei Fawrhydi

## Iechyd meddwl, hunan-niweidio, a marwolaethau a achoswyd gan yr unigolion eu hunain yn y ddalfa

Daeth archwiliad y Pwyllgor Hawliau Dynol o'r DU i ben gyda phryder ynghylch y cynnydd mewn marwolaethau gan yr unigolion eu hunain a hunan-niweidio yn y ddalfa, ac argymhellodd fwy o ymdrechion ataliol ac ymchwiliadau trylwyr ac annibynnol i bob achos.

### Carchardai

Mae cyrff NPM yn adrodd am iechyd meddwl gwael a dirywiol yn y ddalfa cyfiawnder troseddol. Yng Nghymru a Lloegr, amcangyfrifir bod hanner y bobl sy'n mynd i'r carchar yn niwrowahanol.[101] Mae HMIP a Byrddau Monitro Annibynnol yng Nghymru a Lloegr yn dal i bryderu bod menywod yn cael eu hanfon i garchardai ar sail iechyd meddwl yn unig.[102] Roedd adolygiad thematig gan HMICS o iechyd meddwl plismona o'r farn nad yw'n gynaliadwy i Heddlu'r Alban barhau heb strategaeth iechyd meddwl, fel sail ar gyfer hyfforddi a dealltwriaeth staff.[103]

Mae pryderon wedi cael eu codi dro ar ôl tro gan IMBs a HMIP yn Lloegr, HMIPS ac IPMs yn yr Alban, a chan CJI yng Ngogledd Iwerddon nad Unedau Gofal a Gwahanu (yn Lloegr), Unedau Gofal a Goruchwyliaeth (yng Ngogledd Iwerddon) ac Unedau Gwahanu ac Ailintegreiddio (yn yr Alban, SRUs), y cyfeirir atynt yma fel unedau gwahanu, yw'r lle priodol i ddal carcharorion sydd ag anghenion iechyd meddwl. Roedd lles ac ymddygiad meddyliol yn aml yn dirywio o ganlyniad i wahanu am gyfnod hir, tra bod cylchdroi rhwng gwahanol unedau gwahanu, unedau gofal iechyd (lle bo hynny'n berthnasol) a chyfnodau byr ar adenydd yn peri heriau o ran tracio cyfanswm yr amser a dreulir ar wahân.[104] Mae caethiwed unigol yn cyfeirio at garcharu carcharorion am 22 awr neu fwy y dydd heb gyswllt dynol ystyrlon, tra bod caethiwo unigol estynedig yn dechrau unwaith y bydd person wedi cael ei gadw mewn amodau o'r fath am 15 diwrnod (Rheoliad Nelson Mandela 44). Mae caethiwed unigol am gyfnod hir neu amhenodol, sy'n cyfateb i driniaeth neu gosb arteithiolon, greulon, annynol neu ddiraddiol, wedi'i wahardd yn llwyr (Rheol 43a Nelson Mandela), ac mae mesuriad cywir yn hanfodol i sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

Yn yr Alban, canfu HMIPS, oherwydd materion systemig, fod gwahanu'n cael ei orddefnyddio ar draws yr ystad carchardai a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n rhy hir ar gyfer llawer o garcharorion unigol, ac nad oedd carcharorion ar wahân yn gallu cael dwy awr o gyswllt ystyrlon â phobl bob dydd.[105] Nid oedd digon o weithgareddau na threfn bwrpasol ar gael i'r rheini mewn SRUs, ac roedd angen hyfforddiant gwell ar staff ar ddulliau iechyd meddwl, therapiwtig a seiliedig ar drawma o reoli carcharorion.

101 **Current issues and good practices in prison management – United Nations Human Rights Council (undocs.org)**; Her Majesty's Inspectorate of Prisons and Her Majesty's Inspectorate of Probation, Neurodiversity in the Criminal Justice System: A Review of Evidence (2021), tudalen 8.

102 **Independent Monitoring Board highlights significant concerns across places of detention in 2023 National Annual Report – IMB (imb.org.uk); Community Sentences: response to the Justice and Home Affairs Committee inquiry from His Majesty's Inspectorate of Prisons – HMI Prisons (hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk)**

103 **HMICS Thematic review of policing mental health in Scotland** – HM Inspectorate of Constabulary in Scotland (hmics.scot)

104 **Segregation of men with mental health needs: A thematic monitoring report** – IMB (imb.org.uk)

105 **A Thematic Review Of Segregation In Scottish Prisons – HM Inspectorate of Prisons for Scotland (prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**

Roedd prif ganfyddiadau Adolygiad Thematig HMIPS o Wahanu yng Ngharchardai'r Alban yn cynnwys gorddefnyddio SRUs ar draws yr ystad, a "gormod o garcharorion yn treulio cyfnodau niweidiol o hir mewn SRUs".[106] Yn gyffredinol, ni allai carcharorion mewn SRUs gael o leiaf dwy awr o gyswllt dynol ystyrlon bob dydd fel yr amlinellir yn Rheolau Nelson Mandela. Roedd defnydd cynyddol ac amhriodol o SRUs i gadw carcharorion sy'n sâl iawn yn feddyliol yn ddiogel lle nad oedd gwelyau wedi'u neilltuo iddynt mewn cyfleusterau seiciatrig diogel, ac nid oedd digon yn cael ei wneud mewn carchardai i fynd i'r afael â phroblemau unigol a allai arwain at adleoli i SRU ac atal ailintegreiddio. Yn gyffredinol, nid yw amgylchedd ffisegol SRUs yn addas i'r diben ac mae'n arbennig o niweidiol i'r bobl sy'n aml yn cael eu dal yno gydag anghenion cymhleth.

Mae CSUs yn Lloegr yn cael eu defnyddio'n rhy aml fel mater o drefn ar gyfer dynion sydd ag anghenion iechyd meddwl difrifol neu heriol.[107] Mae oedi hir wrth drosglwyddo i leoliadau mwy priodol (unedau cleifion mewnol neu welyau iechyd meddwl) yn golygu mai CSUs yw'r unig opsiwn i lywodraethwyr a staff sy'n gweithio heb hyfforddiant neu adnoddau digonol, tra'n ymdrechu'n fawr i gadw carcharorion mewn perygl o hunan-niweidio a hunanladdiad yn ddiogel. Unwaith eto, mae darpariaeth y tu allan i garchardai yn hanfodol i sicrhau triniaeth deilwng y tu mewn iddynt – mae angen darpariaeth iechyd meddwl fwy priodol yn y gymuned, gyda mwy o welyau ysbyty iechyd meddwl gyda diogelwch priodol.[108]

Yng ngharchardai menywod yng Nghymru a Lloegr, canfu'r Byrddau Monitro Annibynnol, er gwaethaf ymrwymiadau i ddileu pŵer llysoedd i ddefnyddio carchar fel 'lle diogel' (o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983) neu i remandio pobl i garchar i'w hamddiffyn eu hunain ar sail iechyd meddwl (o dan Ddeddf Mechnïaeth 1976), fod nifer y menywod a amddifadwyd o'u rhyddid dan y darpariaethau hyn wedi cynyddu mewn rhai carchardai.[109] Mae diffyg gwelyau iechyd meddwl diogel yn golygu bod menywod yn cael eu cadw er eu diogelwch eu hunain mewn amgylchedd amhriodol ar gyfer eu hanghenion iechyd meddwl, gyda rhai menywod yn cael eu cadw ar wahân neu ar adain heb driniaeth a chymorth digonol. Oherwydd y lefel uchel o angen, mae unedau cleifion mewnol ac arbenigol mewn carchardai menywod – lle maent yn bodoli – yn aml yn llawn, ac nid yw menywod sydd angen eu derbyn i ysbytai iechyd meddwl diogel yn cael eu trosglwyddo'n ddigon cyflym – mater sy'n cael sylw gan grŵp gorchwyl a gorffen yr NPM ar drosglwyddiadau iechyd meddwl. Mae'r lefel uchel o ofal a goruchwyliaeth sydd ei hangen i gefnogi menywod sydd ag anghenion arbennig o gymhleth sydd i gyfrif am lawer o'r achosion cynyddol o hunan-niweidio mewn carchardai, [110]yn gwaethygu'r prinder staff. Yng Ngogledd Iwerddon, canfu gwaith dilynol ar weithredu argymhellion a wnaed yn adolygiad CJI i weithrediad CSUs gamau gweithredu trawiadol a gymerwyd mewn partneriaeth gan Wasanaeth Carchardai Gogledd Iwerddon (NIPS), Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol y De Ddwyrain, a Choleg Fetropolitan Belfast.[111]

---

106 **A Thematic Review Of Segregation In Scottish Prisons – HM Inspectorate of Prisons for Scotland (prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**

107 **Segregation of men with mental health needs: A thematic monitoring report** – IMB (imb.org.uk)

108 **Segregation of men with mental health needs: A thematic monitoring report** – IMB (imb.org.uk)

109 **Mental health concerns in women's prisons – IMB (imb.org.uk)**

110 **Safety in custody: quarterly update to December 2022 – GOV.UK (www.gov.uk)**

111 **A review into the operation of Care and Supervision Units in the Northern Ireland Prison Service – Criminal Justice Inspection Northern Ireland (cjini.org)**

Roedd Fframwaith Gweithredol CSU yn cyfleu negeseuon clir am rôl hanfodol monitro trefniadau gwahanu, tryloywder a llywodraethu cyson wrth gyflawni rhwymedigaethau hawliau dynol. Bu i benodi rheolwr prosiect a chymorth gan staff a rheolwyr gweithredol arwain at ddefnydd arloesol o dechnoleg ar gyfer monitro amser allan o'r gell ac ymgysylltu â gweithgarwch pwrpasol, gan ddefnyddio data i ddarparu goruchwyliaeth effeithiol a chynhyrchu gwybodaeth i wella'r gwasanaeth a ddarperir mewn CSUs. Fodd bynnag, roedd unigolion ag anghenion cymhleth iawn yn dal i gael eu rheoli mewn CSUs, ac mae amgylchedd gweithredol heriol yn cynnwys poblogaeth carcharorion uwch, prinder staff, ôl-groniadau llysoedd, pwysau cyllido. Aeth yr IRP yng Ngharchar Maghaberry ar drywydd pryderon a nodwyd yn ystod arolygiad 2022 a chanfu fod gwendidau o hyd o ran gweithdrefnau a diogelu oedolion i gefnogi carcharorion sydd mewn perygl o hunan-niweidio a hunanladdiad.[112] Roedd y camau a gymerwyd i wella diogelwch yn cael eu tanseilio gan gydweithio aneffeithiol gydag asiantaethau partner a rhanddeiliaid i gyflawni polisi a strategaeth effeithiol i amddiffyn carcharorion sydd mewn perygl.

## Cadw mewnfudwyr

Mae marwolaethau yn y ddalfa fewnfudo wedi bod yn eithriadol o brin, ond roedd dwy farwolaeth amlwg a achoswyd gan yr unigolion eu hunain ar draws yr ystad.[113] Mae'r marwolaethau hyn a achoswyd gan yr unigolion eu hunain, cyffredinrwydd hunan-niweidio a chanfyddiadau'r IMBs bod iechyd meddwl pobl wedi dirywio (mewn rhai achosion hyd at y pwynt bod angen eu secsiynu) i gyd yn cyflwyno'r darlun bod dalfa mewnfudwyr yn amgylchedd sy'n methu â chadw pobl yn ddiogel.[114]

Roedd nifer y bobl yn y ddalfa fewnfudo 54% yn uwch yn 2023 na 2022.[115] Mae'r boblogaeth gynyddol a'r aflonyddwch cynyddol, yn ogystal ag ymwybyddiaeth wael o garcharorion agored i niwed, yn peri risg i iechyd meddwl a diogelwch.[116] Roedd cyfnodau hwy o gadwadau cronnus, dim dyddiad rhyddhau neu waredu, ac arafwch o ran cynnydd achosion yn broblemau yn y ddwy IRC a arolygwyd ac a adroddwyd arnynt gan HMIP dros y flwyddyn (Yarl's Wood a Twnsley House – lle cadwyd tri pherson am fwy na blwyddyn adeg yr arolygiad), gan arwain at aflonyddwch a oedd yn cynnwys mwy na 50 o garcharorion yn Yarl's Wood a arweiniodd at 13 o bobl yn dianc.

> **"Cafodd gormod o bobl eu cadw'n gaeth er eu bod wedi cael mechnïaeth, oherwydd diffyg llety cymeradwy."**

112 **Report of an Independent Review of Progress at Maghaberry Prison – Criminal Justice Inspection Northern Ireland (cjini.org)**

113 National Annual Report 2023 – IMB **(cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com)**

114 National Annual Report 2023 – IMB **(cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.3.amazonaws.com)**

115 **Independent Monitoring Board highlights significant concerns across places of detention in 2023 National Annual Report – IMB (imb.org.uk)**

116 **HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual Report 2023-24 (cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com)**

Er gwaethaf y cynnydd yn nifer y bobl sy'n wynebu'r risg o hunanladdiad neu hunan-niweidio a'r lefelau uchel o dor-amodau diogelwch ac anhrefn, ni allai'r [117] Swyddfa Gartref roi data diogelu cywir i Serco i ddangos lefelau risg na chanlyniad adroddiadau meddygon sy'n nodi'r rheini y byddai eu hiechyd yn cael ei waethygu drwy eu cadw'n gaeth, sydd mewn perygl o ladd eu hunain neu sydd wedi dioddef artaith (adroddiadau Rheol 35).[118] O ganlyniad, nid oedd staff yn gallu cynllunio na darparu gofal addas yn Yarl's Wood neu Tinsley House. Er bod gwaith lles i fenywod yn Yarl's Wood yn effeithiol, nid oedd arweinwyr wedi nodi bod angen darpariaeth fwy cyson yn yr uned i fenywod, lle'r oedd menywod yn teimlo dan fygythiad wrth ddefnyddio iard awyr agored yr oedd llety i ddynion yn edrych drosti.[119] Mae safonau rhyngwladol yn glir - mewn sefydliadau sy'n derbyn dynion a menywod, y dylid cadw safleoedd a ddyrennir i fenywod "yn gyfan gwbl ar wahân" i ddynion, sy'n fesur i ddiogelu uniondeb corfforol a meddyliol y rhai sy'n cael eu cadw yn y ddalfa.[120] Cyn gwaredu drwy siarter, roedd llawer o garcharorion yn cael eu cloi mewn amodau gwahanu, heb fod yn seiliedig ar asesiad risg unigol nac yn destun goruchwyliaeth briodol. Nid oedd y rhain yn gyson â Rheol 40 Canolfannau Mewnfudo – gwaredu er diogelwch neu ddiogeledd.[121] Mewn adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023, roedd Tîm Monitro Hediadau Siarter IMB yn cwestiynu am faint o amser y defnyddiwyd ataliaeth neu ddefnyddio grym yn ystod siwrneiau, yn ogystal â defnyddio grym ar rai unigolion y nodwyd eu bod mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niweidio.[122] Er bod y monitorau wedi gweld bod ceiswyr lloches wedi cael eu trin yn barchus yn gyffredinol drwy gydol y broses waredu, roeddent hefyd yn cofnodi bod pobl yn cael eu cyfyngu i gerbydau wedi'u parcio am gyfnodau hir, torfeydd diangen gan hebryngwyr, diffyg gwybodaeth a methiant i ddefnyddio cyfleusterau cyfieithu'n gyson pan fo angen.

Dywed eu hadroddiad:

> **"Mae'n bosibl bod y ffaith bod HOIE yn mynnu cael gwared neu geisio cael gwared ar bobl sy'n agored i niwed, rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl, yn cyd-fynd â pholisi, ond mae'n foesol amheus".[123]**

Mae'n rhaid i'r DU ddilyn safonau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol a dylid dehongli polisi domestig yn unol â chyfraith ryngwladol.

117 **Independent Monitoring Board highlights significant concerns across places of detention in 2023 National Annual Report – IMB (imb.org.uk);** Canfu IMB Gatwick bod lefelau cyffredinol o ddigwyddiadau hunan-niweidio wedi cynyddu gydol y flwyddyn. Eryn mis Hydref, dywedodd y Bwrdd fod gweithredoedd hunan-niweidio wedi dod yn fwy cyffredin, tua dwywaith cymaint o ddigwyddiadau nag ym mis Gorffennaf.

118 **HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual Report 2023-24 (cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com)**

119 **HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual Report 2023-24 (cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com)**

120 Nelson Mandela Rule 11(a); **Separation of detainees – APT (apt.ch)**

121 **Annual Report of the Independent Monitoring Boards' Charter Flight Monitoring Team For reporting year 1 January 2022 – 31 December 2022 – IMG (img.org.uk)**

122 Annual Report of the Independent Monitoring Boards' Charter Flight Monitoring Team – IMB (imb.org.uk)

123 **Annual Report of the Independent Monitoring Boards' Charter Flight Monitoring Team For reporting year 1 January 2022 to 31 December 2022 – IMG (img.org.uk)**

## Cystodaeth llys

Mae Arsyllwyr Lleyg yng Nghymru a Lloegr yn poeni am nifer yr unigolion sy'n dod i'r llys gyda phryderon iechyd meddwl difrifol. Mewn llysoedd ynadon, mae llawer gormod o ddiffynyddion sydd wedi cael diagnosis difrifol o gyflyrau iechyd meddwl ac mae llawer o'r rhain yn cael eu remandio i'r carchar. O'r rhai sy'n cael eu cadw gyda chyflyrau iechyd meddwl, mae cyfran sylweddol ohonynt yn awtistig neu ag anhwylderau personoliaeth. Nid oes llawer o ymwybyddiaeth o effaith awtistiaeth ar unigolion yn nalfa'r llys. Er enghraifft, cafodd un dyn sy'n ddifrifol awtistig ei ddwyn i lys o un carchar, lle'r oedd wedi cael ei remandio. Ar ôl cwblhau ei wrandawiad llys, cafodd ei drosglwyddo i garchar arall. Roedd y dyn newydd lwyddo i ymgartrefu yn amgylchedd y carchar cyntaf ond ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i'r anhawster y byddai wedyn yn ei wynebu wrth addasu i garchar gwahanol.

## Plant

Yn ôl Ofsted, mae diffyg darpariaeth iechyd meddwl briodol ar gyfer plant ledled Lloegr. Mae hyn yn golygu, ar adegau, bod plant sydd ag anghenion iechyd meddwl sylweddol yn derbyn gofal mewn SCHs a STCs pan nad yw'r darpariaethau hyn yn y sefyllfa orau i ddiwallu anghenion y plant hyn. Mae SCHs ar adegau wedi dod yn sefyllfa ddiofyn gan fod diffyg mathau priodol o ddarpariaeth sy'n gallu gofalu am y plant hyn. Mae lefel yr hunan-niweidio yn amrywio, ond mae hunan-niweidio a hunan-niweidio difrifol yn cynyddu oherwydd cymhlethdod anghenion y plant sy'n derbyn gofal mewn darpariaeth ddiogel.

Canfu Adolygwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl (MHA) yn Lloegr fod diffyg staff hefyd yn effeithio ar allu un gwasanaeth i agor holl welyau Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ar y safle, gan leihau capasiti. Mynegwyd pryderon ynghylch staffio yn bennaf mewn perthynas â staff asiantaeth. Dywedwyd nad oedd gan staff yr asiantaeth y wybodaeth na'r sgiliau yr oedd eu hangen ar gyfer y gwasanaethau arbenigol yr oeddent yn eu darparu. Cafwyd adborth cymysg gan Adolygwyr MHA ynghylch pa mor briodol oedd y ward. Mewn rhai achosion, roedden nhw'n meddwl bod y ward yn briodol i oedran a'i bod wedi'i chynllunio i ddiwallu anghenion y cleifion. Fodd bynnag, mewn eraill, nid oedd y ward yn briodol i oedran, fe'u disgrifiwyd fel rhai 'rhy glinigol' ac nid oedd yn cynnig yr amgylchedd hamddenol a chyfforddus y dywedwyd bod ei angen ar gleifion. Yn yr un modd, ystyriwyd bod person ifanc a oedd yn derbyn gofal o fewn ward oedolion mewn amgylchedd anaddas, yn rhannol oherwydd ei fod wedi'i wahanu mewn 'pod' ar ward oedolion.[124]

Yn yr Alban, cymerwyd mesurau yn ystod y flwyddyn adrodd fel nad oedd plant, erbyn mis Medi 2024, yn cael eu cadw yn y carchar mwyach, gan weithredu argymhelliad CRC ac argymhellion hirsefydlog gan HMIPS a HMICPS.

## Cadw dan glo oherwydd iechyd meddwl

Mae problemau strwythurol sylweddol yn parhau yn y sector iechyd meddwl – ystad sy'n heneiddio, dim digon o staff, a dim digon o welyau. Mae diffyg ymyriadau cymunedol i atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty a chael eu cadw'n gaeth, ac mae hyn yn golygu bod pobl yn cael eu triniaeth gyntaf yn yr ysbyty pan fyddant wedi mynd yn fwy sâl. Gall diffyg gwelyau i gleifion mewnol, ynghyd â diffyg capasiti ar draws y system, gan gynnwys gofal cymunedol, arwain at anfon pobl i ysbyty filltiroedd oddi cartref. Gall lleoliadau y tu allan i'r ardal fod yn niweidiol iawn i adferiad cleifion a gall arwain at bobl yn teimlo'n ynysig am nad yw ffrindiau a theulu yn gallu ymweld yn aml.

124 Publications – Care Quality Commission (cqc.org.uk)

Yn Lloegr, roedd problemau gyda staffio a chymysgedd sgiliau yn bryder allweddol a nodwyd drwy adolygiad arbennig y Comisiwn Ansawdd Gofal o wasanaethau yn Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Gofal Iechyd Swydd Nottingham. Mae'r adolygiad hwn yn dangos bod gwasanaethau ar draws y wlad yn wynebu llawer o'r un heriau ar hyn o bryd o ran recriwtio seicolegwyr, therapyddion galwedigaethol a seiciatryddion ymgynghorol – a phob un ohonynt yn cael effaith ar y gallu i ddarparu gwasanaethau. Mae llawer o wasanaethau bellach yn dibynnu ar staff banc. Mae dibyniaeth fawr ar staff asiantaeth yn cynyddu'r risg o bobl yn derbyn gofal anghyson gan nad oedd staff asiantaeth bob amser yn gyfarwydd â chynlluniau gofal neu drefn gofal y claf. Er y dibynnir hefyd ar staff asiantaeth yng Ngogledd Iwerddon, nid yw'n ymddangos bod hyn yn achosi'r un problemau. Nododd arolygiad RQIA fod heriau sy'n ymwneud ag absenoldeb staff uchel yn cael eu lliniaru drwy archebu bloc o staff asiantaeth profiadol a gyfrannodd at amgylchedd gwaith gwell ac a oedd yn darparu cysondeb o ran gofal i gleifion.[125]

Cyhoeddodd y Comisiwn Ansawdd Gofal ganllawiau ym mis Tachwedd 2023 ar leihau niwed o glymiadau mewn wardiau a wardiau iechyd meddwl ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, gan amlinellu pum ffactor allweddol i leihau niwed – ymgysylltu therapiwtig, yr amgylchedd adeiledig, staffio a sgiliau, technoleg a chaffael.[126] Ansawdd y rhyngweithio rhwng staff a chleifion a chreu cynlluniau diogelwch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda'r claf (ymgysylltu therapiwtig) yn dibynnu ar gael digon o'r staff priodol gyda'r sgiliau, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth iawn, gydag amser i'w dreulio yn meithrin ymddiriedaeth a chydberthynas. Mae defnydd uchel o staff asiantaeth, lefelau isel o staff cymwysedig a chynnydd yn absenoldeb staff i gyd yn gysylltiedig ag ymddygiad hunan-niweidiol. Mae gweithlu a gefnogir yn hanfodol i reoli a lleihau hunan-niweidio ar wardiau iechyd meddwl, ond mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn nodi bod "diwylliant o feio ac ofn yn dal yn gyffredin mewn llawer gormod o sefydliadau gofal iechyd".[127]

Roedd cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys ar leihau gwrthdaro ac ar ddefnyddio grym fel dewis olaf yn unig, yn bryder mewn wardiau iechyd meddwl yng Nghymru, a soniodd AGIC hefyd am nifer uchel o swyddi staff gwag (er bod safonau gofal cyffredinol yn dda a bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud ers yr arolygiad diwethaf mewn un ysbyty).[128] Dywedodd staff nad oedd digon o adnoddau i ateb y galw gan gleifion, ac roedd y risgiau posibl i ddiogelwch cleifion yn cynnwys diffyg rheolwr nos ar y safle a dim ond un nyrs gymwysedig fesul ward.[129] Roedd un ysbyty'n wynebu anawsterau o ran darparu lefelau staffio diogel pan oedd staff yn cael eu symud i Uned Adran 136, ystafell sy'n gweithredu fel man diogel i bobl sy'n cael eu cadw dan y Ddeddf, tra bod yr ystafell ei hun yn dioddef problemau tymor hir o ran ei lleoliad a'i chynllun ffisegol, a oedd yn peryglu diogelwch y rhai a oedd yn cael eu cadw yno.[130]

125 **Inspection Report Western Health and Social Care Trust Lakeview Hospital – The Regulation and Quality Improvement Authority (rqia.org.uk)**

126 **Reducing harm from ligatures in mental health wards and wards for people with a learning disability – Care Quality Commission (cqc.org.uk)**

127 **Therapeutic engagement – Care Quality Commission (cqc.org.uk)**

128 **Gwelliannau Sylweddol i Wasanaethau Iechyd Meddwl yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Llantrisant – Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (hiw.org.uk)**

129 **Adroddiad Arolwg y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd) – Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (hiw.org.uk)**

130 **Adroddiad Arolwg Ysbyty (Dirybudd) – Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (hiw.org.uk)**

Mewn mannau eraill, roedd diffyg cydymffurfio o ran dogfennau gyda'r Ddeddf Iechyd Meddwl wedi arwain at risgiau uchel i gleifion sy'n cael eu cadw, gwahaniaethau rhwng dosau a meddyginiaethau a ragnodir a'r rheini sydd yn y ffurflen tystysgrif cydsyniad statudol, rhoi meddyginiaeth heb wirio am gydsyniad nac awdurdodiad gan Feddyg Ail Farn Awdurdodedig, ac archwiliadau clinigol aneffeithiol i ganfod anghysondebau.[131] Cyflwynodd rhai ysbytai broblemau yn ymwneud â chofnodi statws cyfreithiol cadwadau MHA, a arweiniodd at staff yn cael eu hoedi wrth roi meddyginiaeth, gan nad oedd tystysgrifau cydsynio a chofnodion meddyginiaeth yn gyson. Mewn un ysbyty, nid oedd gwybodaeth ar gael am y Ddeddf Iechyd Meddwl, sy'n golygu nad oedd cleifion yn cael gwybod sut i wneud cwyn.[132]

Roedd hyn yn wir yn Lloegr hefyd – er enghraifft, mewn un darparwr roedd staff wedi methu â dilyn Cod Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl wrth ofalu am glaf wedi ei wahanu yn y tymor hir. Nid oedd staff wedi sylwi bod hyn yn wahanu er nad oedd y claf yn gallu cymysgu'n rhwydd â chleifion eraill ar y ward am bum mis.[133] Cyhoeddodd y Comisiwn Ansawdd Gofal safbwynt polisi ar leihau arferion cyfyngol ym mis Awst 2023, ac mae nawr yn gofyn i lywodraeth y DU ei gwneud yn gyfraith i ddarparwyr iechyd meddwl roi gwybod i'r Comisiwn bob tro y byddant yn defnyddio'r mathau mwyaf niweidiol o ataliaeth ar gleifion, yn ogystal ag ynysu neu wahanu.

Yn 2023, gofynnodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r Comisiwn Ansawdd Gofal arwain Adolygiadau Addysg a Thriniaeth Gofal Annibynnol am y ddwy flynedd nesaf, yn gyntaf mewn partneriaeth â GIG Lloegr ac yna'n annibynnol. Roedd hyn yn dilyn un o'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Farwnes Hollins, a gyhoeddwyd yn hydref 2023. Dechreuodd y paneli adolygu ym mis Mai 2024 ac maent yn adolygu gofal pobl awtistig neu sydd ag anabledd dysgu i'w cefnogi i symud allan o wahanu tymor hir.

Mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn parhau i nodi pryderon ynghylch gweithredu'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn Lloegr.[134] Mae'r system DoLS wedi bod angen ei diwygio ers dros 10 mlynedd. Mae nifer y ceisiadau i amddifadu unigolion o'u rhyddid mewn cartrefi gofal ac ysbytai wedi parhau i godi ymhell y tu hwnt i'r lefelau disgwyliedig pan gafodd y mesurau diogelu eu dylunio, ac eto mae awdurdodau lleol wedi dweud nad oes ganddynt ddigon o adnoddau'n aml i ymdopi â galw o'r fath. Mae hyn yn arwain at ôl-groniadau mawr parhaus, gyda dros 123,000 o bobl yn aros am asesiad ym mis Mawrth 2024 er gwaethaf ymdrechion gan awdurdodau i fabwysiadu offer blaenoriaethu i brosesu ceisiadau a defnyddio adnoddau ychwanegol lle bo rhai ar gael. Mae nifer y ceisiadau a brosesir o fewn yr amserlen statudol o 21 diwrnod yn dal yn rhy isel, gan mai dim ond 19% o geisiadau safonol a gwblhawyd o fewn yr amserlen hon yn y flwyddyn adrodd ddiwethaf.

---

131 **Adroddiad Arolwg y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd) – Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (hiw.org.uk)**

132 **Adroddiad Arolwg Ysbyty (Dirybudd) – Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (hiw.org.uk)**

133 Burton Park **inspection report – Care Quality Commission (cqc.org.uk)**

134 **The state of health care and adult social care in England 2023/24 – Care Quality Commission (cqc.org.uk)**

Mae hyn yn golygu bod pobl mewn amgylchiadau bregus yn aros yn llawer rhy hir heb y mesurau diogelu cywir neu warchodaeth gyfreithiol. Gall hyn olygu eu bod yn cael eu hamddifadu'n anghyfreithlon o'u rhyddid neu'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn hwy nag sy'n angenrheidiol, o bosibl mewn trefniadau gofal anaddas. Gall effeithio ar hawliau dynol pobl os nad ydynt yn gallu herio'r amddifadu o ryddid, gan mai dim ond os oes awdurdodiad ar waith y mae cymorth cyfreithiol ar gael.

Mae rhai grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys pobl ag anabledd a phobl hŷn, yn fwy tebygol nag eraill o fod angen y mesurau diogelu a gynigir gan DoLS, ac felly bydd yr oedi cyn gweithredu'r diwygiadau yn effeithio'n anghymesur arnynt. Yn ogystal â hyn, roedd canfyddiadau arolwg y Comisiwn Ansawdd Gofal o Arweinwyr DoLS Cenedlaethol yn awgrymu y gallai'r defnydd parhaus o offer blaenoriaethu gan rai awdurdodau lleol waethygu anghydraddoldebau ymhellach i rai grwpiau, fel pobl ag anabledd dysgu neu ddementia, oherwydd efallai na fyddant bob amser yn cyrraedd y trothwy ar gyfer blaenoriaethu ac y gellid eu gadael yn aros am gyfnodau estynedig. Ar wahân i effeithiau'r ôl-groniadau, mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn arbennig o bryderus ynghylch cyfathrebu ynghylch DoLS ar gyfer pobl nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf neu sy'n defnyddio ffyrdd amgen o gyfathrebu. Mae grŵp rhanddeiliaid allanol y Comisiwn Ansawdd Gofal wedi sôn am bryderon ynghylch rhwystrau iaith a gwasanaethau cyfieithu annigonol, a achosodd drallod i bobl a oedd yn defnyddio gwasanaethau ac aelodau o'u teulu. Roedd un rhanddeiliad yn teimlo bod y materion hyn yn gallu cael eu gwaethygu gan gymhwysedd diwylliannol gwael ymysg staff, sy'n gallu arwain at ofal gwaeth, ymyriadau llai effeithiol, a llai o ymgysylltu â gwasanaethau.

Yn yr Alban, canfu 'Adolygiad o lwybr gofal diogel' yr Arolygiaeth Gofal fod mynediad at gymorth addysgol, cyfreithiol ac iechyd digonol a phriodol yn y gymuned yn hanfodol i atal pobl ifanc rhag mynd i leoliad gofal diogel.[135] Mae newidiadau rheolaidd i staff sy'n gofalu am bobl ifanc, neu gael eu symud o amgylch y system ofal yn cyd-fynd â llai o arwyddion o welliant mewn diogelwch.

135 **Secure care pathway review 2023 – Care Inspectorate (careinspectorate.com)**

## Datganiad craffu: dalfa'r heddlu

Ar draws Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae ymwelwyr ac arolygwyr yn gweld amrywiadau neu anghysondebau mewn arferion sy'n golygu bod carcharorion yn agored i risgiau uwch o gyflyrau gwael neu driniaeth anghymesur.

Pryder cyffredin mawr ymysg cyrff craffu'r NPM yw'r gwahaniaeth a welwn rhwng lefelau asesu risg a lefelau arsylwi a osodwyd yn nalfa'r heddlu. Yng Nghymru a Lloegr, mae ymwelwyr â'r ddalfa wedi gweld carcharorion agored i niwed naill ai'n cael eu hasesu ar gyfer bod yn agored i niwed neu'n cael eu hasesu fel rhai nad ydynt yn ddigon agored i niwed i fod angen oedolyn priodol arnynt. Mae tystiolaeth o Ystadegau Cystodaeth y Swyddfa Gartref a'r Rhwydwaith Oedolion Priodol Cenedlaethol yn awgrymu bod adnabod bregusrwydd yn amrywio'n sylweddol o un heddlu i'r llall. Yn yr Alban, nid yw'r bwlch rhwng lefel y risg a briodolir, a'r lefelau arsylwi a ddarperir i bobl yn y ddalfa, yn cael ei gydnabod yn dda, ac anaml y caiff ei archwilio. Mae'r gwahaniaethau hyn yn peri risg sylweddol i ddiogelwch y rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth. Yng Ngogledd Iwerddon, roedd chwiliadau ymwthiol o bobl ifanc, er yn brin, yn tueddu i ddilyn dull arferiad ac ymarfer hirsefydlog gan yr heddlu, yn hytrach na'r canllawiau a ddarparwyd gan Godau PACE. Mae hyn yn golygu bod plant sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn wynebu gweithdrefnau a allai fod yn ddiangen a thrawmatig pan fyddant yn mynd i ddalfa'r heddlu.

Mae anghysondebau mewn gofal iechyd yn sylw cyffredin arall. Yn yr Alban, mae darparwyr gofal iechyd ar draws y wlad yn darparu lefelau gwasanaeth sy'n amrywio'n fawr gyda gwahaniaeth trawiadol yn y math o ddarpariaeth. Yng Nghymru a Lloegr, mae trafferthion staffio unedau gofal iechyd wedi golygu bod rhai yn y ddalfa wedi methu â chael mynediad at ofal iechyd yn brydlon, ac amseroedd aros hir am sylw meddygol. Gall arosiadau hir i blant ac oedolion agored i niwed yn y ddalfa arwain at dreulio mwy o amser yn y ddalfa nag sydd raid – dylai'r cyfnod cadw fod am gyfnod mor fyr ag sy'n angenrheidiol. Yng Ngogledd Iwerddon, mae oedi wrth gyflwyno model gofal iechyd dan arweiniad nyrsys yn y ddalfa wedi arwain at anghysondebau o ran pa mor gyflym ac effeithiol y gall carcharorion gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd.

Mae materion staffio wedi effeithio ar feysydd eraill o les y rhai sy'n y ddalfa; weithiau nid oes digon o staff y ddalfa yn ystafelloedd dalfa Cymru a Lloegr i hwyluso mynediad at gawodydd neu i le yn yr awyr agored – mae'r rhain yn hawliau hanfodol ac mae diffyg mynediad yn effaith annerbyniol ar iechyd, hylendid ac urddas y rhai yn y ddalfa. Mae rôl craffu ymwelwyr â'r ddalfa ei hun yn cael ei pheryglu pan nad oes digon o staff i hwyluso ymweliad.

**Yn olaf, mae cyflwr ffisegol ystafelloedd dalfeydd yr heddlu yn peri ei risgiau ei hun. Yn yr Alban, mae adeiladau sydd prin yn ddigonol angen buddsoddiad cyfalaf, sy'n llesteirio strategaeth Heddlu'r Alban i wella cyfleusterau'n barhaus ar gyfer y rhai sy'n cael eu cadw yn nalfa'r heddlu.**




**Andy Cooke**
Prif Arolygydd Cwnstabliaeth EF a Phrif Arolygydd Gwasanaethau Tân ac Achub EF




**Rachel Lindsay**
Prif Arolygydd, Arolygiad Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJI)




**Matthew Magrath**
Rheolwr y cynllun, Cynllun Ymweld â'r Ddalfa Annibynnol Gogledd Iwerddon (ICVNI)




**Craig Naylor**
Prif Arolygydd Heddlu Ei Fawrhydi yn yr Alban




**Sherry Ralph**
Prif Swyddog Gweithredol, y Gymdeithas Ymweliadau â'r Ddalfa Annibynnol (ICVA)




**Kirsty Scott**
Rheolwr y Cynllun Cenedlaethol, Ymweld â Charchardai Annibynnol yr Alban (ICVS)

# Gweithgaredd NPM ar y cyd



Cafodd cynllun busnes ar gyfer 2023-25 ei lansio ym mis Ebrill 2023 gyda phedwar amcan strategol:

1. Cefnogi aelodau i gyflawni eu cyfrifoldebau eu hunain o dan OPCAT.
2. Ymgymryd â gwaith ar y cyd a chamau gweithredu ar y cyd gyda'r bwriad o atal pobl sy'n cael eu cadw'n gaeth rhag cael eu trin yn wael yn y DU.
3. Hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o egwyddorion OPCAT a gwaith yr NPM yn y DU.
4. Cysylltu a gweithio gyda mecanweithiau a sefydliadau rhyngwladol sydd â mandad i atal camdriniaeth.

Mae'r gwaith ar y cyd a amlinellir yn yr adrannau isod ar is-grwpiau cenedlaethol a grwpiau gorchwyl a gorffen wedi datblygu gwaith yr NPM ar amcanion un i dri yn ystod y flwyddyn adrodd. O dan amcan pedwar, ym mis Chwefror 2024, cyflwynodd tîm canolog yr NPM dystiolaeth i 140eg Sesiwn Pwyllgor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig lle'r oedd yn archwilio'r modd y mae'r DU wedi cyflawni ei hamcanion o dan y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol. Roedd cyflwyniad yr NPM, gan ddefnyddio adroddiadau arolygu a monitro cyrff NPM, yn craffu ar Adroddiad Gwladwriaeth y DU ar restr materion y pwyllgor, gan roi cyd-destun ychwanegol i sbarduno gwelliant mewn amodau a thriniaeth y rhai a amddifadwyd o'u rhyddid yn y DU. Roedd hefyd yn amlinellu pryderon nad ydynt yn cael sylw yn rhestr y Cenhedloedd Unedig o faterion, gan gynnwys:

- gorlenwi, gorgapasiti, ac amser allan o'r gell
- defnyddio carchar ar gyfer pobl sydd â salwch meddwl difrifol, gan gynnwys gorgynrychiolaeth mewn unedau gwahanu
- Dedfrydau Carcharu er mwyn Amddiffyn y Cyhoedd (IPP) yng Nghymru a Lloegr
- materion sydd heb eu datrys sy'n peri pryder

Roedd y cyflwyniad yn tynnu sylw at y diffyg cyfeiriad at gadw yng Ngogledd Iwerddon, sy'n destun pryder, naill ai yn rhestr materion y pwyllgor, neu ymateb y Wladwriaeth gan y DU, ac roedd yn darparu gwybodaeth atodol. Roedd y cyflwyniad hefyd yn tynnu sylw at y diffyg sail ddeddfwriaethol barhaus ar gyfer yr NPM, troseddoli anghyflawn ynghylch artaith yn neddfwriaeth y DU, a chyfrifoldeb alldiriogaethol dros artaith a thriniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol arall. Safbwynt llywodraeth y DU yw bod yr NPM yn cydymffurfio â gofynion OPCAT, fodd bynnag, mae gan bwyllgorau'r Cenhedloedd Unedig, y Rapporteur Arbennig ar Artaith, a Chyngor Ewrop bryderon parhaus ynghylch diffyg sail ddeddfwriaethol glir i'r NPM yn y DU a'r diffyg gwarant statudol o annibyniaeth o ganlyniad i hynny. Mae diffyg sail ddeddfwriaethol glir i'r NPM wedi bod yn destun pryder i'r SPT ers tro byd.[136] Mae yna gyfraith Brydeinig sy'n dal i danseilio'r gwaharddiad llwyr ar artaith: Mae'r DU dro ar ôl tro wedi gwrthod diddymu darpariaeth yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 1988 sy'n darparu amddiffyniad ar gyfer cyflawnwyr artaith honedig os oes "awdurdod, cyfiawnhad neu esgus cyfreithlon". Fodd bynnag, mae'r gwaharddiad ar artaith yn absoliwt ac ni ellir cyfiawnhau hynny. Yn olaf, dim ond drwy wahoddiad y creffir ar rai ardaloedd cadw sydd o dan reolaeth y wladwriaeth yn y DU, heb y pŵer i fynychu'n ddirybudd, sy'n golygu nad yw'r swyddogaeth ataliol yn y DU yn cael ei hymestyn yma.

136 Monitoring places of detention; Ninth Annual Report of the United Kingdom's National Preventive Mechanism 1 April 2017 – 31 March 2018, NPM (**npm.org.uk**)

Cyhoeddodd Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Arteithio adroddiad hefyd ar faterion cyfredol ac arferion da ym maes rheoli carchardai eleni.[137] Cyfrannodd yr NPM ganfyddiadau o'r DU, gan gynnwys argymhelliad i gyflwyno mentrau i gynyddu ymwybyddiaeth staff o niwrowahaniaeth, gan gynnwys nodi cyflyrau, cynlluniau gofal unigol, a chymorth un-i-un i garcharorion ag anghenion dysgu.

Ym mis Gorffennaf 2023, gwahoddwyd NPM y DU i gyfrannu at Adroddiad Byd-eang y Gymdeithas Atal Arteithio (APT) ar Fenywod mewn Carchardai, gyda'r nod o hyrwyddo trafodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar effaith carchar ar fenywod, ac i wella'r defnydd o opsiynau eraill yn hytrach na chadw sy'n ymateb i rywedd. Roedd cyfraniad NPM y DU yn amlinellu pryderon ynghylch y cynnydd mewn hunan-niweidio mewn carchardai menywod, lle'r oedd rhai menywod yn sâl iawn ac y dylent fod mewn ysbyty, y diffyg gofal gweithredol ac ataliol i atal menywod rhag wynebu argyfwng, gan arwain at staff yn defnyddio grym corfforol i atal ymddygiad hunan-niweidiol. Roedd hefyd yn sôn am derfynau parhaus i amser digonol allan o'r gell, sy'n cael ei waethygu gan brinder staff. Mewn rhai carchardai i fenywod, roedd dros hanner y boblogaeth ar lwyth achosion iechyd meddwl yn 2021, ac roedd gwasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai'n cael trafferth ymdopi.

Mae llawer o'r rhai sydd â'r anhwylderau meddwl mwyaf difrifol i'w canfod mewn unedau gwahanu, a pho fwyaf difrifol neu gymhleth yw'r cyflwr, yr hiraf yw'r arhosiad, gan fod oedi hir o hyd o ran trosglwyddo i unedau iechyd meddwl. Mae eraill yn hunan-niweidio'n aml ac yn beryglus gan ddefnyddio clymiadau. Mae rhai sydd â salwch meddwl aciwt yn dal i gael eu hanfon i'r carchar gan y llysoedd fel 'lle diogel' honedig neu er mwyn 'gwarchod eu hunain'. Mae angen brys am weithredu ar y cyd â'r Adran Iechyd fel nad carchar yw'r lleoliad diofyn ar gyfer pobl sydd ag anhwylder meddwl fel prif broblem.

Er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth o OPCAT a'r egwyddorion a gwaith yr NPM, lansiodd y tîm canolog wefan newydd yn cynnwys cyhoeddiadau thematig allweddol, a chynhyrchwyd dwy ddogfen ganllaw a thudalen hyfforddi o dan brosiect ataliol, yn amlinellu ystyriaethau ymarferol ar gyfer monitro, ymwelwyr ac arweinyddiaeth sefydliadol i gryfhau'r gwaith o atal artaith a thriniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol arall.[138]

137 **A/HRC/55/52: Current issues and good practices in prison management – Report of the Special Rapporteur on torture and other cruel, inhuman or degrading treatment or punishment – OHCHR (ohchr.org)**

138 **Training resources – National Preventive Mechanism (nationalpreventivemechanism.org.uk)**



# Is-grwpiau cenedlaethol NPM



## Is-grŵp NPM Gogledd Iwerddon

Cafodd Is-grŵp NPM Gogledd Iwerddon ei lansio'n swyddogol ym mis Ebrill 2023 ac mae'n cyfarfod bob chwarter, gan fynd i'r afael â chynllun gwaith parhaus sy'n nodi blaenoriaethau allweddol:

### Marwolaethau yn y ddalfa ac ar ôl rhyddhau

Ar hyn o bryd, mae Is-grŵp NPM Gogledd Iwerddon yn cynnal prosiect yn dilyn bwrdd crwn yr NPM ar farwolaethau yn y ddalfa, a gynhaliwyd ym mis Medi 2023, i amlinellu'r data y mae pob aelod-sefydliadau'n ei gael o'r lleoliadau maen nhw'n eu monitro ar ôl marwolaeth neu ddigwyddiad difrifol. Bydd yr adroddiad dilynol yn galluogi'r grŵp i ganfod bylchau yn y wybodaeth a ddarperir a sut i lenwi'r bylchau hynny er mwyn sicrhau craffu cynhwysfawr.

### Diogelu oedolion mewn mannau cadw

Gan fod diogelu oedolion yn broblem gynyddol mewn carchardai, mae CJI wedi adolygu gweithdrefnau ar gyfer adnabod ac uwchgyfeirio ac ar hyn o bryd mae wrthi'n cwblhau gweithdrefn diogelu ac uwchgyfeirio i hysbysu gwaith monitro ac arolygu yn y dyfodol. Pwrpas yr elfen waith hon oedd monitro cynnydd a chadw ffocws ar waith i fynd i'r afael â'r diffygion mewn dulliau diogelu oedolion a nodwyd mewn adroddiadau arolygu diweddar.

### Cyffredinrwydd anhwylder personoliaeth mewn mannau cadw

Mae'r ddeddfwriaeth iechyd meddwl bresennol yng Ngogledd Iwerddon, Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986, yn effeithio ar ddarparu gofal a thriniaeth i bobl ag anhwylder personoliaeth. Ni all pobl ag anhwylder personoliaeth nad ystyrir eu bod yn dangos unrhyw anhwylderau meddwl sy'n cydfodoli gael eu derbyn yn orfodol i ysbyty iechyd meddwl. Fodd bynnag, gellir cynnig eu derbyn i'r ysbyty ar sail wirfoddol. Mae yna ddibyniaeth sylweddol ar wasanaethau iechyd meddwl cymunedol i ddarparu triniaeth a chymorth i bobl ag anhwylder personoliaeth. Ar draws Gogledd Iwerddon mae amrywiadau o ran argaeledd y gwasanaethau hyn a'r llwybrau gofal a ddefnyddir.

Ar hyn o bryd yng Ngogledd Iwerddon nid oes gwasanaeth trin cleifion mewnol, preswyl na thriniaeth ddydd therapiwtig ddwys ar gyfer pobl ag anhwylder personoliaeth. Mae diffyg y gwasanaeth hwn wedi arwain at atgyfeiriadau i wasanaethau arbenigol y tu allan i Ogledd Iwerddon.

Mae tystiolaeth yn dangos bod nifer y bobl sydd ag anhwylder personoliaeth yn uwch o lawer ymysg poblogaeth y carchar na'r boblogaeth gyffredinol. Nid oes gwasanaeth anhwylder personoliaeth arbenigol ar gael yng ngharchardai Gogledd Iwerddon gan arwain at ddibyniaeth ar y tîm iechyd meddwl ac adnodd seicoleg presennol i ddarparu cefnogaeth ac ymyriadau. Mae diffyg gwasanaeth anhwylder personoliaeth arbenigol yng ngharchardai Gogledd Iwerddon a diffyg gwasanaeth anhwylder personoliaeth arbenigol rhanbarthol i gleifion mewnol wedi cael effaith negyddol ar bobl ag anhwylder personoliaeth yn y carchar. Mae rhai pobl wedi profi oedi hir o ran cael gafael ar gymorth seicolegol, gyda rhai yn gofyn am y cyfyngiadau ychwanegol a osodwyd yn unedau gofal a chymorth (CSU) y carchardai.

Mae hwn yn ffocws parhaus ar gyfer Gwasanaeth Carchardai Gogledd Iwerddon a'r tîm Gofal Iechyd Carchardai. Bydd y grŵp hwn yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd.

## Hyfforddiant i aelodau

Nid oes gan aelodau Bwrdd Rheoli Annibynnol Gogledd Iwerddon fynediad at ddigon o hyfforddiant i gyflawni eu rôl, sy’n hanfodol er mwyn sicrhau annibyniaeth weithredol staff yr NPM. Mae Erthygl 18 OPCAT yn ei gwneud yn ofynnol i wladwriaethau warantu annibyniaeth swyddogaethol NPMs a staff, ac i gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod ganddynt y galluoedd a’r wybodaeth ofynnol. Mae gweithgor bach yn cydweithio ar adnoddau hyfforddi ychwanegol ac mae wedi cynnig pynciau, cyfranwyr ac amserlenni ar gyfer hyfforddiant. Yn y cyfamser, mae gwaith ehangach ar ganllawiau ataliol ar gyfer monitorau wedi cael ei wneud gan dîm canolog NPM, gan gynhyrchu deunyddiau hyfforddi y gall cyrff NPM unigol eu haddasu.[139]

## Adnoddau cyrff NPM

Mae holl aelodau’r NPM yn wynebu heriau sy’n ymwneud â chyfyngiadau cyllidebol, sy’n effeithio ar eu gallu i sicrhau adnoddau a staff digonol i gyflawni eu mandad OPCAT a NPM. Mae pob gwladwriaeth sydd wedi cadarnhau OPCAT yn derbyn y rhwymedigaeth i ddarparu adnoddau digonol er mwyn i'r NPM allu gweithredu (Erthygl 18 OPCAT). Mae aelodau Is-grŵp NPM Gogledd Iwerddon yn wynebu anawsterau cynyddol o ran sicrhau digon o staff i ymgymryd â phob agwedd ar eu rôl fonitro. Mae cyfarfod wedi’i drefnu gyda’r Adran Iechyd a’r Adran Gyfiawnder i gyflwyno prif bryderon y grŵp, gan fynd i’r afael â’r rhain fel materion cysylltiedig rhwng y ddwy adran.

## Is-grŵp NPM Yr Alban

Mae Is-grŵp NPM yr Alban wedi nodi nifer o faterion allweddol mewn mannau cadw:

- gorboblogi mewn carchardai
- arosiadau hir ar gyfer trosglwyddo o garchar i gyfleuster iechyd meddwl
- dim cyfleusterau iechyd meddwl diogel iawn i fenywod yn yr Alban
- materion trafnidiaeth, sy’n effeithio ar nifer o leoliadau cadw a mynediad at ofal iechyd brys
- argymhellion o’r adolygiad o farwolaethau yn y ddalfa y mae angen gweithredu arnynt
- gwahanu yng ngharchardai’r Alban
- systemau cwyno annigonol mewn lleoliadau cadw
- hyfforddiant hawliau dynol annigonol i staff
- problemau gyda gwasanaethau presgripsiwn electronig a mynediad at feddyginiaeth yn y ddalfa
- lliniaru effeithiau’r Ddeddf Ymfudo Anghyfreithlon
- prosesau anghyson ar gyfer asesiadau iechyd meddwl ar draws gwahanol leoliadau
- argymhellion parhaus heb eu cyflawni gan holl aelodau’r is-grwpiau

139 Training resources – National Preventive Mechanism (nationalpreventivemechanism.org.uk)

Ym mis Hydref 2023, cyflwynodd Is-grŵp NPM yr Alban ymateb i ymgynghoriad Bil Hawliau Dynol Llywodraeth yr Alban.[140] Yn gyffredinol, roedd yr is-grŵp yn croesawu'r Bil a'i gynnig i ymgorffori, ond roedd yn eiriol dros gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn Erbyn Arteithio (UNCAT) a OPCAT yn y Bil, yn ogystal â rhaglen gyflawni fwy uchelgeisiol gan gynnwys darparu adnoddau ac arweiniad digonol i gefnogi cyrff craffu ar hawliau dynol i gyflawni eu gofynion. Byddai ymgorffori'r UNCAT ac OPCAT yn corffori mandad NPM mewn deddfwriaeth, gan gymryd camau rhagweithiol i atal artaith a chamdriniaeth drwy'r dyletswyddau a'r rhwymedigaethau a nodir yn OPCAT. Byddai ymgorffori UNCAT yn diogelu'r hawl i adsefydlu, gan nid yn unig gryfhau hawliau'r rheini sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn yr Alban ond hefyd byddai'n gwella canlyniadau iechyd meddyliol a chorfforol ar ôl bod yn y ddalfa.

Hefyd ym mis Hydref, cyhoeddodd yr is-grŵp ddatganiad yn mynegi pryderon am y diffyg cynnydd o ran gweithredu argymhellion i fynd i'r afael â marwolaethau mewn carchardai yn yr Alban.[141] Erbyn hyn, bedair blynedd ers comisiynu'r Adolygiad Annibynnol o'r Ymateb i Farwolaethau mewn Carchardai a dwy flynedd ers cyhoeddi'r argymhellion, dim ond pump o'r 26 o argymhellion a phwyntiau cynghori a gwblhawyd. Ym mis Tachwedd, cyfarfu'r is-grŵp ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder a Materion Cartref, Angela Constance i drafod gorboblogi mewn carchardai, trosglwyddiadau iechyd meddwl, gwella'r daith drwy ac allan o gaethiwed, a diffyg gweithredu systemig ar argymhellion gan gyrff craffu.

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd y grŵp lythyr o bryder ynghylch achosion o dorri hawliau dynol yn ymwneud â defnyddio unedau gwahanu ac ailintegreiddio yng ngharchardai'r Alban.[142] Ym mis Mawrth 2024, cadarnhaodd Gillian Imery, y cadeirydd allanol i ddarparu goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth annibynnol ar gyfer gweithredu argymhellion yr adolygiad annibynnol, fod 12 o argymhellion/pwyntiau cynghori wedi cael eu rhoi ar waith.

Gwahoddwyd Healthcare Improvement Scotland (HIS) i fynychu cyfarfodydd is-grŵp fel arsylwr eleni a bu'n gweithio gyda'r NPM i sicrhau cyllid i alluogi cydarolygiadau gyda HMICS. Lansiwyd rhaglen o gydarolygiadau rhwng HIS a HMICS eleni i sicrhau bod arolygiadau ac argymhellion yn cynnwys asesiad trylwyr o faterion sy'n effeithio ar garcharorion. Cwblhawyd arolygiadau ar y cyd yn Fife, Dumfries a Galloway, Tayside a Swydd Lanark.

Ym mis Mawrth 2024, dewisodd Is-grŵp NPM Yr Alban ddau fater allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf:

- Cynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn yr Adolygiad Annibynnol o'r Ymateb i Farwolaethau mewn Carchardai.
- Monitro trosglwyddiadau iechyd meddwl, gan gynnwys creu canllawiau ynghylch trosglwyddiadau iechyd meddwl, a chasglu data ar ba mor hir mae pobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn aros i gael eu trosglwyddo i welyau iechyd meddwl.

140 **NPM responds to Scottish Human Rights Bill consultation – National Preventive Mechanism (nationalpreventivemechanism.org.uk)**

141 **Concern expressed about lack of progress to address deaths in prisons in Scotland – National Preventive Mechanism (nationalpreventivemechanism.org.uk)**

142 **A Thematic Review Of Segregation In Scottish Prisons – HMIPS (prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**

# Mentrau NPM



## Marwolaethau yn y ddalfa

Ym mis Medi 2023, cynhaliodd NPM y DU drafodaeth bord gron ar farwolaethau yn y ddalfa. Cymerodd amrywiaeth o randdeiliaid ran, gan gynnwys sefydliadau NPM, Ombwdsmyn, Cyrff Anllywodraethol ac arbenigwyr annibynnol eraill ledled y DU. Mae marwolaethau mewn, ac ar ôl cael eu rhyddhau o, bob math o ddalfeydd yn bryder byd-eang a chynyddol, ac nid oes dadansoddiad cynhwysfawr ar draws y DU o pam mae marwolaethau yn y ddalfa yn cynyddu. Nod y cyfarfod bwrdd crwn oedd casglu safbwyntiau a dysgu ar y cyd er mwyn canfod cyfleoedd i gryfhau methodoleg ataliol, er mwyn cyfrannu at ymdrechion i atal marwolaethau yn y ddalfa. Nodwyd cyfres o feysydd problemus i fynd i'r afael â nhw yn ystod y cyfarfod bwrdd crwn:

- poblogaeth carchardai yn cynyddu a chapasiti
- mynediad at wybodaeth/data a'r defnydd ohonynt gan gyrff monitro ac ymchwilio
- rhoi gwybod am ddigwyddiadau difrifol
- gweithio gyda theuluoedd
- lleisiau'r rhai sy'n cael eu cadw
- argymhellion effeithiol
- hyfforddiant ac addysg

Ar sail cyflwyniadau a thrafodaethau'r diwrnod, cytunodd y cyfranogwyr fod cydweithredu gwell i atal marwolaethau yn y ddalfa yn flaenoriaeth a phenderfynwyd gweithio gyda'i gilydd.

## Y Menopos

Gan nodi bod menywod sy'n profi'r menopos a pherimenopos yn llai tebygol o weld anghenion corfforol ac emosiynol yn cael eu diwallu yn y ddalfa, cytunodd cynrychiolwyr NPM i gynhyrchu pecyn cymorth a fideo hyfforddi ar gyfer monitorau pob lleoliad cadw i fesur cymorth effeithiol yn y maes hwn. Gan adeiladu ar waith y Gymdeithas Ymweliadau â'r Ddalfa Annibynnol a OPCC Sussex, nododd y grŵp egwyddorion hawliau dynol a dangosyddion arfer da sy'n berthnasol i bob lleoliad ac mae wedi cynhyrchu fideo codi ymwybyddiaeth ac adnoddau hyfforddi ar gyfer monitorau.[143]

## Trosglwyddiadau iechyd meddwl

Mae'r gorddibyniaeth ar y system cyfiawnder troseddol i ymdopi â diffygion yn y GIG yn broblem ar draws y DU mewn carchardai, dalfa'r heddlu a sefydliadau iechyd ac iechyd meddwl. Mae materion mewn mannau cadw yn cynnwys diffyg hyfforddiant priodol ar gyflyrau ac ymddygiadau iechyd meddwl, amseroedd aros rhy hir ar gyfer trosglwyddo o'r ddalfa i gyfleuster iechyd meddwl diogel, a gorddefnyddio unedau ynysu.

Datgelodd adolygiad a gynhaliwyd gan y grŵp gorchwyl a gorffen iechyd meddwl bryderon tebyg gan aelodau NPM ledled y DU ynghylch darparu cymorth iechyd meddwl mewn carchardai a rhwng carchardai a gwasanaethau iechyd. Mae pobl â salwch meddwl yn cael eu gorgynrychioli mewn carchardai o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol, ac mae cyfraddau hunanladdiad a hunan-niweidio hefyd yn uwch, gyda thystiolaeth gref o salwch seicotig, iselder difrifol, a phroblemau camddefnyddio sylweddau.

143 Female Detainee Care and Dignity – The Menopause Transition Report from the Betterment (Healthcare) Working Group – ICVA (icva.org.uk); **Menopause toolkit – National Preventive Mechanism (nationalpreventivemechanism.org.uk)**

Mae diffyg dull strategol cyffredinol i ddiwallu anghenion pobl sydd â salwch meddwl, anabledd dysgu ac anhwylder ar y sbectrwm awtistig mewn carchardai. Y prif bryderon oedd bylchau mewn gwybodaeth am anghenion cymorth iechyd meddwl cyn, yn ystod ac ar ôl bod yn y ddalfa, amseroedd trosglwyddo a diffyg monitro amseroedd trosglwyddo, gorddefnydd o wahanu, prinder adnoddau, a diffyg hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff nad ydynt yn arbenigwyr. Mae gan bawb yr hawl i'r safon uchaf bosibl o iechyd ac iechyd meddwl, ac mewn lleoliadau cadw, mae gan y wladwriaeth gyfrifoldeb ychwanegol i hwyluso'r hawl hon.[144] Fodd bynnag, mae amodau, cyfundrefnau a thriniaeth mewn rhai lleoliadau wedi bod yn niweidiol i iechyd meddwl rhai unigolion.

Roedd y dadansoddiad hefyd yn ystyried diwygiadau presennol i'r gyfraith a allai wella'r sefyllfa hon, gan gynnwys y Bil drafft i ddiwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983 yng Nghymru a Lloegr, Adolygiad Cyfraith Iechyd Meddwl yr Alban a Vision for Justice yn yr Alban. Roedd hi'n galonogol bod y Cyd-bwyllgor ar y Bil Iechyd Meddwl Drafft wedi ymgysylltu ag aelodau NPM ynghylch niwed cadw pobl yn gaeth a'i effeithiau anghyfartal ar bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, argaeledd dewisiadau amgen yn y gymuned (yn enwedig ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu a phobl awtistig) a'r adnoddau sydd eu hangen i roi'r diwygiadau ar waith.[145]

Fodd bynnag, roedd yn siomedig bod y cynlluniau i ddiwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl, gan gynnwys newidiadau i'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, yn ogystal â chyflwyno terfyn amser ar gyfer trosglwyddo, wedi cael eu gohirio am gyfnod amhenodol gan y llywodraeth ym mis Tachwedd 2023.[146]

Roedd y Mesur drafft i ddiwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn cynnig terfyn amser statudol o 28 diwrnod ar gyfer trosglwyddo cleifion o'r carchar i'r ysbyty, monitro'r broses hon yn annibynnol, a dileu carchardai a gorsafoedd heddlu fel 'lleoedd diogel' o'r Ddeddf. Mae canllawiau'r GIG yn argymell amserlen o 28 diwrnod yng Nghymru a Lloegr.[147] Yng Ngogledd Iwerddon, mae Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986 a'r Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r claf gael ei dderbyn i'r ysbyty o fewn 14 diwrnod i'r argymhelliad i'w gadw mewn ysbyty.[148] Yn yr Alban, ar hyn o bryd nid oes unrhyw ganllawiau na gofynion o ran amseroedd trosglwyddo ar ôl atgyfeiriad clinigol. Fodd bynnag, mae angen trosglwyddo i gyfleuster iechyd meddwl diogel o fewn saith niwrnod os bydd llys yn gorchymyn hynny.

Yn dilyn adolygiad ansoddol y grŵp, cynhaliodd yr NPM ymarfer meintiol ar draws y pedair gwlad, gan gasglu data sydd ar gael gan awdurdodau comisiynu clinigol ar yr amser a gymerwyd i gwblhau trosglwyddiadau o garchardai i welyau iechyd meddwl diogel drwy gydol 2023.

144 **Mental health: Promoting and protecting human rights – WHO (who.int)**

145 **Draft Mental Health Bill 2022 –** CQC and MWCS **(parliament.uk)**

146 **The King's Speech 2023 – GOV.UK (www.gov.uk)**

147 Canllawiau Arferion Da Cenedlaethol.

148 Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986; Gorchymyn Iechyd Meddwl yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon) 1986 Cod Ymarfer, 2.22 (Derbyniadau dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol).

Canfu astudiaeth gan HMIP a'r Comisiwn Ansawdd Gofal o sampl o garchardai yng Nghymru a Lloegr mai dim ond 15% o'r trosglwyddiadau a wnaed o fewn 28 diwrnod o'r adeg y nodwyd na ellid trin eu hanghenion iechyd meddwl yn y carchar.[149] Yng Ngogledd Iwerddon, cafodd 31 o bobl yn y carchar eu cyfeirio am asesiad mynediad (er bod 59 o asesiadau wedi cael eu cynnal gan seiciatryddion Gofal Iechyd yn y Carchar neu ymarferydd meddygol yr Ymddiriedolaeth Lletyol yn ystod y cyfnod hwn). Mewn 13 o'r 31 achos, ni chynhaliwyd yr asesiad cychwynnol ei hun o fewn y terfyn amser o 14 diwrnod ar gyfer cwblhau trosglwyddiad. Roedd pedwar ar hugain o'r 31 asesiad yn argymell trosglwyddo i'r ysbyty, ac roedd 19 ohonynt wedi'u cwblhau. Cwblhawyd wyth trosglwyddiad o fewn y terfyn amser o 14 diwrnod. Yn yr Alban, canfu MWCS fod y Rhwydwaith Fforensig, sy'n gorff anadrannol, ar hyn o bryd yn ceisio casglu data ar nifer y trosglwyddiadau, a dychwelodd wybodaeth y bu iddo dderbyn 49 o atgyfeiriadau i wasanaethau iechyd meddwl fforensig yn ystod 2023, ac y derbyniwyd pob un ohonynt. Petai'r terfyn amser yn 28 diwrnod, byddai 53.3% o'r trosglwyddiadau yn 2023 wedi digwydd o fewn y terfyn. Er bod yr amser trosglwyddo lleiaf yn 0 diwrnod, roedd yr hiraf yn arhosiad maith o 150 diwrnod.

Nododd dadansoddiad data hefyd nad oes goruchwyliaeth annibynnol gyson o amserlenni trosglwyddo yng Nghymru a Lloegr nac yn yr Alban, ac nad yw data ar gael i'r cyhoedd. Yng Ngogledd Iwerddon, gall RQIA ofyn am drosglwyddo gwybodaeth gan ymddiriedolaethau iechyd, ond nid oes trefniant ar gyfer rhannu data yn rheolaidd.

Mae cymhariaeth o'r ffigurau sy'n cael eu casglu gan MWCS ar nifer yr unigolion sy'n cael eu trosglwyddo o garchardai, a'r wybodaeth sydd wedi'i throsglwyddo i'r Rhwydwaith Fforensig, yn dangos nad yw'r data sydd ar gael drwy'r Rhwydwaith Fforensig yn gywir, a'i bod yn debygol fod y data ar amseroedd aros yn anghyflawn.

Ar sail adolygiad y grŵp gorchwyl a gorffen, y diffyg cynnydd ar y Bil drafft, a'r canfyddiadau bod y terfynau amser dros dro a gofynnol a argymhellir ar gyfer trosglwyddo o garchar i ysbyty diogel yn cael eu methu ar draws y pedair gwlad, bydd y grŵp gorchwyl a gorffen nawr yn ymgysylltu â'r llywodraeth newydd ar ddiwygiadau newydd i'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

## Diffiniad o gadw neu amddifadu o ryddid

Yn ystod y flwyddyn adrodd, ymgynghorodd y SPT ar Sylw Cyffredinol ar Erthygl 4 OPCAT er mwyn mynd i'r afael â'r diffiniad o 'fannau cadw'.[150] Cafodd y Sylwad Cyffredinol eu cwblhau ym mis Gorffennaf 2024. Bydd hon yn ddogfen allweddol wrth arwain NPMs a Gwladwriaethau i sicrhau bod pob man lle gallai rhywun gael ei amddifadu o'i ryddid yn cael ei fonitro'n ddigonol. I ategu'r Sylwad Cyffredinol, sefydlodd yr NPM Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gytuno ar ddiffiniad cryno a chanllaw gweithredu at ddefnydd mudiadau NPM ac unigolion sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli ar eu rhan.

149 **The long wait: A thematic review of delays in the transfer of mentally unwell prisoners by HM Chief Inspector of Prisons February 2024 – HMIP (cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com)**

150 Optional Protocol to the Convention against Torture and Other Cruel, Inhuman or Degrading Treatment or Punishment – United Nations **(un.org)**

Yn ogystal ag allbynnau'r gweithgor, mae canllawiau Ofsted a'r Arolygiaeth Gofal yn cwestiynu pryd mae amodau mewn lleoliadau gofal yn gyfyngiadau ar ryddid, a phryd mae cyfyngiadau'n gyfystyr amddifadu o ryddid. Mae 'Amgylchedd cadarnhaol lle gall plant ffynnu' Ofsted yn amlinellu pan na all plant adael cyfleusterau'n hawdd megis ystafell neu bebyll synhwyraidd yn annibynnol, neu os yw staff yn eu hannog i beidio â gadael, gall hyn fod yn gyfyngiad.[151] Mae papur safbwynt yr Arolygiaeth Gofal o fis Mehefin 2023 yn amlinellu bod dwysedd y mesurau a ddefnyddir i gyfyngu ar ryddid plentyn yn dangos a yw hyn yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid.[152] Dylai unrhyw arfer gofal sy'n cyfyngu ar ryddid person ifanc fod yn gyfyngedig o ran amser, cael ei gofnodi a'i gyfleu, gydag adolygiad ffurfiol rheolaidd. Fel arfer, dim ond gwasanaeth llety diogel cofrestredig sy'n gallu cymhwyso cyfyngiadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid yn gyfreithlon.[153]

Yng Ngogledd Iwerddon, ar adegau mae RQIA wedi nodi arferion cyfyngol anghyfreithlon mewn gwasanaeth gofal cofrestredig sydd wedi arwain at Amddifadu o Ryddid heb awdurdod neu gadw de facto. Mae'r Awdurdod wedi defnyddio ei bwerau rheoleiddio i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion ar unwaith.

Ym mis Ionawr, penododd Grŵp Gorchwyl a Gorffen NPM ymchwilydd allanol i brofi tri diffiniad posibl. Daeth y gwaith hwn i'r casgliad y gellid defnyddio diffiniad sy'n edrych y tu hwnt i'r lleoliad ffisegol, i ystyried a yw unigolyn yn gallu gadael yn ôl ei ewyllys, ei wendidau unigol, yn ogystal â natur a maint y rheolaethau. Bydd y gweithgor yn ystyried y canfyddiadau ochr yn ochr â Sylwad Cyffredinol yr SPT.

151 **Positive environments where children can flourish – GOV.UK (www.gov.uk)**

152 **Depriving and restricting liberty for children and young people in care home, school care and secure accommodation services– Care Inspectorate (careinspectorate.com)**

153 **Depriving and restricting liberty for children and young people in care home, school care and secure accommodation services – Care Inspectorate (careinspectorate.com)**



# Gwaith parhaus cyrff NPM a blaenoriaethau thematig



Mae adroddiadau thematig allweddol gan gyrff NPM ar gael ar wefan NPM y DU.[154]

## Arolygiaeth Gofal

Cynhaliodd yr Arolygiaeth Gofal archwiliadau dirybudd o bedwar gwasanaeth llety diogel cofrestredig eleni; Gwasnaeth Llety Diogel Rossie, Canolfan Ddiogel Kibble, St Marys Kenmure a Chanolfan y Bugail Da Llandeilo Ferwallt. Ym mis Medi, cyhoeddodd yr Arolygiaeth Gofal argymhellion ar 'Recriwtio Mwy Diogel Drwy Recriwtio Gwell' sy'n ymateb i broblemau systemig o ran recriwtio a chadw staff ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.[155] Cyhoeddwyd safonau Terfynol Bairn's House, yr ymgynghorodd yr Arolygiaeth Gofal arnynt yn ystod y flwyddyn adrodd ddiwethaf, ym mis Mai.[156] Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd yr Arolygiaeth Gofal bapur safbwynt – 'Depriving and restricting liberty for children and young people in care home, school care and secure accommodation services'', sy'n rhoi manylion am enghreifftiau o gyfyngiadau ar ryddid ac yn amlinellu pryd y gallai cyfyngu ar ryddid fod yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid drwy ddyluniad amgylcheddol neu arferion gofal.[157] Cyhoeddwyd 'Fframwaith ansawdd ar gyfer llety cyfiawnder (llety i droseddwyr)' ym mis Mawrth eleni.

## Arolygiaeth Gofal Cymru

Gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn monitro Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yng Nghymru, gan gynhyrchu'r adroddiad monitro blynyddol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi galw am fuddsoddiad parhaus mewn chwarae a chynnydd, ffocws di-baid ar les staff, arweinyddiaeth dosturiol ac ymyrraeth gynnar. Mae AGC hefyd yn glynu wrth fframwaith Llywodraeth Cymru ar leihau arferion cyfyngol. Cynhaliodd AGC arolwg o Wasanaeth Llety Diogel Cymru eleni.

## Y Comisiwn Ansawdd Gofal

Mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn cyhoeddi'r adroddiadau 'Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl' a 'Cyflwr Gofal' bob blwyddyn, gan adrodd ar ddiogelu a thriniaeth ar gyfer y rheini sy'n cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r rheini sy'n destun awdurdodiad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn rheoleiddio darparwyr cofrestredig, gan gynnwys gofynion hyfforddi ar gyfer staff o dan Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 yn cynnwys gofyniad ar anabledd dysgu ac awtistiaeth.[158] Ym mis Awst 2023, cyhoeddodd y Comisiwn Ansawdd Gofal ei safbwynt polisi newydd ar arferion cyfyngol, sy'n ymdrin â disgwyliadau bod darparwyr yn hyrwyddo diwylliannau cadarnhaol lle mae staff yn gwrando ar ac yn deall pobl yn eu gofal, yn hyrwyddo ymddiriedaeth, yn cefnogi adferiad, ac yn gwarchod diogelwch a llesiant.[159]

---

154 **Key reports from NPM bodies – National Preventive Mechanism (nationalpreventivemechanism.org.uk)**

155 **Safer recruitment guidance 2023 – Care Inspectorate (careinspectorate.com)**

156 **Bairns' Hoose (Barnahus) Standards – Care Inspectorate (careinspectorate.com)**

157 **Depriving and restricting liberty for children and young people in care home, school care and secure accommodation services – Care Inspectorate (careinspectorate.com)**

158 **Training staff to support autistic people and people with a learning disability – Care Quality Commission (cqc.org.uk)**

159 **Restrictive practice — a failure of person-centred care planning? – Care Quality Commission (cqc.org.uk)**

Gyda HMIP, cyhoeddodd y Comisiwn Ansawdd Gofal 'The Long Wait: A thematic review of delays in the transfer of mentally ill prisoners' ym mis Chwefror.[160] Ailymrwymodd y Comisiwn Ansawdd Gofal i hawliau dynol eleni drwy gyhoeddi dull gweithredu hawliau dynol wedi'i ddiweddaru ym mis Rhagfyr 2023.[161] Mae hyn yn nodi bod gofal da yn ofal sy'n parchu hawliau a rhaid iddo gael ei adeiladu ar ddiwylliannau sy'n parchu hawliau mewn gwasanaethau iechyd a gofal. Mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal wedi integreiddio'r Fframwaith Cydraddoldeb Hiliol i Gleifion a Gofalwyr yn ei strwythur asesu, sy'n cefnogi hawliau a thriniaeth gyfartal a chanlyniadau cymunedau sydd wedi'u hiliaethu. Mae hyn yn gobeithio mynd i'r afael â'r dad-ddynoli a'r hiliaeth a wynebir gan gymunedau sydd wedi'u hiliaethu a grwpiau ethnig amrywiol.

## Comisiynydd Plant Lloegr

Ymysg nifer o adroddiadau a gyhoeddwyd drwy gydol y flwyddyn adrodd, mae'r Comisiynydd Plant wedi eiriol yn erbyn y posibilrwydd o ddefnyddio chwistrell analluogi mewn sefydliadau troseddwyr ifanc, wedi cyhoeddi adroddiad ar bryderon yn dilyn ymweliad â Cookham Wood, sy'n STI yng Nghaint, ac wedi ysgrifennu llythyr at Y Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa ynghylch plant yn y ddalfa. Roedd swyddfa'r comisiynydd yn ymgysylltu'n rheolaidd â gweinidogion a swyddogion yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa ar blant a oedd yn cael eu cadw mewn lleoliadau diogel, ac yn ymweld yn aml â lleoliadau lle mae plant yn cael eu cadw, gan gynnwys pob Sefydliad Troseddwyr Ifanc.

## Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon

Cyhoeddodd CJI adroddiad ar arolygiad dirybudd o Garchar Maghaberry ym mis Mehefin 2023 a chynhaliodd ddau IRP yn ystod y flwyddyn adrodd yng Ngharchar Maghaberry a Charchar Magilligan, gan amharu ar gylch traddodiadol arolygiadau carchardai i gwestiynu sut mae sefydliadau'n gweithredu argymhellion rhwng arolygiadau. Ym mis Medi 2023, cyhoeddodd CJI adolygiad dilynol o argymhellion adolygiad y llynedd o Unedau Gofal a Goruchwyliaeth, gan nodi bod y camau a gymerwyd rhwng gwasanaethau wedi bod yn drawiadol, gan gynnwys datblygu fframwaith gweithredol yn gyflym, defnydd arloesol o dechnoleg a goruchwyliaeth effeithiol drwy ddata.[162] Fodd bynnag, mae rhai unigolion ag anghenion heriol iawn yn parhau i gael eu rheoli mewn CSUs, ac mae'r cynnydd yn y boblogaeth carcharorion, prinder staff, ôl-groniadau llysoedd a phwysau cyllido wedi creu amgylchedd gweithredol heriol parhaus. Cynhaliodd CJI adolygiad dilynol o Ymarfer Prawf a gofal a thriniaeth dioddefwyr a thystion gan y system cyfiawnder troseddol yn ogystal â chyhoeddi adroddiad ar arolygiad o'r dull systemau cyfiawnder troseddol ar gyfer pobl hŷn agored i niwed.

## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn monitro sut mae byrddau iechyd a darparwyr annibynnol yn cyflawni eu pwerau a'u dyletswyddau o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, a ddiwygiwyd yn 2007, ar ran gweinidogion Cymru.

---

160 **The long wait: A thematic review of delays in the transfer of mentally unwell prisoners by HM Chief Inspector of Prisons February 2024 (justiceinspectorates.gov.uk)**

161 **Our updated human rights approach – Care Quality Commission (cqc.org.uk)**

162 **A review into the operation of Care and Supervision Units in the Northern Ireland Prison Service – Criminal Justice Inspection Northern Ireland (cjini.org)**

Ar ben hynny, maent yn gweithredu'r gwasanaeth meddyg ail farn penodedig (SOAD) ar gyfer Cymru. Mae'r gwasanaeth hwn yn diogelu hawliau pobl sydd, tra'u bod yn cael eu cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, wedi gwrthod triniaeth ar bresgripsiwn neu wedi cael eu hasesu fel rhai nad ydynt yn gallu cydsynio i'r driniaeth. O dan adolygiad o driniaeth o dan adran 61 y Ddeddf Iechyd Meddwl, pan fydd SOAD wedi awdurdodi cynllun triniaeth, rhaid i'r meddyg sy'n gyfrifol am ofal a thriniaeth y claf (y Clinigydd Cyfrifol) ddarparu adroddiad ar gyflwr a thriniaeth y claf i AGIC i'w adolygu. Lansiodd AGIC, ochr yn ochr ag AGC ac Estyn, adolygiad ar y cyd o sut mae gofal iechyd, addysg a gwasanaethau plant yn cefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru. Gan ymateb i amseroedd aros hir am gymorth a'r galw uchel sy'n uwch na chapasiti'r gwasanaeth, bydd adroddiad cenedlaethol ar y cyd yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref.[163]

## Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub

Arolygodd HMICFRS bum ystafell cadw'r heddlu: Dorset, Swydd Gaerhirfryn, De Cymru, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Gorllewin Swydd Efrog. Er na chofnodwyd unrhyw ddigwyddiadau, mae pob adroddiad yn cyfeirio at bwyntiau clymu posibl mewn celloedd, a chafodd rhai ohonynt eu codi mewn arolygiadau blaenorol ac maent yn dal heb gael sylw.

## Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi ar gyfer Yr Alban

Cynhaliodd HMICS bedwar cydarolygiad gyda Health Improvement Scotland (HIS) eleni, gan addasu dull gweithredu cydgysylltiedig ar gyfer materion mewn perthynas â'r ddalfa. Yn ogystal ag arolygiadau o ddalfeydd yr heddlu, cyhoeddodd HMICS adolygiad thematig o blismona Iechyd Meddwl yn yr Alban. Er nad oedd gweithdrefnau cadw yn rhan o gwmpas yr adolygiad, mae'r adroddiad yn argymell adolygiad ehangach a mwy strategol o'r dull system gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl yn yr Alban. Gwnaeth 'Thematic Inspection of Organisational Culture in Police Scotland' a gyhoeddwyd gan HMICS ym mis Rhagfyr, 11 o argymhellion i wella diwylliant, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, diffinio a mesur gwerthoedd, a gwella cyfathrebu, hyfforddiant ac arweiniad.[164]

## Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi

Cyhoeddodd HMIP 79 arolygiad, adolygiad annibynnol o gynnydd ac adroddiadau thematig o garchardai, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc STCs, canolfannau cadw mewnfudwyr, dalfa'r llys, ac arolygiadau all-awdurdodaeth (Gogledd Iwerddon ac Ynys Manaw). Cyhoeddodd HMIP bedwar hysbysiad brys i Garchardai Bryste, Woodhill, Bedford, a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Cookham Wood. Cyhoeddwyd adolygiadau thematig ar benwythnosau yn y carchar, menywod a phlant â statws cyfyngedig, ansawdd addysg ddarllen, plant sy'n cael eu remandio, effaith recriwtio a chadw, profiadau plant mewn STCs a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, ac oedi wrth drosglwyddo carcharorion â salwch meddwl. Cyflwynodd HMIP sylwadau i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y Pwyllgor Cyfiawnder a Materion Cartref, y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder, y Cyngor Dedfrydu ac ymchwiliad Brook House.

---

163 **Cydadolygiad: Sut mae gofal iechyd, addysg a gwasanaethau plant yn cefnogi anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru? - Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (hiw.org.uk)**

164 **HMICS Thematic Inspection of Organisational Culture in Police Scotland – HM Inspectorate of Constabulary in Scotland (hmics.scot)**

## Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Yr Alban

Drwy gydol y flwyddyn adrodd, cynhaliodd HMIPS ddau arolygiad o unedau cadw mewn llys, pedwar arolygiad llawn o garchardai, a chwe adolygiad thematig ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol. Cynhaliodd Monitorau Carchardai Annibynnol (IPMs) 1,059 o ymweliadau â charchardai dros 4,149 o oriau monitro, gan weithredu 1,202 o geisiadau gan garcharorion. Cyhoeddodd Monitorau Carchardai Annibynnol eu hadroddiadau blynyddol penodol ar garchardai. Roedd yr adroddiadau thematig yn cynnwys adolygiad dadansoddol o brofiadau pobl ifanc o Ystâd Carchardai'r Alban, ac adolygiad thematig o wahanu yng Ngharchardai'r Alban. Ym mis Ebrill 2024, cyhoeddodd HMIPS a'r Arolygiaeth Gofal yr adroddiad ar y cyd 'Adolygiad thematig o waith cymdeithasol mewn carchardai', sy'n cydnabod effaith gadarnhaol perthynas ystyrlon rhwng staff a charcharorion ar les a chymhelliant mewn carchardai, a bod llawer o bobl mewn carchardai heb gysylltiad digonol â gweithwyr cymdeithasol yn y carchar.[165] Mae'r pwysau ar adnoddau a diffyg gweledigaeth strategol genedlaethol ynghylch nodau gwaith cymdeithasol yn y carchar yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau.

## Cymdeithas Ymweliadau â'r Ddalfa Annibynnol

Mae ymgyrchoedd ac ymyriadau ICVA wedi arwain at gynnydd amlwg mewn tri maes thematig allweddol dros y flwyddyn adrodd. Mae arweinydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu dros Gystodaeth yn cefnogi dau o dri argymhelliad ICVA ac yn cytuno i archwilio'r argymhelliad terfynol i roi terfyn ar ddefnyddio dillad gwrth-rwygo, mewn llythyr at gydweithwyr ym mis Ionawr 2024.[166] Ers gwaith ICVA ar lefelau lwcs mewn celloedd, cytunwyd i ddiwygio'r Canllaw Dylunio'r Ddalfa i lefelau lwcs sylweddol is mewn safleoedd newydd ac ar gyfer gwaith adnewyddu mawr.[167] Gwnaed argymhellion yn NPCC i wneud diwygiadau i APP y Coleg Plismona i gynnig gwell cefnogaeth a gofal i fenywod sy'n mynd drwy'r menopos yn y ddalfa.[168]

## Ymweliadau â'r Ddalfa Annibynnol Yr Alban

Mae ymwelwyr â'r ddalfa annibynnol yn sicrhau bod darpariaeth dalfa'r heddlu yn yr Alban yn cynnal y safonau rhyngwladol a osodwyd gan y Cenhedloedd Unedig i atal artaith, a thriniaeth greulon, annynol neu ddiraddiol i bobl sydd yn y ddalfa. Cynhaliodd ymwelwyr â'r ddalfa annibynnol dros 1,000 o ymweliadau yn ystod y flwyddyn adrodd a siaradodd hwy â thros 1,600 o bobl yn y ddalfa.

165 **Prison-based social work: thematic review – Care Inspectorate** (careinspectorate.com)

166 **Anti-Rip Clothing, Update Report – ICVA (icva.org.uk)**

167 **Lux Lighting in Custody: An Impact Report – ICVA (icva.org.uk)**

168 **The Menopause Transition Report from the Betterment (Healthcare) Working Group – ICVA (icva.org.uk)**

## Bwrdd Monitro Annibynnol

Cynhaliodd Byrddau Monitro Annibynnol 37,715 o ymweliadau yn 2023, gan gyhoeddi 128 o adroddiadau blynyddol ar garchardai oedolion, STIau a chanolfannau cadw mewnfudwyr. Cyhoeddodd y Bwrdd Monitro Annibynnol cenedlaethol bedwar adroddiad cenedlaethol thematig, ar ganfyddiadau blynyddol ar gyfer canolfannau cadw mewnfudwyr, effaith dedfrydau IPP ar les carcharorion, pryderon iechyd meddwl mewn carchardai menywod, a diogelwch a threfn yn yr ystâd ieuenctid. Ymatebodd y Bwrdd Monitro Annibynnol i ymgyngoriadau gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF a'r Swyddfa Gartref, ar wahanu, triniaeth cyffuriau, diogelwch plant a phobl ifanc, menywod yn y carchar a chadw mewnfudwyr, lles a darpariaeth deuluol mewn canolfannau cadw mewnfudwyr, a thechnoleg. Rhoddodd Byrddau Monitro Annibynnol dystiolaeth hefyd i'r Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol, y Pwyllgor Materion Cartref, y Pwyllgor Materion Cymreig, y Pwyllgor Cyfiawnder a'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Faterion Cosbi.

## Byrddau Monitro Annibynnol (Gogledd Iwerddon)

Mae gan Garchar Maghaberry, Carchar Magilligan, a Choleg Diogel a Charchar Menywod Hydebank Wood IMB, a barhaodd i fonitro cynnydd ar argymhellion a gwelliannau.

## Adolygydd Annibynnol o Ddeddfwriaeth Terfysgaeth

Mae'r Adolygydd Annibynnol o Ddeddfwriaeth Terfysgaeth yn parhau i weithio ar ei fandad craidd, gan weithio'n agos gyda phartneriaid i fynd i'r afael â phryderon a'u lliniaru.

## Arsyllwyr Lleyg

Mae Arsyllwyr Lleyg yn wirfoddolwyr annibynnol sy'n gwirio bod carcharorion sy'n cael eu hebrwng gan gwmnïau preifat yng Nghymru a Lloegr yn cael eu trin yn weddus. Mae Arsyllwyr Lleyg yn archwilio mannau cadw'r llys a'r cerbydau cellog a ddefnyddir gan gontractwyr i gludo carcharorion i'r llys ac oddi yno. Maent hefyd yn ymweld â gorsafoedd heddlu i arsylwi trosglwyddo carcharorion o'r heddlu i'r contractwyr ac yn ymweld â charchardai i arsylwi trosglwyddo carcharorion o'r carchar i'r contractwyr a vice versa. Mae Arsyllwyr Lleyg yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o sicrhau bod safonau gwedduster yn cael eu cynnal.

## Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban

Mae'r comisiwn yn gorff statudol annibynnol sy'n gweithio i amddiffyn a hyrwyddo hawliau dynol pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, anableddau dysgu, dementia a chyflyrau cysylltiedig. Mae ei weithgareddau'n cynnwys gwirio a yw gofal a thriniaeth unigol yn gyfreithlon ac yn unol ag arferion da,



grymuso pobl a'u teuluoedd neu ofalwyr drwy gyngor, arweiniad a gwybodaeth; hyrwyddo arfer gorau wrth gymhwyso cyfraith iechyd meddwl ac analluedd, a dylanwadu ar bolisi, deddfwriaeth a datblygu gwasanaethau.

## Cynllun Ymweld â'r Ddalfa Annibynnol Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon

Gwnaeth dau ddeg tri o ymwelwyr â'r ddalfa 470 ymweliad yn ystod y flwyddyn adrodd, gan gyfweld â 1,048 o garcharorion a gwirio 918 o gofnodion dalfa. Roedd y materion mwyaf cyffredin sy'n ymwneud â lles y rhai sy'n cael eu cadw yn cynnwys darparu sylw meddygol, rhai sydd angen oedolyn priodol, neu sydd angen rhoi gwybod i rywun eu bod wedi cael eu harestio. Codwyd 25 o faterion yn ymwneud ag amodau materol yn y ddalfa, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â chyfarpar diffygiol neu waith cynnal a chadw cyffredinol. Adroddwyd am dri ar ddeg o beryglon diogelwch yn ystod y flwyddyn.

## Ofsted (Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau)

Ofsted sy'n arwain arolygiadau o ganolfannau hyfforddi diogel gyda chefnogaeth HMIP a'r Comisiwn Ansawdd Gofal, a'r Academïau 16-19 Diogel gyda chefnogaeth y Comisiwn Ansawdd Gofal. Mae Ofsted hefyd yn cefnogi arolygiadau HMIP o Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn Lloegr sy'n asesu darpariaeth addysg. Cyhoeddodd Ofsted ddau adroddiad arolwg thematig ar y cyd â HMIP eleni: ansawdd addysg darllen mewn carchardai, a gwaith gyda phlant sy'n cael eu remandio yn y ddalfa ieuenctid (gydag Arolygiaeth Prawf EF).

Cyhoeddodd Ofsted flog ar bwysigrwydd cynllunio da ar gyfer plant sy'n symud ymlaen o'r ystâd sefydliadau diogel, ac ar egwyddorion cofrestru cartrefi plant.[169]

## Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd

RQIA yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am fonitro ac arolygu argaeledd ac ansawdd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon ac annog gwelliannau yn ansawdd y gwasanaethau hynny. Dyletswydd gyffredinol RQIA yw adolygu gofal a thriniaeth pobl sy'n dioddef neu'n ymddangos eu bod yn dioddef o anhwylder meddwl o dan Orchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986. Mae ganddo gyfrifoldebau penodol i asesu'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (boed hynny mewn lleoliad acíwt neu gymunedol) a ddarperir i bobl ag afiechyd meddwl neu anabledd dysgu, ac i ymchwilio i unrhyw achos lle gallai fod cam-drin, diffyg gofal neu driniaeth, cadw'n amhriodol mewn ysbyty neu warcheidiaeth, neu risg o golled neu ddifrod i eiddo claf oherwydd ei anhwylder meddyliol. Mae'r RQIA yn cynnal arolygiadau ar draws 56 o wardiau iechyd meddwl ac anabledd dysgu, gan gynnwys gwasanaethau cleifion mewnol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, yr uned ddiogel ranbarthol i blant, a lleoliadau gofal cofrestredig ar gyfer oedolion a phlant. Mae RQIA yn craffu ar dros 8,000 o ffurflenni asesu gorchmynion iechyd meddwl bob blwyddyn i sicrhau bod cleifion yn cael eu cadw yn unol â'r ddeddfwriaeth ofynnol. Eir i'r afael ag unrhyw achos o gadw amhriodol a nodwyd. Mae RQIA hefyd yn goruchwylio ceisiadau i ddarparu ail farn mewn perthynas â Rhan IV Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986.

169 **The importance of good planning for children moving on from the secure estate – Ofsted: social care (blog.gov.uk)**; **Registering children's homes – principles and hints and tips – Ofsted: social care (blog.gov.uk)**

Mae'r ail farn hon yn cynnwys adolygiadau o feddyginiaethau a rhoi ail farn ar roi therapi electrogynhyrfol i gleifion nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio. Mae hefyd yn asesu ansawdd gofal iechyd mewn carchardai drwy gydarolygiadau gydag Arolygiad Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon, a'r Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant.

## Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban

Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban yw Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol yr Alban sydd â mandad i hyrwyddo ac amddiffyn hawliau dynol. Ym mis Mawrth, adroddodd y comisiwn bryderon ynghylch cadw i gyrff monitro'r Cenhedloedd Unedig, gan gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Hawliau Dynol ar faterion fel gorlenwi mewn carchardai a diffyg mynediad at ofal iechyd meddwl priodol. Rhoddodd SHRC wybodaeth briffio a thystiolaeth i bwyllgorau seneddol yr Alban a'r DU ar ddeddfwriaeth a pharhaodd i bwyso am weithredu argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Ymateb i Farwolaethau yn y Ddalfa.

ISBN 978-1-5286-5296-4
E03247690;